



RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:

5/2020

DYDDIAD CYHOEDDI:

29 Ionawr 2020

Gwerthuso'r Rhaglen Mynediad 2017 i 2019

Gwerthuso'r Rhaglen Mynediad 2017 - 2019

Tom Marshall ac Endaf Griffiths / Wavehill



Safbwyntiau'r ymchwilydd a geir yn yr adroddiad hwn, ac nid o anghenraid safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Hannah Smith

Gwasanaethau gwybodaeth a dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 062 2308

E-bost: Hannah.Smith002@llyw.cymru

Tabl cynnwys

Tabl cynnwys	1
Rhestr o'r tablau.....	2
Rhestr o'r ffigurau	3
1. Crynodeb Gweithredol.....	5
2. Cyflwyniad/Cefndir	10
3. Cyd-destun yr Ymyriadau ac Adolygu'r Llenyddiaeth	14
4. Methodoleg	20
5. Canfyddiadau'r Gwerthusiad o'r Broses	26
6. Canfyddiadau'r Gwerthusiad: Y Canlyniadau a'r Effaith.....	45
7. Casgliadau ac Argymhellion.....	56
Atodiad A: Cwestiynau Gwerthuso Penodol	60
Atodiad B: Y Model Rhesymeg a'r Fframwaith Gwerthuso	62
Atodiad C: Adnoddau Ymchwil.....	70
Atodiad D: Nodyn Preifatrwydd	98
Atodiad E: Astudiaethau Achos y Rhaglen Mynediad	102

Rhestr o'r tablau

Tabl 4.1: Cynghorwyr Gyrfa Cymru yn ôl ardal awdurdod lleol	25
Tabl 5.1: Ffynonellau gwybodaeth am y farchnad lafur i gynghorwyr Gyrfa Cymru	37
Tabl 5.2: Y ffrydiau cefnogaeth a ddefnyddiwyd gan y cyfranogwyr	39

Rhestr o'r ffigurau

Ffigur 3.1: Y cyfraddau diweithdra yn awdurdodau lleol ardal Tasglu'r Cymoedd, Cymru a Phrydain Fawr (Hydref 2015 – 2018)	15
Ffigur 3.2: Canran y bobl 16 i 64 oed a oedd yn economaidd anweithgar yn awdurdodau lleol ardal Tasglu'r Cymoedd, Cymru a Phrydain Fawr (Hydref 2017 – Medi 2018)	16
Ffigur 4.1: Oedran yr ymatebwyr i'r arolwg	22
Sylfaen = 65 ymateb Ffynhonnell: Arolwg o'r cyfranogwyr.....	22
Ffigur 4.2: Oedran cyfranogwyr y rhaglen wrth wneud cais	22
Ffigur 4.4: Cyfranogwyr y rhaglen o bob ardal awdurdod lleol	23
Ffigur 4.5: Ymatebwyr i'r arolwg yn ôl rhywedd.....	24
Ffigur 4.6: Cyfranogwyr y rhaglen yn ôl rhywedd	24
Ffigur 5.1: Sut y clywodd y rheini a ymatebodd i'r arolwg am y rhaglen Mynediad gyntaf ...	30
Ffigur 5.2: Cyfran yr ymatebwyr i'r arolwg a oedd yn chwilio am waith cyn ymwneud â'r rhaglen Mynediad.....	31
Ffigur 5.3: Cymhellion eilaidd dros ymwneud â'r rhaglen.....	32
Ffigur 5.4: Y rhwystrau i gyfranogwyr rhag cael gwaith.....	34
Ffigur 5.5: Pa mor bwysig oedd cyngor eich cynghorydd Gyrfa Cymru wrth ddewis pa gwrs i'w ddilyn? Rhwng sgôr ar raddfa o 0 i 4, gyda 4 yn golygu ei fod yn bwysig iawn, a 0 yn golygu nad oedd yn bwysig o gwbl	38
Ffigur 5.6: Pa mor fodlon yw cyfranogwyr â'r hyfforddiant a roddir drwy'r Cymorth Hyfforddiant Galwedigaethol o dan y rhaglen Mynediad	40
Ffigur 5.7: Y defnydd o gymorth ychwanegol gan yr ymatebwyr i'r arolwg	43
Ffigur 5.8: Effaith y cymorth ychwanegol ar rwystrau i gael hyfforddiant	44
Ffigur 5.9: Y rhesymau pam na ddewisodd pobl gael cymorth ychwanegol.....	44
Ffigur 6.1: Canran y cyfranogwyr a gafodd ganlyniadau cadarnhaol yn ôl awdurdod lleol...	46
Ffigur 6.2: Gweithgareddau presennol yr ymatebwyr i'r arolwg	47
Ffigur 6.3: Sector cyflogaeth yr ymatebwyr i'r arolwg.....	47
Ffigur 6.4: Codau'r Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol ar gyfer swyddi presennol yr ymatebwyr i'r arolwg.....	48
Ffigur 6.5: Barn am ychwanegedd yr ymyriad.....	49
Pa mor debygol yw y byddech yn y swydd hon pe na baech chi wedi cael cefnogaeth drwy'r rhaglen Mynediad? Rhwng sgôr ar raddfa o 0 i 4, gyda 4 yn golygu ei bod yn debygol iawn, a 0 yn golygu nad yw'n debygol o gwbl	49

Ffigur 6.6: Barn y cyfranogwyr am effaith Cymorth Hyfforddiant Galwedigaethol ar ganlyniadau cyflogaeth.....	51
Faint, o gwbl, a gyfrannodd y pethau canlynol yn eich barn chi wrth ddod o hyd i waith? Rhowch sgôr ar raddfa o 0 i 4, gyda 4 yn golygu llawer iawn, a 0 yn golygu dim o gwbl.....	51
Ffigur 6.7: Barn y cyfranogwyr am effaith Cymorth Hyfforddiant Galwedigaethol ar ganlyniadau cyflogaeth.....	53
Yn eich barn chi, i ba raddau'r ydych chi'n fwy tebygol o gael swydd nawr eich bod wedi cael eich cefnogi drwy'r rhaglen Mynediad? Rhowch sgôr ar raddfa o 0 i 4, gyda 4 yn golygu ei bod yn llawer mwy tebygol, a 0 yn golygu nad yw'n fwy tebygol o gwbl	53

1. Crynodeb Gweithredol

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau gwerthusiad annibynnol Wavehill o raglen Mynediad Llywodraeth Cymru. Cynhaliwyd y gwerthusiad rhwng mis Ionawr a mis Mai 2019, a hynny gan dîm o ymchwilwyr annibynnol. Nod y gwerthusiad oedd asesu sut y cafodd y rhaglen Mynediad ei rhoi ar waith a chanfod pa effaith a gafodd y rhaglen.
- 1.2 Cynllun gan Lywodraeth Cymru ym maes cyflogadwyedd yw'r rhaglen Mynediad, ac mae wedi bod ar waith yn rhanbarth Tasglu'r Cymoedd ers mis Hydref 2017. Bydd y rhaglen yn para tan y bydd Llywodraeth Cymru'n cyflwyno'i rhaglen newydd, 'Cymorth Swyddi Cymru'. Mae disgwyl i hyn ddigwydd ym mis Ebrill 2020.
- 1.3 Nod y rhaglen Mynediad yw helpu oedolion sy'n ddi-waith i gael swyddi ac i aros yn eu swyddi drwy wella'u sgiliau cyflogadwyedd. Mae'r rhaglen yn ceisio targedu oedolion di-waith sy'n weddol agos at gyrraedd y farchnad lafur ac sydd â chyfle rhesymol i fod yn barod i gael gwaith o fewn chwe mis i'r ymyriad. Pan fydd unigolion yn gymwys i fod yn rhan o raglenni cyflogadwyedd sy'n cael eu hariannu gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, byddant yn cael eu cyfeirio at y rhaglenni hyn yn gyntaf.
- 1.4 Llywodraeth Cymru ar y cyd â Gyrfa Cymru sydd wedi rhoi'r rhaglen ar waith. Mae Gyrfa Cymru'n gyfrifol am ymwneud â'r cyfranogwyr posibl, gan asesu pa mor addas ydynt i fod yn rhan o'r rhaglen Mynediad cyn eu cyfeirio yn eu blaenau at y gefnogaeth briodol. Mae tair prif elfen i'r gefnogaeth greiddiol sy'n cael ei rhoi o dan y rhaglen Mynediad:
 - i) Grant hyfforddiant galwedigaethol i unigolion sydd angen diweddarau eu sgiliau er mwyn dychwelyd i weithio, hyd at uchafswm o £1,500;
 - ii) Cymorth ychwanegol i gael gwared ar y rhwystrau i hyfforddiant galwedigaethol;
 - iii) Cyfraniad tuag at gyflogau a chymorth tuag at y costau hyfforddiant i gyflogwyr sy'n recriwtio.
- 1.5 Mae Gyrfa Cymru hefyd yn gyfrifol am weithio gyda chyflogwyr lleol, Canolfannau Gwaith a chynrychiolwyr rhanbarthol er mwyn sicrhau bod y sgiliau sy'n cael eu cyflwyno drwy grant hyfforddiant galwedigaethol y rhaglen Mynediad yn cyd-fynd yn union â'r sgiliau y mae'r cyflogwyr sy'n recriwtio yn chwilio amdanynt. Dylai hyn

olygu bod modd rhoi hyfforddiant sgiliau mewn ffordd sy'n gweddu i'r sefyllfa leol, gan roi'r sgiliau i gyfranogwyr y mae galw amdanynt yn y farchnad lafur leol.

Methodoleg

- 1.6 Ar y cyd â Llywodraeth Cymru, yn dilyn cyfres o gyfweiliadau cwrpasu â'r rheini a fu'n rheoli'r rhaglen ac yn ei rhoi ar waith, cytunwyd y byddai dulliau gweithio cymysg yn cael eu defnyddio. Roedd cam cyntaf y dull yn golygu creu model rhesymeg ar gyfer yr ymyriad: y theori ar gyfer sut y dylai'r rhaglen arwain at y canlyniad a fwriadwyd (h.y. helpu pobl i gael gwaith). Ar sail y model rhesymeg, datblygwyd fframwaith monitro a gwerthuso (sydd i'w weld yn Atodiad B).
- 1.7 Roedd y prif weithgareddau ymchwil yn cynnwys:
- adolygu data monitro'r rhaglen
 - cyfweiliadau manwl dros y ffôn â phedwar o randdeiliaid allweddol yn Llywodraeth Cymru
 - arolwg ar y we ymhlith cyfranogwyr y rhaglen Mynediad (68 ymateb)
 - cyfweiliadau manwl dros y ffôn â sampl o 30 o'r rheini a ymatebodd i'r arolwg
 - cyfweiliadau manwl dros y ffôn â sampl o 11 o gynghorwyr Gyrfu Cymru
 - cyfweiliadau manwl dros y ffôn â phum busnes sy'n cael cymorth drwy'r rhaglen Mynediad
- 1.8 Mae'n bwysig cydnabod cyfyngiadau'r dull hwn. Mae'r sampl o gyfranogwyr y rhaglen yn fychan, a chan ystyried cyfyngiadau data monitro'r rhaglen, dim ond yn unol â chanlyniadau'r ymyriadau y bu modd samplo. At hynny, dim ond pum busnes a gymerodd ran yn y gwerthusiad.

Canfyddiadau'r Gwerthusiad o'r Broses

- 1.9 Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod y gwerthusiad hwn yn dangos bod teimlad ym marn cyfranogwyr a rhanddeiliaid ill dau bod y rhaglen Mynediad yn cael ei gweinyddu a'i darparu'n llwyddiannus gan Lywodraeth Cymru a Gyrfu Cymru.
- 1.10 Ystyrir bod darpariaeth amlasiantaethol yn hollbwysig i lwyddiant y rhaglen, gyda Gyrfu Cymru'n rhoi'r rhaglen ar waith yn lleol ac yn rhoi gwybodaeth fanwl am y farchnad lafur – pethau na allai Llywodraeth Cymru eu gwneud yn annibynnol ar Gyrfu Cymru. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod y wybodaeth hon am y farchnad

lafur yn rhan hollbwysig o'r modd y bydd cyfranogwyr yn dewis cyrsiau. Mae'r wybodaeth yn cael ei chasglu o ffynonellau ffurfiol, gan gynnwys data am dueddiadau swyddi gan Gyrfa Cymru a data'r Ganolfan Byd Gwaith, ynghyd â thrwy sgysiau anffurfiol â chyflogwyr lleol.

- 1.11 Nid yw mân broblemau sy'n ymwneud â diffyg system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid ac â'r data monitro a gaiff eu casglu gan y rhaglen wedi effeithio'n negyddol ar y rhaglen o safbwynt y cyfranogwyr. Serch hynny, byddai'r gwersi a ddysgwyd yn y meysydd hyn yn gwella'r broses o roi rhaglenni ar waith yn y dyfodol.
- 1.12 Canfyddiad o bwys yw bod cynghorwyr Gyrfa Cymru yn defnyddio'r ymyriad yn sail i siwrnai fwy hirdymor i gyflogaeth. Yn ystod y cyfweiliadau â rhanddeiliaid, roedd cynghorwyr Gyrfa Cymru'n awyddus i bwysleisio nad oedd y gefnogaeth sydd ar gael drwy'r rhaglen Mynediad ynddi'i hun yn debygol o arwain at waith, ac roedd cyfathrebu hyn yn bwysig wrth reoli disgwyliadau cyfranogwyr, yn ogystal ag wrth annog cyfranogwyr i ddatblygu sgiliau meddal fel sgiliau chwilio am swyddi a sgiliau wrth gael eich cyfweld.
- 1.13 Cymorth Hyfforddiant Galwedigaethol yw'r ffrwd o gefnogaeth a ddefnyddir amlaf drwy'r rhaglen Mynediad. Er bod y dystiolaeth yn dangos bod cynghorwyr Gyrfa Cymru yn tynnu sylw'r cyfranogwyr at y Cymorth Recriwtio i Gyflogwyr a'r Cymorth Hyfforddiant i Gyflogwyr, nid yw'r opsiynau hyn yn cael eu defnyddio'n helaeth. At hynny, er bod Gyrfa Cymru'n rhoi cefnogaeth gynhwysfawr i unigolion, nid yw'r un math o gefnogaeth gynhwysfawr ar gael i fusnesau. Efallai fod hyn yn rhannol esbonio'r lefel ymddangosiadol isel o ymwybyddiaeth a'r nifer isel sy'n manteisio ar y gefnogaeth hon.
- 1.14 Mae'r gefnogaeth ychwanegol i helpu pobl i oresgyn rhwystrau i hyfforddiant wedi'i defnyddio sawl gwaith, er bod y nifer sy'n dewis manteisio ar y gefnogaeth hon wedi bod yn is na'r disgwyl. Ceir rhywfaint o dystiolaeth bod y gefnogaeth ychwanegol wedi galluogi unigolion i gael hyfforddiant, ond mewn rhai achosion mae'r gefnogaeth hon yn debygol o fod yn ddi-fudd.

Canfyddiadau'r Gwerthusiad: Y Canlyniadau

- 1.15 Mae natur y data sydd wedi'u casglu gan gyfranogwyr y rhaglen yn golygu na fu'n bosibl olrhain y canlyniadau hirdymor i'r cyfranogwyr hyn. Mae hyn yn golygu, yn y maes hwn, bod yn rhaid bod yn ofalus wrth drin y canfyddiadau. Mae data gan

Gyrfa Cymru yn dangos bod 359 o gyfranogwyr (26% o'r holl gyfranogwyr) wedi cael canlyniadau cyflogaeth cadarnhaol. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl cyfrifo faint o'r grŵp ymyrryd a fyddai wedi cael gwaith beth bynnag, ac nid yw'n glir ar hyn o bryd pa mor gadarn yw'r data a gasglwyd am ganlyniadau.

- 1.16 Er na fu'n bosibl creu dadansoddiad gwrthffeithiol o'r data am ganlyniadau, mae'r data a gasglwyd yn yr arolwg o'r cyfranogwyr a'r cyfweiliadau manwl yn dangos bod teimlad bod yr unigolion sydd wedi dod o hyd i waith wedi cael rhywfaint o ychwanegedd o'r rhaglen.
- 1.17 Ceir teimlad mai'r Cymorth Hyfforddiant Galwedigaethol, sef y gweithgarwch mwyaf o dipyn o dan y rhaglen, yw'r elfen sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar ganlyniadau cyflogaeth i gyfranogwyr. Mae'r cyfweiliadau â chynghorwyr Gyrfa Cymru a'r cyfranogwyr yn awgrymu bod y cymwysterau y mae unigolion wedi'u hennill wedi helpu'r unigolion hyn i fodloni gofynion sylfaenol swyddi. Mewn achosion eraill, mae'r sgiliau (sgiliau caled a sgiliau meddal ill dau) a ddatblygwyd drwy fod yn rhan o'r rhaglen wedi bod yn bwysig wrth helpu unigolion i gael gwaith.
- 1.18 Mewn achosion lle na fu canlyniadau cyflogaeth llwyddiannus i gyfranogwyr, ceir rhywfaint o dystiolaeth o ganlyniadau sy'n dangos bod unigolion yn agosach at waith nag y byddent wedi bod fel arall. Mae'r arolwg o'r cyfranogwyr a'r cyfweiliadau manwl â'r cyfranogwyr yn dangos effaith ar hyder pobl, hyd yn oed mewn sefyllfaoedd lle na chafwyd canlyniadau cyflogaeth llwyddiannus.

Argymhellion

- 1.19 **Argymhelliad Un:** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Gyrfa Cymru a phartneriaid eraill (er enghraifft, Busnes Cymru) er mwyn dod o hyd i ffyrdd i roi gwybod i fusnesau lleol am gyfranogwyr sy'n gymwys o dan y rhaglen Mynediad. Mae'n ymddangos bod diffyg ymwybyddiaeth yn gryn rwystr i fusnesau rhag defnyddio'r Cymorth Recriwtio i Gyflogwyr, a gallai hyn ysgogi mwy o fusnesau i ddefnyddio'r ffrwd gefnogaeth hon.
- 1.20 **Argymhelliad Dau:** Mae diffyg system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid wedi achosi problemau i'r rhaglen Mynediad. Er nad oes dystiolaeth bod hyn wedi dylanwadu'n negyddol ar gyfranogwyr y rhaglen Mynediad, mae wedi effeithio'n negyddol ar y gwaith o reoli a gweinyddu'r rhaglen. Mae'n bwysig cael adnoddau o'r fath er mwyn i'r rhaglen weithio'n iawn, ac mae i hyn hefyd effeithiau dilynol wrth olrhain canlyniadau a gwneud gwaith monitro a gwerthuso. Dylai Llywodraeth Cymru

geisio datblygu system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid ar gyfer unrhyw raglenni sy'n olynu hon.

- 1.21 **Argymhelliad Tri:** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried creu system fwy cynhwysfawr i gasglu data ar gyfer monitro, yn enwedig wrth olrhain y canlyniadau i gyfranogwyr. Byddai hyn yn golygu bod modd cynnal asesiadau hydredol mwy effeithiol o gyfranogwyr y rhaglen Mynediad a'r math o ganlyniadau maent wedi'u cael. Byddai hefyd yn golygu bod modd edrych yn fanylach ar ba gyrsiau a chymwysterau sy'n effeithiol wrth sicrhau canlyniadau cyflogaeth.
- 1.22 **Argymhelliad Pedwar:** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried dull o roi cefnogaeth sy'n rhoi sylw i rwystrau o ran sgiliau a chyflogadwyedd ochr yn ochr â rhwystrau eraill i gyflogaeth. Hyd yn oed mewn sefyllfaoedd lle bu canlyniadau cyflogaeth i gyfranogwyr, mae data o'r arolwg a'r cyfweiliadau manwl yn dangos bod unigolion yn wynebu rhwystrau niferus wrth geisio cael gwaith. Ynghyd â sgiliau a chymwysterau, byddai gwerth mewn ymchwilio i ddulliau o gefnogi pobl ym maes cyflogaeth mewn ffordd sy'n rhoi sylw i rwystrau eraill, fel iechyd meddwl.
- 1.23 **Argymhelliad Pump:** Dywedodd cynghorwyr Gyrfa Cymru eu bod yn ystyried yr ymyriad yn rhan o siwrnai tymor hwy i gyflogaeth, ac mae'r canlyniadau i gyfranogwyr yn dangos nad yw pob cyfranogwr yn cael gwaith o ganlyniad i'r ymyriad. Mae'n bosibl y byddai'n werth i Lywodraeth Cymru ymchwilio i effaith parhau i gefnogi cyfranogwyr unwaith y bydd yr elfen Cymorth Hyfforddiant Galwedigaethol yn y rhaglen wedi'i chwblhau. Gallai hyn helpu i sicrhau nad yw cyfranogwyr yn colli momentwm wrth iddynt ddechrau defnyddio'r sgiliau a'r cymwysterau y bu iddynt eu hennill er mwyn dod o hyd i waith.

2. Cyflwyniad/Cefndir

2.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau gwerthusiad annibynnol Wavehill o raglen Mynediad Llywodraeth Cymru. Cynhaliwyd y gwerthusiad rhwng mis Ionawr a mis Mai 2019 gan dîm o ymchwilyr annibynnol. Amcanion y gwaith gwerthuso oedd:

- 1) ystyried sut y mae'r rhaglen Mynediad yn gweithio'n ymarferol, gan ddangos y prif lwyddiannau a'r meysydd i'w datblygu;
- 2) canfod i ba raddau y mae'r rhaglen Mynediad yn cyflawni'r hyn y bwriadai ei gyflawni, h.y. bod unigolion sy'n cael eu cefnogi yn gwella'u sgiliau cyflogadwyedd ac yn cael gwaith cynaliadwy.

Y Rhaglen Mynediad

2.2 Lanswyd y rhaglen Mynediad yn rhanbarth Tasglu'r Cymoedd ym mis Hydref 2017. Er mai'r bwriad oedd y byddai'r rhaglen yn dod i ben ar 31 Mawrth 2019, bydd bellach yn parhau tan y cyflwynir rhaglen cyflogadwyedd newydd 'Cymorth Swyddi Cymru' Llywodraeth Cymru. Mae disgwyl i hyn ddigwydd ym mis Ebrill 2020. Mae'r rhaglen Mynediad yn cyd-fynd ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru yn 'Symud Cymru Ymlaen' i ailgynllunio'r gefnogaeth ym maes cyflogadwyedd i unigolion sydd yn barod am swyddi, gyda'r nod o'u helpu i feithrin y sgiliau a'r profiad y mae eu hangen arnynt i gael gwaith ac i aros yn y gwaith hwnnw. Mae'r rhaglen hefyd yn ceisio cyfrannu at ymrwymiad Llywodraeth Cymru yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a'r nod o:

"[dd]atblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas."¹

2.3 Cyd-destun pwysig arall i'r rhaglen Mynediad yw Cynllun Cyflogadwyedd 2018 Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys ymrwymiad i helpu pobl i gael gwaith mewn ffyrdd sy'n addas i'r unigolion dan sylw. Yn fwy penodol,

¹ [Deddf Llesiant cenedlaethau'r dyfodol: yr hanfodion](#)

- 2.4 “Ein huchelgais pennaf yma yw nid yn unig dod o hyd i swyddi i'r rhai sy'n ddi-waith, ond cynnig cymorth unigol sensitif a dwys hefyd i'r rhai sy'n economaidd anweithgar ond sydd eisiau gweithio.”²
- 2.5 Y bwriad yw y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi pobl mewn ffyrdd sy'n gweddu i anghenion yr unigolyn, gan dargedu'n benodol y rhwystrau sy'n wynebu'r unigolyn rhag cael gwaith.
- 2.6 Nod y rhaglen Mynediad yw helpu oedolion sy'n ddi-waith i gael swyddi ac i aros yn eu swyddi drwy wella'u sgiliau cyflogadwyedd. Mae'r rhaglen yn ceisio targedu oedolion di-waith sy'n weddol agos at gyrraedd y farchnad lafur ac sydd â chyfle rhesymol i fod yn barod i gael gwaith o fewn chwe mis i'r ymyriad. Mae Cymunedau am Waith, sef cyfres arall o raglenni gan Lywodraeth Cymru, ar gael i helpu'r rheini sydd ymhellach i ffwrdd o'r farchnad lafur.
- 2.7 Nod y rhaglen yw cyfrannu at y targed cyflogaeth o 7,000 ar gyfer yr holl ranbarth, targed a osodwyd gan Dasglu'r Cymoedd.³ Mae'r rhaglen hefyd yn cyd-fynd ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ailgynllunio'r gefnogaeth mae'n ei rhoi ym maes cyflogadwyedd, yn benodol i unigolion sydd bron yn barod am swyddi, drwy eu helpu i ddysgu'r sgiliau a chael y profiad sy'n angenrheidiol er mwyn iddynt gael swyddi cynaliadwy ac aros yn y swyddi hynny.

Rhoi'r Rhaglen ar Waith

- 2.8 Llywodraeth Cymru ar y cyd â Gyrfa Cymru sydd wedi rhoi'r rhaglen ar waith. Mae Gyrfa Cymru'n gyfrifol am ymwneud â'r cyfranogwyr posibl, gan asesu pa mor addas ydynt i fod yn rhan o'r rhaglen Mynediad cyn eu cyfeirio yn eu blaenau at y gefnogaeth briodol. Llywodraeth Cymru ar y llaw arall sy'n prosesu hawliadau'r ymgeiswyr ac yn rhoi barn derfynol ynghylch a fyddant yn cael eu cefnogi ai peidio.
- 2.9 Mae tair prif elfen i'r gefnogaeth greiddiol sy'n cael ei rhoi o dan y rhaglen Mynediad:
- i) Grant hyfforddiant galwedigaethol i unigolion sydd angen diweddarau eu sgiliau er mwyn dychwelyd i weithio, hyd at uchafswm o £1,500;

² [Cynllun cyflogadwyedd](#)

³ Llywodraeth Cymru (2018), [‘Ein Cymoedd, Ein Dyfodol: Cynllun Cyflawni](#).

- ii) Cymorth ychwanegol i gael gwared ar y rhwystrau i hyfforddiant galwedigaethol;
- iii) Cyfraniad tuag at gyflogau a chymorth tuag at y costau hyfforddiant i gyflogwyr sy'n recriwtio.

- 2.10 Mae Gyrfa Cymru yn gyfrifol am weithio gyda chyflogwyr lleol, Canolfannau Gwaith a chynrychiolwyr rhanbarthol er mwyn sicrhau bod y sgiliau sy'n cael eu cyflwyno drwy grant hyfforddiant galwedigaethol y rhaglen Mynediad yn cyd-fynd yn union â'r sgiliau y mae'r cyflogwyr sy'n recriwtio yn chwilio amdanynt. Dylai hyn olygu bod modd rhoi hyfforddiant sgiliau mewn ffordd sy'n gweddu i'r sefyllfa leol, gan roi'r sgiliau i gyfranogwyr y mae galw amdanynt yn y farchnad lafur leol.
- 2.11 Rhan arall o waith Gyrfa Cymru o dan y rhaglen Mynediad yw meithrin perthnasau â chyflogwyr lleol, Canolfannau Gwaith a chynrychiolwyr rhanbarthol i sicrhau, pan fydd hynny'n briodol, bod y sgiliau sy'n cael eu cyflwyno drwy grant hyfforddiant galwedigaethol y rhaglen Mynediad yn cyd-fynd yn union â'r sgiliau y mae cyflogwyr sy'n recriwtio yn chwilio amdanynt.

Asesu'r Angen a Phwy sy'n Gymwys o dan y Rhaglen

- 2.12 Mae cynghorwyr Gyrfa Cymru'n gyfrifol am asesu'r rhwystrau unigol i gyflogaeth, ac am gyfeirio pobl at raglenni ar sail eu hanghenion. Mae'r rheini sydd bellaf oddi wrth y farchnad lafur yn cael eu cyfeirio at ystod o raglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop a rhaglenni cymunedol.
- 2.13 Mae'r rheini sydd agosaf at y farchnad lafur yn cael eu cyfeirio at y ddarpariaeth brif ffrwd bresennol os ydynt yn gymwys o dan y meini prawf penodol ar gyfer pob rhaglen. Ymhlith enghreifftiau o'r rhaglenni hyn y mae ReAct,⁴ Twf Swyddi Cymru,⁵ a'r Rhaglen Sgiliau Cyflogadwyedd.⁶

⁴ Rhaglen sy'n cael ei hariannu gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop yw ReAct ac mae'n helpu unigolion sydd wedi colli eu swyddi yn y tri mis diwethaf neu gyflogwyr sy'n cyflogi rhywun sydd wedi colli ei swydd yn y chwe mis diwethaf. Mae'r cymorth i unigolion yn golygu rhoi Grant Hyfforddiant Galwedigaethol o hyd at £1,500 i dalu am gostau hyfforddiant. Mae'r cymorth i gyflogwyr yn cynnwys Cymorth Recriwtio i Gyflogwyr o hyd at £3,000 yn ystod 12 mis cyntaf y gweithiwr yn ei swydd, a Chymorth Hyfforddiant i Gyflogwyr o hyd at £1,000 i dalu am hyfforddiant sy'n gysylltiedig â sgiliau.

⁵ Rhaglen yw Twf Swyddi Cymru sy'n ceisio helpu pobl ddi-waith rhwng 16 a 24 oed yng Nghymru i gael gwaith am chwe mis mewn swydd sy'n talu'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol, fan lleiaf. Mae'r cynllun yn talu hyd at 50% o gyflog y gweithiwr am y cyfnod o chwe mis.

⁶ Nod rhaglen Sgiliau Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru yw helpu oedolion di-waith i gael gwaith. Gall y cyfranogwyr ddewis o ystod o gefnogaeth a hyfforddiant, gan gynnwys profiad gwaith, cymorth a chynghor i baratoi at waith, a hyfforddiant i ddatblygu sgiliau hanfodol. Mae'r rhaglen yn agored i oedolion di-waith sydd wedi cael ychydig yn unig neu ddim profiad gwaith yn ystod y tri mis diwethaf, ac sydd heb ennill cymhwyster lefel 2 llawn neu gymhwyster cyfatebol.

- 2.14 Mae unigolion sy'n agos at y farchnad lafur ond nad ydynt yn gymwys o dan y rhaglenni hyn yn cael eu cyfeirio at y pecyn cymorth sydd ar gael drwy'r rhaglen Mynediad, er mwyn eu helpu i wella'u cyfleoedd o gael gwaith cynaliadwy. Nod y gefnogaeth hon yw bod yn ychwanegol at y mathau eraill o gymorth sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid fel Gyrfa Cymru a'r Canolfannau Byd Gwaith, ac ychwanegu gwerth at y rheini.

Nodau ac Amcanion y Gwerthusiad

- 2.15 Amcanion y gwaith gwerthuso oedd:
- i) Ystyried sut y mae'r rhaglen Mynediad yn gweithio'n ymarferol, h.y. dangos y prif lwyddiannau a'r meysydd i'w datblygu yng nghyd-destun rhaglen newydd Cymorth Swyddi Cymru a'r gwasanaeth cyngor cyflogaeth, Cymru'n Gweithio;
 - ii) Canfod i ba raddau y mae'r rhaglen Mynediad yn cyflawni'r hyn y bwriadai ei gyflawni, h.y. bod unigolion sy'n cael eu cefnogi yn gwella'u sgiliau cyflogadwyedd ac yn cael gwaith cynaliadwy.

3. Cyd-destun yr Ymyriadau ac Adolygu'r Llenyddiaeth

- 3.1 Mae'r bennod hon yn cyflwyno cyd-destun yr ymyriadau ac yn amlinellu'n gryno'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod gwerthusiadau blaenorol o ymyriadau cyflogaeth tebyg a oedd wedi'u seilio ar sgiliau.

Y Cyd-destun Cyflogaeth

- 3.2 Mae rhanbarth Cymoedd y De wedi cael ei gydnabod ers tro yn un i'w flaenoriaethu drwy ymyriadau polisi, a hynny'n dilyn sawl degawd o ddirywiad diwydiannol sylweddol.⁷ Er bod y cynnyrch domestig gros yn gyffredinol isel ledled Cymru, mae'r cynnyrch domestig gros yng Nghymoedd y De wedi disgyn yn is eto na chyfartaledd yr Undeb Ewropeaidd, ac mae'r tueddiadau'n awgrymu bod y sefyllfa honno wedi gwaethygu ers datganoli. Ers canol y 1980au, mae'r cyfraddau diweithdra wedi bod ymhlith yr uchaf drwy'r Deyrnas Unedig i gyd. Yn 2006, dim ond 64% o'r boblogaeth oed gweithio ym Mlaenau'r Cymoedd oedd mewn gwaith, tra bo'r canrannau'n 69% yn y Cymoedd Is ac yn 71% ledled Cymru.⁸
- 3.3 Er gwaethaf hyn, ar wahân i adeg y dirwasgiad ddiwedd y 2000au, mae'r dystiolaeth a gasglwyd ar ran Tasglu'r Cymoedd yn dangos y bu cynnydd mawr yn y cyfraddau cyflogaeth drwy holl ardaloedd y Cymoedd yn sgil lefelau anweithgarwch is.⁹ Mae'n ymddangos bod y cynnydd hwn yn rhannol gysylltiedig â phroffil sgiliau gwell ymhlith y boblogaeth, mwy o fenywod mewn gwaith, a niferoedd cynyddol o bobl mewn gwaith rhan amser.¹⁰
- 3.4 Nid yw'r heriau sy'n wynebu Cymoedd y De yr un fath ym mhob man: ceir gwahaniaethau mawr rhwng gwahanol fannau yn yr ardal. Er enghraifft, yn ôl adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ac a luniwyd gan y Sefydliad Materion Cymreig yn 2004, mae'r problemau'n fwy difrifol mewn rhai ardaloedd nag mewn rhai eraill.¹¹ Er bod y problemau a ddisgrifir yn adroddiad y Sefydliad Materion Cymreig wedi newid yn sgil 15 mlynedd o weithgarwch adfywio, mae'r sefyllfa leol yn amrywio'n fawr o fewn ardal Tasglu'r Cymoedd.

⁷ Drwy'r adroddiad hwn, y diffiniad o Gymoedd y De yw'r ardal sy'n rhan o Ardal Tasglu'r Cymoedd.

⁸ Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006), [Syniadau Blaengar: Strategaeth ar gyfer Blaenau'r Cymoedd 2020](#).


⁹ [Tasglu'r Cymoedd: crynodeb o dystiolaeth](#)

¹⁰ [Tasglu'r Cymoedd: crynodeb o dystiolaeth](#)

¹¹ Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004), The Socio-Economic Characteristics of the South Wales Valleys in a Broader Context, tt. 8-9.

3.5 Fel y dangosir yn Ffigur 3.1, ar lefel y tasglu cyfan, mae'r cyfraddau diweithdra yn yr ardal yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru (4.6%) a Phrydain Fawr (4.2%). Mae hyn yn dangos bod y cyfraddau diweithdra yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol Cymoedd y De wedi gostwng yn gyflymach na'r cyfartaledd yng Nghymru yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2017.¹² Fodd bynnag, er bod y gyfradd ddiweithdra wedi gostwng ym Mlaenau Gwent a Merthyr Tudful, fel y gwnaeth ar lefel y Deyrnas Unedig gyfan, yng Nghastell-nedd Port Talbot a Rhondda Cynon Taf mae'r gyfradd wedi codi.

Ffigur 3.1: Y cyfraddau diweithdra yn awdurdodau lleol ardal Tasglu'r Cymoedd, Cymru a Phrydain Fawr (Hydref 2015 – 2018)




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

¹² [Tasglu'r Cymoedd: crynodeb o dystiolaeth](#)

3.6 Mae'r problemau sy'n wynebu ardal Tasglu'r Cymoedd, fodd bynnag, yn ymwneud mwy ag anweithgarwch economaidd nag ydynt â diweithdra. Mae nifer y bobl sy'n economaidd anweithgar yn ardal Tasglu'r Cymoedd yn ffactor yn lefelau cynhyrchiant isel yr ardal. Mae canran y bobl 16 i 64 oed a oedd yn economaidd anweithgar rhwng mis Hydref 2018 a mis Medi 2018 (Ffigur 3.2) yn uwch na chyfartaledd Cymru yn y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol yn ardal Tasglu'r Cymoedd. Fodd bynnag, mae'r cyfraddau yn Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful yn nes at gyfartaledd Prydain Fawr drwyddi draw.

Ffigur 3.2: Canran y bobl 16 i 64 oed a oedd yn economaidd anweithgar yn awdurdodau lleol ardal Tasglu'r Cymoedd, Cymru a Phrydain Fawr (Hydref 2017 – Medi 2018)



Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

3.7 Er bod y sefyllfa gyflogaeth yn y rhanbarth wedi gwella'n ddiweddar, yn bennaf yn sgil llai o anweithgarwch economaidd, mae bwlch nodedig o hyd rhwng perfformiad y rhanbarth o'i gymharu â'r ffigurau drwy Gymru gyfan a'r Deyrnas Unedig gyfan.¹³ Mae ardal Tasglu'r Cymoedd y tu ôl i lefelau'r Deyrnas Unedig gyfan a Chymru gyfan wrth edrych ar nifer o ddangosyddion allweddol, gan gynnwys disgwyliad oes, ffyrdd iach o fyw a nifer y plant sy'n cael prydau ysgol am ddim. Mae Tasglu'r Cymoedd hefyd wedi nodi y bu gostyngiad yng nghyflogau cymharol pobl, yn y Cymoedd a Chymru ill dau, ac mae adborth a gafodd y Tasglu

¹³[Cyllideb Cymru 2018: Adroddiad y Prif Economegydd](#)

mewn gweithdai wedi awgrymu bod diffyg sicrwydd ariannol yn rhoi pobl sydd ar incwm isel o dan gryn bwysau.¹⁴

Adolygu'r Llenyddiaeth

- 3.8 Fel rhan o'r gwerthusiad hwn, cynhaliwyd adolygiad o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer rhaglenni hyfforddiant sy'n seiliedig ar sgiliau wrth ymyrryd ym maes cyflogaeth. Mae'r adolygiad hwn wedi pwysu'n drwm ar adolygiad systematig o raglenni cyflogadwyedd sy'n seiliedig ar sgiliau – adolygiad a gynhaliwyd gan y What Works Centre for Local Economic Growth.¹⁵ Casgliad yr adolygiad hwnnw, a edrychodd ar 71 o werthusiadau, oedd bod hyfforddiant wedi cael effaith gadarnhaol ar gyflogaeth neu enillion cyfranogwyr yn tua hanner yr achosion. Canfu'r adolygiad fod rhaglenni byr (llai na chwe mis) yn fwy effeithiol wrth gynnig gweithgareddau hyfforddi llai ffurfiol, (gyda'r tebygolrwydd y bydd rhaglenni byrrach na phedwar mis yn fwy effeithiol fyth, hyd yn oed), tra bo rhaglenni hwy yn dueddol o fod yn fwy effeithiol pan fydd y cynnwys yn fwy dwys o ran sgiliau. Ceir tystiolaeth hefyd bod rhaglenni hyfforddiant sy'n cael eu cynnal yn fewnol gan gwmnïau yn dueddol o berfformio'n well na rhaglenni hyfforddiant mewn ystafelloedd dosbarth, ac mae'n ymddangos bod rhaglenni mewn ystafelloedd dosbarth sy'n ceisio adlewyrchu ac efelychu swyddi go iawn yn fwy effeithiol na darpariaeth fwy cyffredinol mewn ystafelloedd dosbarth.
- 3.9 Yn yr adolygiad, ceir rhywfaint o dystiolaeth bod yr ymyriadau hyn yn cael effaith ar gyflogau. O'r 71 o werthusiadau, adolygiadau o dystiolaeth a metaddadansoddiadau a gynhaliwyd fel rhan o adolygiad systematig y What Works Centre for Local Economic Growth, roedd 21 yn edrych ar effaith uniongyrchol rhaglenni hyfforddiant ym maes cyflogaeth ar gyflogau gweithwyr. Yn dros hanner y gwerthusiadau hyn (11 o 21), roedd effeithiau cadarnhaol i'w gweld, gyda dau arall yn dweud bod yr effeithiau'n gymysg. Mewn achosion pan oedd y rhaglenni hyfforddiant yn llwyddiannus wrth gynyddu cyflogau, gwelwyd bod y cynnydd hwn yn sylweddol, gydag un astudiaeth achos yn dangos cynnydd mewn cyflogau o 12% ar gyfartaledd, o ganlyniad uniongyrchol i'r ymyriad.

¹⁴ [Tasglu'r Cymoedd: crynodeb o dystiolaeth](#)

¹⁵ [What Works Centre for Local Economic Growth](#)

- 3.10 Mae'r un canfyddiadau i'w gweld mewn adolygiad systematig a metaddadansoddiad gan Betcherman et al (2007) o ymyriadau ym maes cyflogaeth sy'n targedu pobl ifanc, lle gwelwyd bod ymyriadau hyfforddiant sgiliau yn gyffredinol yn gwella canlyniadau cyflogaeth i ddynion a menywod ac yn aml yn arwain at gyflogau uwch.¹⁶ Roedd y data'n dangos bod yr hyfforddiant yn cael mwy o effaith ar bobl ifanc a'r rheini sydd ar incwm is.
- 3.11 Canfu'r adolygiad o'r llenyddiaeth fod diffyg tystiolaeth gyffredinol ynghylch gwerth am arian cymharol gwahanol fodelau wrth ddarparu'r math yma o raglen.¹⁷ Yn benodol, ni welodd adolygiad y What Works Centre for Economic Growth unrhyw dystiolaeth bod darparu rhaglenni'n lleol yn fwy neu'n llai effeithiol na modelau sy'n eu darparu'n genedlaethol neu'n rhanbarthol.¹⁸
- 3.12 Yn achos hyfforddiant sgiliau sylfaenol, neu ymyriadau sy'n ceisio gwella a chynyddu cyflogadwyedd yn gyffredinol, mae'r llenyddiaeth hefyd yn dangos bod rhaglenni byrrach yn cael effaith fwy sylweddol ar gyflogaeth. Er enghraifft, gwelodd astudiaeth gan D'Costa ac Overman a edrychai ar breimymau cynnydd mewn cyflogau fod rhoi hyd at 4.5 mis yn rhagor o hyfforddiant yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol sylweddol; fodd bynnag, nid oedd effaith ychwanegol y tu hwnt i'r cyfnod hwn.¹⁹ Pe bai'r canlyniad hwn yn cael ei gyffredinoli, mae'n bosibl bod y canlyniadau cryfaf a'r canlyniadau mwyaf cadarnhaol yn deillio o gyrsiau sy'n para misoedd, yn hytrach na diwrnodau. O ganlyniad, mae rhaglenni hyfforddiant byrrach yn debygol o gael effaith fwy sylweddol ar gyflogaeth tra bo rhaglenni hyfforddiant hwy yn debygol o gael mwy o effaith ar gyflogau.
- 3.13 Astudiaethau o raglenni cyflogaeth safonedig sy'n canolbwyntio ar sgiliau yw'r rhan fwyaf o'r astudiaethau sydd wedi'u cynnwys yn yr adolygiadau systematig hyn. Prin yw'r dystiolaeth ynghylch effaith rhaglenni cyflogadwyedd sy'n canolbwyntio ar unigolion neu raglenni sy'n ystyried rhwystrau ehangach i gyflogaeth, y tu hwnt i sgiliau. Yn yr un modd, prin yw'r dystiolaeth ynghylch pa mor effeithiol yw dulliau sy'n mynd i'r afael â rhwystrau eraill ochr yn ochr â sgiliau a chymwysterau.

¹⁶ Betcherman, G., Godfrey, M., Puerto, S., Rother, F. a Stavreska, A., (2007), [Global Inventory to Support Young Workers Synthesis Report](#).

¹⁷ [What Works Centre for Local Economic Growth](#), t. 31.

¹⁸ [What Works Centre for Local Economic Growth](#), t. 31.

¹⁹ [The urban wage growth premium: sorting or learning?](#)

- 3.14 Serch hynny, ceir enghreifftiau o raglenni sydd wedi dilyn y dull hwn, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i'w gwerthuso. Un rhaglen o'r fath yw Working Well, sy'n cael ei chyllido gan Awdurdod Cyfun Manceinion Fwyaf. Nod y rhaglen yw lleihau nifer yr unigolion di-waith hirdymor gan ddefnyddio ystod o ymyriadau, gan gynnwys gwasanaethau tai, gwasanaethau meddygol a chefnogi teuluoedd. Mae'r rhaglen, a gafodd ei threialu yn Salford yn 2014 cyn ei chyflwyno drwy holl ardal Manceinion Fwyaf, yn targedu pobl ddi-waith, gyda llawer ohonynt yn byw gyda chyflyrau iechyd meddwl neu iechyd corfforol hirdymor. Mae'n neilltuo gweithiwr allweddol i bawb sy'n rhan o'r cynllun, er mwyn asesu anghenion yr unigolion a'u helpu i fynd i'r afael â'r problemau yn eu bywydau, cyn eu cyfeirio at gyfleoedd a gwasanaethau addas mewn meysydd fel gofal iechyd, tai neu hyfforddiant.
- 3.15 Mewn asesiad o effaith y rhaglen hon, a gynhaliwyd gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith, nid oedd unrhyw dystiolaeth bod yr ymyriad wedi cynyddu'r siawns y byddai unigolion yn mynd yn eu blaenau i gael gwaith.²⁰ Fodd bynnag, ceir rhywfaint o dystiolaeth bod y rhaglen wedi golygu bod y rheini sy'n cael gwaith yn aros mewn swyddi am gyfnod hwy na'r grŵp cymharu cyfatebol.²¹

²⁰[Greater Manchester Working Well: early impact assessment](#)

²¹[Greater Manchester Working Well: early impact assessment](#)

4. Methodoleg

- 4.1 Ar y cyd â Llywodraeth Cymru, yn dilyn cyfres o gyfweiliadau cwmpasu â rhanddeiliaid y prosiect ac aelodau allweddol o dîm cyflawni'r rhaglen Mynediad, uwch reolwyr a oedd yn gweithio ar brosiectau eraill gan Lywodraeth Cymru, a chynrychiolwyr Gyrfu Cymru, cytunwyd y byddai dulliau cymysg yn cael eu defnyddio.
- 4.2 Roedd y cam cychwynnol yn golygu datblygu model rhesymeg ar gyfer yr ymyriad. Roedd hyn wedi'i seilio ar gasglu gwybodaeth am y rhaglen a'i hamcanion drwy gyfweiliadau cwmpasu a thrwy adolygu dogfennau'r rhaglen. Ar sail y model rhesymeg, datblygwyd fframwaith monitro a gwerthuso (i'w weld yn Atodiad B).
- 4.3 Roedd y prif weithgareddau ymchwil yn cynnwys:
- Adolygu data monitro'r rhaglen
 - Cyfweiliadau manwl dros y ffôn â phedwar o randdeiliaid allweddol yn Llywodraeth Cymru
 - Arolwg ar y we ymhlith cyfranogwyr y rhaglen Mynediad (68 ymateb)
 - Cyfweiliadau manwl dros y ffôn â sampl o 30 o'r rheini a ymatebodd i'r arolwg
 - Cyfweiliadau manwl dros y ffôn â sampl o 11 o gynghorwyr Gyrfu Cymru
 - Cyfweiliadau manwl dros y ffôn â thri busnes sy'n cael cymorth drwy'r rhaglen Mynediad
- 4.4 Nod yr arolwg ar y we ymhlith y cyfranogwyr oedd cael darlun cyffredinol o natur cyfranogwyr y rhaglen Mynediad, darlun o'u sefyllfa cyn iddynt gymryd rhan yn y rhaglen, darlun o'r rhwystrau a oedd yn eu hatal yn eu barn hwy rhag cael gwaith, a darlun o'r canlyniadau ar ôl ymyrryd. Roedd yr arolwg hefyd yn gofyn i gyfranogwyr am y ffrydiau penodol o gefnogaeth yr oeddent wedi manteisio arnynt o dan y rhaglen Mynediad, ynghyd ag am unrhyw rwystrau ymddangosiadol wrth geisio cael cefnogaeth drwy'r rhaglen. Anfonwyd yr arolwg ym mis Ebrill 2019 at bawb a oedd wedi cymryd rhan yn y rhaglen Mynediad cyn 31 Rhagfyr 2018. Anfonwyd tri e-bost atgoffa. Defnyddiwyd canlyniadau'r arolwg hefyd i ddewis sampl o'r cyfranogwyr ar gyfer cynnal cyfweiliadau manwl.


- 4.5 Roedd y cyfweiliadau manwl dros y ffôn (30) yn ychwanegu at y data a gasglwyd o'r arolwg o'r cyfranogwyr, gan ganolbwyntio ar siwrneiau cyfranogwyr y rhaglen Mynediad a sut yr oedd y rhaglen wedi cyfrannu at y siwrneiau hynny. Yn benodol, gofynnwyd i gyfranogwyr esbonio sut yr oedd y rhaglen Mynediad wedi cyfrannu at ganlyniadau, ynghyd â gofyn sut yr oedd elfennau penodol o'r gefnogaeth a oedd ar gael o dan y rhaglen wedi cyfrannu at y canlyniadau hyn.
- 4.6 Nod y cyfweiliadau â staff Gyrfa Cymru (11) oedd bwrw goleuni ar y prosesau a ddefnyddir i gyfeirio cyfranogwyr at y rhaglen Mynediad. Nod eilaidd oedd canfod barn cynghorwyr Gyrfa Cymru am ba mor addas yw'r gefnogaeth sydd ar gael drwy'r rhaglen Mynediad, gan ystyried y rhwystrau i gyflogaeth y mae cyfranogwyr y rhaglen fel arfer yn eu hwynebu.
- 4.7 Yn olaf, mae'r cyfweiliadau manwl â rhanddeiliaid yn Llywodraeth Cymru (4) wedi'u defnyddio i asesu pa mor addas yw'r rhaglen Mynediad gan ystyried polisïau eraill ym maes sgiliau a chyflogadwyedd.

Samplo, pa mor gynrychioladol oedd yr ymateb, a'r cyfraddau ymateb

Arolwg o Gyfranogwyr y Rhaglen Mynediad


- 4.8 Anfonwyd yr arolwg i 758 o gyfeiriadau e-bost byw a chafwyd 68 o ymatebion, er y gosodwyd targed o 100 ymateb. Ar ôl anfon yr e-bost cychwynnol, anfonwyd tri e-bost atgoffa er mwyn cynyddu'r gyfradd ymateb. Cafodd yr arolwg ei gau ar ôl cael 68 o ymatebion gan fod amser yn brin wrth gynnal y gwerthusiad. Golygai hynny mai'r gyfradd ymateb oedd 8.97%.
- 4.9 Fel y gwelir yn Ffigur 4.1, mae pobl 36 i 50 oed a 51 i 65 oed wedi'u cynrychioli'n arbennig o dda yn y sampl, gyda chymedr oedran yr ymatebwyr i'r arolwg yn 47.6. Mae hyn yn sylweddol hŷn na chymedr oedran holl gyfranogwyr yr arolwg, sef 39.5. Mae Ffigur 4.1 hefyd yn dangos mai'r rheswm dros y gwahaniaeth hwn yn bennaf yw absenoldeb ymatebwyr o dan 25 oed yn yr arolwg.

Ffigur 4.1: Oedran yr ymatebwyr i'r arolwg



Sylfaen = 65 ymateb Ffynhonnell: Arolwg o'r cyfranogwyr


Ffigur 4.2: Oedran cyfranogwyr y rhaglen wrth wneud cais



Sylfaen= 891 o gyfranogwyr Ffynhonnell: data monitro'r rhaglen


- 4.10 Cafwyd ymatebion i'r arolwg o'r holl ardaloedd awdurdodau lleol yn ardal Tasglu'r Cymoedd. Er bod rhai awdurdodau lleol wedi'u cynrychioli'n well yn y sampl nag eraill, fel Abertawe (n= 17) a Rhondda Cynon Taf (n= 11), ar y cyfan mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod yr awdurdodau lleol hynny yn fwy amlwg yn y data o ran cyfanswm nifer y cyfranogwyr (Abertawe n= 19% a Rhondda Cynon Taf n= 19%).

Ffigur 4.3: Ymatebwyr i'r arolwg o bob ardal awdurdod lleol



Sylfaen= 65 Ffynhonnell: Arolwg o'r cyfranogwyr


Ffigur 4.4: Cyfranogwyr y rhaglen o bob ardal awdurdod lleol



Sylfaen = 912 ymateb Ffynhonnell: Data monitro'r rhaglen


- 4.11 Mae proffiliau'r ymatebion i'r arolwg o ran rhywedd hefyd yn weddol gynrychioladol o'r grŵp a gafodd ymyriadau, er bod menywod wedi'u cynrychioli fymryn yn well yn y sampl nag ydynt yn holl boblogaeth cyfranogwyr y rhaglen Mynediad.

Ffigur 4.5: Ymatebwyr i'r arolwg yn ôl rhywedd



Sylfaen= 67 Ffynhonnell: Arolwg o'r cyfranogwyr

Ffigur 4.6: Cyfranogwyr y rhaglen yn ôl rhywedd



Sylfaen = 808 ymateb Ffynhonnell: Cyfweiliadau manwl â chyfranogwyr

- 4.12 Targedwyd deg ar hugain o gyfweiliadau manwl â chyfranogwyr er mwyn creu sampl cynrychioladol o'r grŵp a gafodd ymyriadau, a hynny o ran canlyniadau cyflogaeth, lleoliad, rhywedd a'r math o gwrs a ddilynwyd. Fodd bynnag, gan mai dim ond 35 o gyfranogwyr yr arolwg oedd wedi rhoi manylion cysylltu, penderfynwyd peidio â chreu sampl o'r cyfweiliadau manwl hyn, a chwblhawyd 30 o gyfweiliadau.

- 4.13 O'r rheini a gwblhaodd gyfweiliadau manwl, dywedodd 15 eu bod yn dal mewn gwaith ar hyn o bryd, tra dywedodd 15 arall eu bod yn ddi-waith ac yn chwilio am waith. Roedd y rheini a gyfwelwyd rhwng 27 a 66 oed, gyda chymedr oedran o 48.86. Cwblhawyd pum cyfweiliad ar hugain ag unigolion a oedd yn eu hystyried eu hunain yn wrywod, a phum cyfweiliad ag unigolion a oedd yn eu hystyried eu hunain yn fenywod.

Cyfweiliadau Manwl â Gyrfa Cymru

- 4.14 Cafwyd manylion cyswllt 46 o gynghorwyr Gyrfa Cymru a oedd wedi cyfeirio cyfranogwyr at y rhaglen Mynediad. Cafodd y bobl hyn eu samplo er mwyn cynnal cyfweiliadau â chynghorwyr Gyrfa Cymru o bob un o'r ardaloedd awdurdodau lleol lle cynhaliwyd y rhaglen Mynediad, gyda'r bwriad o gynnal cyfanswm o 16 cyfweiliad. Fodd bynnag, yn sgil y cyfraddau ymateb isel, cynhaliwyd cyfweiliadau ag 11 o gynghorwyr Gyrfa Cymru. Dywedodd y rheini a gafodd eu cyfweld eu bod yn gweithio yn ardaloedd yr awdurdodau lleol canlynol:

Tabl 4.1: Cynghorwyr Gyrfa Cymru yn ôl ardal awdurdod lleol

Ardal	N
Caerffili	2
Rhondda Cynon Taf	2
Abertawe	2
Blaenau Gwent	2
Castell-nedd Port Talbot	2
Sir Gâr	1
Pen-y-bont ar Ogwr	1
Torfaen	1

Sylfaen: 11 cynghorydd Ffynhonnell: Cyfweiliadau â chynghorwyr Gyrfa Cymru
Sylwer – dywedodd rhai cynghorwyr eu bod yn gweithio mewn mwy nag un ardal

- 4.15 Fel rhan o'r cyfweiliadau, gofynnwyd i'r cynghorwyr ers pa bryd yr oeddent wedi ymwneud â'r rhaglen Mynediad. Dywedodd yr holl ymatebwyr eu bod wedi ymwneud â'r rhaglen Mynediad ers ei dechrau, a'r unig eithriad oedd hyfforddai a oedd wedi dechrau ymwneud â'r rhaglen yn ystod y chwe mis blaenorol. Gofynnwyd hefyd i'r cynghorwyr sawl unigolyn yr oeddent wedi'u cyfeirio at y rhaglen Mynediad yn ystod y chwe mis blaenorol. Roedd yr ymatebwyr yn amrywio o 11 i 100 o unigolion, a'r cymedr a gyfeiriwyd gan bob cynghorydd oedd 40.

5. Canfyddiadau'r Gwerthusiad o'r Broses

Crynodeb o'r Canfyddiadau:

- Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod y gwerthusiad hwn yn dangos bod teimlad ym marn llawer bod y rhaglen Mynediad yn cael ei gweinyddu a'i darparu'n llwyddiannus. Nid yw mân broblemau sy'n ymwneud â diffyg system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid ac â'r data monitro a gaiff eu casglu gan y rhaglen wedi effeithio'n negyddol ar y rhaglen o safbwynt y cyfranogwyr.
- Ystyrir bod darpariaeth amlasiantaethol yn hollbwysig i lwyddiant y rhaglen, gyda Gyrfa Cymru'n rhoi'r rhaglen ar waith yn lleol ac yn rhoi gwybodaeth fanwl am y farchnad lafur – pethau na allai Llywodraeth Cymru eu gwneud yn annibynnol ar Gyrfa Cymru. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod y wybodaeth hon am y farchnad lafur yn rhan hollbwysig o'r modd y bydd cyfranogwyr yn dewis cyrsiau. Mae'r wybodaeth wedi'i chasglu o ffynonellau ffurfiol, gan gynnwys data am dueddiadau swyddi gan Gyrfa Cymru a data'r Ganolfan Byd Gwaith, ynghyd â thrwy sgysiau anffurfiol â chyflogwyr lleol.
- Canfyddiad o bwys yw bod cynghorwyr Gyrfa Cymru yn defnyddio'r ymyriad yn sail i siwrnai fwy hirdymor i gyflogaeth. Yn ystod y cyfweiliadau â rhanddeiliaid, roedd cynghorwyr Gyrfa Cymru'n awyddus i bwysleisio nad oedd y gefnogaeth sydd ar gael drwy'r rhaglen Mynediad ynddi'i hun yn debygol o arwain at waith; at hynny, roedd cyfathrebu hyn yn bwysig wrth reoli disgwyliadau cyfranogwyr, yn ogystal ag wrth annog cyfranogwyr i ddatblygu sgiliau meddal fel sgiliau chwilio am swyddi a sgiliau wrth gael eich cyfweld.
- Cymorth Hyfforddiant Galwedigaethol yw'r ffrwd o gefnogaeth a ddefnyddir amlaf drwy'r rhaglen Mynediad. Er bod y dystiolaeth yn dangos bod cynghorwyr Gyrfa Cymru yn tynnu sylw'r cyfranogwyr at y Cymorth Recriwtio i Gyflogwyr a'r Cymorth Hyfforddiant i Gyflogwyr, nid yw'r opsiynau hyn yn cael eu defnyddio'n helaeth. At hynny, er bod Gyrfa Cymru'n rhoi cefnogaeth gynhwysfawr i unigolion, nid yw'r un math o gefnogaeth gynhwysfawr ar gael i fusnesau. Efallai fod hyn yn rhannol esbonio'r lefel ymddangosiadol isel o ymwybyddiaeth a'r nifer isel sy'n manteisio ar y gefnogaeth hon.

- Mae'r gefnogaeth ychwanegol i helpu pobl i oresgyn rhwystrau i hyfforddiant wedi'i defnyddio sawl gwaith, er bod y nifer sy'n dewis manteisio ar y gefnogaeth hon wedi bod yn is na'r disgwyl. Ceir rhywfaint o dystiolaeth bod y gefnogaeth ychwanegol wedi galluogi unigolion i gael hyfforddiant, ond mewn rhai achosion mae'n debygol o fod yn ddi-fudd.

5.1 Mae'r bennod hon yn asesu pa mor effeithiol yw'r broses o roi'r rhaglen Mynediad ar waith. Mae'n edrych ar dystiolaeth o'r holl waith gwerthuso, gan gynnwys data monitro, canlyniadau'r arolwg o'r cyfranogwyr, a chanfyddiadau ymchwil ansoddol a gynhaliwyd gyda rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru, cynghorwyr Gyrfa Cymru, busnesau, a chyfranogwyr y rhaglen.

5.2 Mae'r bennod hefyd yn edrych ar y prosesau y bydd cynghorwyr Gyrfa Cymru yn eu defnyddio i roi'r rhaglen ar waith ar lawr gwlad. Yn benodol, mae'n canolbwyntio ar sut y mae cynghorwyr Gyrfa Cymru yn canfod anghenion cyfranogwyr, yn monitro gwybodaeth am y farchnad lafur, ac yn cyfeirio pobl at gyrsiau penodol sy'n cael eu darparu drwy'r rhaglen Mynediad.

Gweinyddu'r Rhaglen a'i Rhoi ar Waith

5.3 Mae'r cyfweiliadau manwl a gynhaliwyd â rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru a chynghorwyr Gyrfa Cymru yn dangos mai'r farn yw bod y rhaglen wedi'i chynnal yn dda ar y cyfan. Er bod cyfranogwyr unigol wedi cael profiadau gwahanol o'r modd y cafodd y rhaglen ei rhoi ar waith, nid oes dystiolaeth o amrywiadau rhanbarthol yn hyn o beth. Mae addasu'r 'model ReAct' ar gyfer y rhaglen Mynediad wedi hwyluso'r gwaith o weinyddu'r rhaglen. Gan nad yw'r rhaglen yn cael ei chyllido drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop, y farn yw bod hyn wedi lleihau'r baich gweinyddol a'i bod yn haws rheoli'r rhaglen nag y byddai yn achos prosiect tebyg o dan y Gronfa honno.

5.4 Gan nad oes gan y rhaglen system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid, bu rhai goblygiadau i'r gwaith rheoli prosiect. Yn benodol, cyfeiriodd nifer o aelodau staff Llywodraeth Cymru yn ystod y cyfweiliadau â rhanddeiliaid at yr amser y mae'n ei gymryd i staff brosesu ceisiadau. Er bod hyn wedi achosi problemau gweinyddol i staff Llywodraeth Cymru, nid oes dystiolaeth ei fod wedi dylanwadu'n negyddol ar yr hyn y gall y rhaglen ei gynnig i gyfranogwyr.

- 5.5 Cyfeiriwyd at broblemau hefyd gyda'r data monitro sydd ar gael, er mwyn gallu dadansoddi canlyniadau'r prosiect yn y fan a'r lle. Mae Gyrfa Cymru yn casglu data monitro drwy alwadau dilynol chwe mis ar ôl yr ymyriad. Mae'r data o'r galwadau dilynol hyn yn cael eu rhoi i Lywodraeth Cymru ar ffurf canlyniadau cyflogaeth ar y lefel gyfanredol. Ar hyn o bryd, nid yw'r data monitro'n golygu bod modd gweld y cysylltiad rhwng canlyniadau ac ymyriadau penodol. Gallai rhoi'r math hwn o ddata olygu bod modd asesu pa gyrsiau sy'n arwain at ganlyniadau cyflogaeth a pha rai sy'n llai llwyddiannus. Drwy fwydo'r data hyn yn ôl i mewn wrth i'r rhaglen fynd rhagddi, byddai modd addasu'r math o gyrsiau sy'n cael eu hariannu drwy'r rhaglen.
- 5.6 O ran y cymorth sydd ar gael fel rhan o'r broses weinyddol o wneud cais am gefnogaeth drwy'r rhaglen Mynediad, mae'r cyfranogwyr a'r busnesau sy'n ymwneud â'r rhaglen yn fodlon â'r broses o wneud cais ac â'r canllawiau sydd wedi'u rhoi gan Gyrfa Cymru a thîm Mynediad Llywodraeth Cymru. Er bod Gyrfa Cymru wedi arwain y gwaith o roi cyngor am broses ymgeisio'r rhaglen, mewn rhai achosion ni fu modd i Gyrfa Cymru roi'r wybodaeth y gofynnwyd amdani. Yn yr achosion hyn, mae ymgeiswyr wedi'u cyfeirio at dîm Mynediad Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae rhai o'r ymatebwyr o dan yr argraff ei bod weithiau'n 'anodd cael gafael' ar y tîm Mynediad yn Llywodraeth Cymru, er bod angen cofio mai nifer bychan o ymatebwyr a ddywedodd hyn wrth ystyried y canfyddiad hwn.
- 5.7 Nid oes tystiolaeth bod hyn wedi bod yn sgil methiannau mewn gweithdrefnau ar ran Gyrfa Cymru na thîm Mynediad Llywodraeth Cymru, ond mae'n debygol (os yw'n adlewyrchiad o farn yr holl gyfranogwyr) o fod wedi effeithio ar y lefelau bodlonrwydd cyffredinol â'r rhaglen.

Darpariaeth Amlasiantaethol

- 5.8 Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru a staff Gyrfa Cymru a gyfwelwyd fel rhan o'r gwerthusiad hwn yn teimlo'n gadarnhaol am ddarpariaeth amlasiantaethol y rhaglen. Ceir teimlad bod perthynas weithio gref yn bodoli rhwng Llywodraeth Cymru a Gyrfa Cymru, ac mae'r berthynas hon wedi bod yn hollbwysig i lwyddiant y rhaglen. Ceir teimlad hefyd bod y ddarpariaeth amlasiantaethol yn ychwanegu gwerth i'r naill sefydliad a'r llall.

- 5.9 I Lywodraeth Cymru, y prif werth ychwanegol yw bod Gyrfa Cymru'n rhoi gwasanaeth cyfeirio, yn monitro gwybodaeth am y farchnad lafur leol, ac yn cynnig arbenigedd nad oes modd i Lywodraeth Cymru ei rhoi:

'Mae'r wybodaeth am y farchnad lafur yn rhan werthfawr o'r 'model Mynediad'. Nid wyf yn credu y gallem gyflawni Mynediad yn iawn heb i Gyrfa Cymru ein helpu fel hyn.' (Cyfweiliad â Llywodraeth Cymru, 2019)

- 5.10 Mae darparu'r rhaglen ar y cyd â Gyrfa Cymru yn debygol o leihau'r costau gweinyddol i Lywodraeth Cymru drwy sicrhau mai dim ond cyfranogwyr sy'n addas ac sy'n gymwys i gael eu cefnogi sy'n cael eu cyfeirio. Bydd hyn yn lleihau'r costau sy'n gysylltiedig â phrosesu ceisiadau a gaiff eu gwrthod maes o law.

- 5.11 Roedd staff Gyrfa Cymru a gyfwelwyd yn ystod y gwerthusiad hefyd yn teimlo'n gadarnhaol am y modd yr oeddent yn cydweithio â Llywodraeth Cymru. Roeddent i gyd ar y cyfan yn teimlo'n gadarnhaol iawn am y gefnogaeth sydd ar gael drwy'r rhaglen Mynediad, a dywedodd y cynghorwyr bod rhoi cefnogaeth drwy'r rhaglen yn ychwanegu gwerth at y gefnogaeth sy'n cael ei rhoi i gleientiaid Gyrfa Cymru. Crybwyllodd nifer o gynghorwyr Gyrfa Cymru a gyfwelwyd mai dyma'r union fath o ddarpariaeth yr oedd ei hangen er mwyn helpu pobl yn eu hardal leol i gael gwaith:

'Pan ddechreuodd y ddarpariaeth hon, roedd yn debyg i oleuo ystafell dywyll. Dyma'n union beth oedd ei angen.' (Cyfweiliad â chynghorydd Gyrfa Cymru, 2019)

'Oherwydd yr elfen ariannol, mae'n debygol bod y rhaglen wedi ein helpu ni i werthu'r hyn rydym ni'n ei gynnig i gleientiaid yn well. Rwy'n credu mewn rhai achosion ei bod wedi annog pobl i ddod i siarad â ni. Mae rhoi cyfarwyddyd yn hollbwysig o hyd er mwyn helpu pobl i gael gwaith, ac rwy'n credu bod y rhaglen Mynediad wedi golygu bod pobl yn fwy parod i gael y cyfarwyddyd hwnnw.'

(Cyfweiliad â chynghorydd Gyrfa Cymru, 2019)


Sut y mae Gyrfa Cymru yn canfod cyfranogwyr ac yn eu cyfeirio at y rhaglen Mynediad

- 5.12 Fel rhan o'r cyfweiliadau â chynghorwyr Gyrfa Cymru, gofynnwyd i bobl am y broses sy'n cael ei defnyddio i gyfeirio cleientiaid at y rhaglen Mynediad.
- 5.13 Er bod y nifer sy'n dewis cael cefnogaeth drwy'r rhaglen Mynediad yn amrywio o ranbarth i ranbarth, mae'r data a gasglwyd yn y cyfweiliadau â chynghorwyr Gyrfa Cymru yn awgrymu bod y dulliau o ymwneud â chleientiaid yn amrywio mwy rhwng gwahanol gynghorwyr unigol Gyrfa Cymru, yn hytrach nag yn ranbarthol.

Ymhlith y cynghorwyr Gyrfa Cymru a gyfwelwyd, cymedr nifer yr unigolion a gyfeiriwyd at y rhaglen Mynediad yn ystod y chwe mis diwethaf oedd 36. Fodd bynnag, roedd amrywiadau mawr yn y sampl, gyda nifer yr unigolion a gyfeiriwyd yn amrywio o 11 i 100.

- 5.14 Gofynnwyd i gynghorwyr Gyrfa Cymru beth yn eu tyb hwy oedd cymhelliad cyfranogwyr dros ofyn am gymorth drwy'r rhaglen Mynediad. Cymysg oedd yr atebion i'r cwestiwn hwn, gyda rhai cleientiaid wedi clywed am y rhaglen Mynediad wrth i bobl sôn amdani, eraill wedi'u cyfeirio gan y Ganolfan Byd Gwaith i siarad â Gyrfa Cymru am y rhaglen Mynediad, ac eraill wedi dod at Gyrfa Cymru gydag anghenion penodol, a'r cynghorydd yn penderfynu y gallai'r rhaglen Mynediad fod o fudd iddynt. Mae'r data a gasglwyd yn yr arolwg o'r cyfranogwyr yn dangos bod y rhan fwyaf ohonynt wedi clywed am y rhaglen Mynediad drwy gynghorwyr Gyrfa Cymru (n=38), tra bo'r Ganolfan Byd Gwaith hefyd yn llwybr cyfeirio cyffredin (n=17).


Ffigur 5.1: Sut y clywodd y rheini a ymatebodd i'r arolwg am y rhaglen Mynediad gyntaf



Sylfaen = 66 ymateb Ffynhonnell: Arolwg o'r cyfranogwyr

- 5.15 Fel y mae Ffigur 5.2 isod yn dangos, dywedodd 64 o'r 68 a ymatebodd i'r arolwg eu bod wedi bod yn chwilio am waith yn syth cyn ymwneud â'r rhaglen Mynediad. O'r pedwar a ddywedodd nad oeddent yn chwilio am waith, dywedodd yr ymatebwyr eu bod yn edrych ar ôl aelodau o'r teulu/yn gofalu (n=1), yn dioddef o broblem iechyd dros dro neu anaf (n=1), neu'n dioddef o broblemau iechyd hirdymor/anabledd (n=1).

Ffigur 5.2: Cyfran yr ymatebwyr i'r arolwg a oedd yn chwilio am waith cyn ymwneud â'r rhaglen Mynediad



Sylfaen = 68 ymateb Ffynhonnell: Arolwg o'r cyfranogwyr

- 5.16 Fel y byddai rhywun yn ei ddisgwyl, wrth benderfynu a fyddent yn cyfeirio cleientiaid at y rhaglen Mynediad, y meini prawf ar gyfer bod yn gymwys oedd y ffactorau y byddai cynghorwyr Gyrfa Cymru yn eu hystyried amlaf. Yr ystyriaeth gyntaf yn hyn o beth oedd cymhwysedd cyfranogwyr o dan raglenni sgiliau a chyflogadwyedd Cronfa Gymdeithasol Ewrop. Fodd bynnag, mae'r data a oedd ar gael i'r tîm gwerthuso yn golygu na fu'n bosibl asesu pa mor effeithiol yw'r broses gyfeirio hon.
- 5.17 Fel y cydnabyddir uchod, er bod pobl yn y grŵp hwn yn wynebu rhwystrau sy'n ymwneud â sgiliau a chymwysterau, nid dyna'r unig rwystrau y bydd cleientiaid yn eu hwynebu. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y cynghorwyr sy'n ystyried argymell y rhaglen Mynediad i gleientiaid yn ceisio canfod yn gyntaf a fyddai hyfforddiant yn mynd i'r afael â'r prif rwystr. Dywedwyd bod diffyg cymhelliad a rhwystrau eraill yn ymwneud â'r gefnogaeth sydd ar gael yn ffactorau o bwys eraill a allai olygu nad yw'r rhaglen Mynediad yn addas i'r cleient:


'Os na fydd rhywun yn perchnogi pethau [mae'n arwydd nad ydynt yn addas], gan na fyddant yn para ar y cwrs.' (Cyfweiliad â chynghorydd Gyrfa Cymru, 2019)

5.18 Dywedodd y rhan fwyaf o gynghorwyr Gyrfa Cymru a gyfwelwyd eu bod yn dueddol o fod yn fwy gofalus cyn cyfeirio pobl a oedd eisoes yn ymwybodol o'r rhaglen Mynediad. Er bod nifer o unigolion o'r fath yn y pen draw wedi cael eu cefnogi drwy'r rhaglen, dywedodd nifer o gynghorwyr eu bod yn awyddus iawn i ganfod beth oedd cymhelliad unigolion a sicrhau bod eu disgwyliadau'n realistig cyn eu cyfeirio. Dywedir mai'r rheswm dros hyn yw bod gan unigolion o'r fath weithiau ddisgwyliadau afrealistig o'r hyn y gallai'r rhaglen ei gyflawni iddynt, neu nad yw'r Ganolfan Byd Gwaith wedi rhoi'r dewis iddynt drafod y rhaglen Mynediad â Gyrfa Cymru.

Y cymhelliad dros gymryd rhan

5.19 Yn achos yr holl gyfranogwyr a gafodd gyfweiliadau manwl (30), symud i gyflogaeth oedd y prif gymhelliad dros gymryd rhan yn y rhaglen Mynediad. Fodd bynnag, trafodwyd nifer o gymhellion eilaidd hefyd. Cafodd data ansoddol am gymhellion cyfranogwyr eu codio'n thematig, ac fel y gwelir yn Ffigur 5.3, ennill cymwysterau oedd y cymhelliad eilaidd mwyaf cyffredin dros gymryd rhan yn y rhaglen Mynediad.

Ffigur 5.3: Cymhellion eilaidd dros ymwneud â'r rhaglen



Sylfaen= 30 Ffynhonnell: Cyfweiliadau manwl â chyfranogwyr

5.20 I'r rhan fwyaf o'r cyfranogwyr, roedd y cymhelliad i feithrin sgiliau ac ennill cymwysterau, gyda'r disgwyliad y byddai'r sgiliau hyn yn arwain at swydd, yn gysylltiedig â chymhellion eraill, er enghraifft yr awydd i fod yn rhan o sector gwahanol neu i newid llwybr gyrfa, yn ogystal â meithrin hunanhyder a hyder.


- 5.21 *'Roedd angen imi wneud rhywbeth gan fy mod wedi bod yn ddi-waith ers naw mis, ac os na fyddai gen i'r sgiliau roedd cyflogwyr yn chwilio amdanynt, byddwn wedi gorfod aros yn y tŷ yn ddigalon. Pe bawn i'n cwblhau'r cwrs hwn ac yn ennill y cymhwyster, byddai'n gwella fy nghyfle o gael swydd ac yn hwb i fy hyder, gan y byddwn yn gwneud rhywbeth gwerth chweil gyda fy amser'. (Cyfweliad manwl â chyfranogwr, 2019)*
- 5.22 *'Er ei bod yn bwysig ennill y cymhwyster a fyddai'n fy ngalluogi i gael swydd, roedd yn ymwneud â fy natblygiad personol hefyd. Golygai'r cymhwyster fy mod yn werthfawr drachefn, ac fe allai fod o fudd imi. Cyn hynny, roeddwn yn teimlo'n ddiwerth. Hefyd, drwy ennill y cymhwyster hwn a chael swydd rheolwr a honno'n swydd dda, roedd modd imi wneud gwir wahaniaeth yn y gweithle o ran diogelwch gweithwyr a chynhyrchiant y cwmni.'* (Cyfweliad manwl â chyfranogwr, 2019)
- 5.23 Dywedodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr (17/30) nad oedd dim amheuan ganddynt ynghylch cymryd rhan yn y rhaglen Mynediad cyn iddynt wneud hynny. Wrth roi rhagor o wybodaeth, roedd y rheini a ddywedodd na fu ganddynt amheuan yn cyfeirio'n aml at gymorth cynghorwyr Gyrfa Cymru fel y rheswm dros hyn:
- 'Na, doedd gen i ddim [amheuan]. Rhoddodd cynghorydd Gyrfa Cymru ddigonedd o wybodaeth imi, felly roedd popeth yn glir.'* (Cyfweliad manwl â chyfranogwr, 2019)
- 'Na ddim o gwbl, roedd y fenyw'n anhygoel, yn llenwi ffurflenni imi, yn fy helpu gyda phob dim. Rhoddodd hi gymaint o hyder imi roedd y peth yn anghredadwy, hyder i fynd yn fy mlaen a chwblhau'r prawf wagen fforch godi ac rwyf wedyn wedi cael cyfle i fynd yn ôl i weithio. Roedd y cyfan yn wych.'* (Cyfweliad manwl â chyfranogwr, 2019)
- 5.24 I'r rheini a chanddynt bryderon, roedd y rhain fel arfer yn ymwneud â syndod eu bod yn gymwys (tri chyfranogwr), ansicrwydd am yr hyn y byddent yn gallu'i gyflawni yn ystod y rhaglen (tri chyfranogwr), trafnidiaeth (un cyfranogwr), a phrinder gwybodaeth am y rhaglen (un cyfranogwr).
- 'Tan imi ddechrau arni go iawn, roeddwn yn pryderu na fyddwn yn gymwys. Am wn i bod hyn fel popeth, a chithau'n teimlo bod pethau'n rhy dda i fod yn wir tan iddo ddigwydd.'* (Cyfweliad manwl â chyfranogwr, 2019)

'[Roedd gen i amheuan oherwydd] doedd neb fel pe baent yn esbonio dim am y cyrsiau a'r hyn y byddwn i'n ei wneud. Roeddent am imi lenwi'r gwaith papur a chwblhau popeth yn y fan a'r lle.' (Cyfweiliad manwl â chyfranogwr, 2019)

Pa mor addas oedd yr ymyriad

- 5.25 Wrth gyfeirio cyfranogwyr at y rhaglen Mynediad, dywedodd cynghorwyr Gyrfu Cymru mai sgiliau a chymwysterau oedd rhwystr pennaf pobl rhag dod yn rhan o'r farchnad lafur. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod i nifer o'r ymatebwyr i'r arolwg a'r rheini a gafodd gyfweiliadau manwl ddweud eu bod wedi wynebu rhwystrau eraill, yn ogystal â sgiliau a chymwysterau. Fel y dangosir yn Ffigur 5.3, cyfeiriodd y cyfranogwyr yn y cyfweiliadau manwl at ystod o rwystrau yn hyn o beth.

Ffigur 5.4: Y rhwystrau i gyfranogwyr rhag cael gwaith



Sylfaen: 30 (Noder bod modd gwneud sawl dewis)
Ffynhonnell: Cyfweiliadau manwl â chyfranogwyr

- 5.26 Fel y gwelir yn Ffigur 5.4, dywedodd rhai cyfranogwyr fod problemau iechyd ac iechyd meddwl yn rhwystrau wrth geisio dod o hyd i waith. Yn y cyfweiliadau manwl, dywedodd rhai cyfranogwyr eu bod yn credu bod eu hiechyd meddwl wedi gwaethygu o ganlyniad i fod yn ddi-waith am gyfnod hir. Yn yr achosion hyn, awgrymodd y cyfranogwyr fod diweithdra parhaus o ganlyniad yn effeithio ar eu hyder a'u lles goddrychol.

'Roeddwn i wedi colli fy swydd ac wedi bod yn chwilio am waith ers tua naw mis cyn mynd ar y cwrs Mynediad. Roeddwn i'n dechrau teimlo'n ddigalon iawn.' (Cyfweiliad manwl â chyfranogwr, 2019)

'Y boen gorfforol oedd y peth mwyaf, ac efallai fy agwedd feddyliol. Es o fod â busnes llwyddiannus i fod heb arian o gwbl, ac i raddau roeddwn i'n dioddef o iselder.' (Cyfweiliad manwl â chyfranogwr, 2019)

- 5.27 Rhwystr arall cyffredin oedd oedran y cyfranogwyr. Awgrymodd nifer o'r cyfranogwyr bod eu hoedran, a'r ffaith eu bod yn agos at oed ymddeol, yn ei gwneud yn anodd iddynt gael gwaith. Meddai un cyfranogwr a gyfwelwyd:

'Byddai gan bobl ddiddordeb tan y byddent yn gweld fy nyddiad geni ac yna byddai pethau'n newid.' (Cyfweiliad manwl â chyfranogwr, 2019)

- 5.28 Mewn nifer o achosion, roedd y canlyniadau i'r cyfranogwyr hyn yn awgrymu bod y rhaglen Mynediad yn ymyriad addas. Ond mewn achosion eraill, er enghraifft pan ddywedodd y cyfranogwyr fod problemau iechyd (n=5) neu ddibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau (n=1) yn rhwystr o bwys wrth geisio dod yn rhan o'r farchnad lafur, nid y rhaglen Mynediad oedd yr ymyriad cywir, neu o leiaf nid dyma'r unig gefnogaeth y dylent fod wedi'i chael.

- 5.29 Serch hynny, gall fod gwerth mewn edrych a all y gefnogaeth i gael sgiliau a chymwysterau drwy'r rhaglen Mynediad fod yn rhan o becyn cymorth ehangach sy'n canfod y rhwystrau eraill i gyflogaeth, ar wahân i sgiliau a chyflogadwyedd.

Cefnogaeth gan Gyrfa Cymru i gyfranogwyr

- 5.30 Un o ganfyddiadau pwysig y gwerthusiad hwn yw bod gan Gyrfa Cymru gyfraniad o bwys i'w wneud wrth ddarparu'r rhaglen Mynediad. Mae sicrhau gwasanaeth o ansawdd da gan Gyrfa Cymru o ganlyniad yn hollbwysig er mwyn i'r rhaglen lwyddo.

- 5.31 Mae'r cyfweiliadau â chynghorwyr Gyrfa Cymru yn dangos eu bod, wrth weithio gydag unigolion, yn defnyddio'r ymyriad fel un cam yn unig ar siwrnai hwy tuag at gyflogaeth. Dywedodd y cynghorwyr fod hyn yn bwysig er mwyn canfod cymhellion cyfranogwyr cyn eu cyfeirio, ei fod yn ddefnyddiol i reoli disgwyliadau cyfranogwyr, a'i fod yn gymorth i ddechrau sgysiau am y camau eraill y mae angen i bobl eu cymryd i gael gwaith.

'Rhan o'r broses o gyfeirio pobl at y rhaglen Mynediad yw edrych ar y swyddi ym mhob sector/y sector y gallai eu cymhwyster fod yn berthnasol iddo. Mae hyn yn golygu bod y cyfranogwr yn gweld y broses fel un hwy. Maent yn deall y farchnad lafur yn y sector ar ôl cael hyfforddiant.' (Cyfweiliad â chynghorydd Gyrfa Cymru, 2019)

- 5.32 Barn cynghorwyr Gyrfa Cymru oedd bod y cyrsiau a gaiff eu hariannu drwy'r rhaglen Mynediad wedi gwneud cyfranogwyr yn fwy cyflogadwy, ond nad yw'r cymwysterau hyn ynddynt eu hunain am warantu y bydd unigolion yn cael gwaith. Mae ffactorau eraill fel y gallu i ddod o hyd i gyfleodd swyddi addas yn yr ardal, sgiliau wrth gael eich cyfweld, a lwc hefyd yn ffactorau o bwys wrth benderfynu a fydd yr ymyriad yn arwain at ganlyniadau cyflogaeth llwyddiannus. Er bod y ffactorau eraill hyn yn bwysig, dywedodd cynghorwyr bod y gefnogaeth sydd ar gael drwy'r rhaglen Mynediad yn cyd-fynd â'r mathau eraill o gefnogaeth a chyfarwyddyd maent yn eu rhoi.
- 5.33 Rhan bwysig o rôl Gyrfa Cymru wrth ddarparu'r rhaglen Mynediad yw casglu gwybodaeth am y farchnad lafur. Fel rhan o'r cyfweiliadau â rhanddeiliaid, gofynnwyd i gynghorwyr sut y maent yn casglu gwybodaeth am y farchnad lafur er mwyn helpu cleientiaid i wneud penderfyniadau doeth. Caiff y wybodaeth hon ei chasglu'n ffurfiol ac yn anffurfiol, gan gynnwys drwy ymwneud yn agos â chyflogwyr lleol a monitro hysbysebion swyddi yn yr ardal leol. Gall y cynghorwyr weld ystod eang o wybodaeth am y farchnad lafur o ffynonellau mewnol fel tueddiadau swyddi ar-lein, o gyfarfodydd ac e-byst mewnol, a chan gynghorwyr cyswllt cyflogwyr. Er bod yr holl gynghorwyr yn dweud eu bod yn defnyddio'r adnoddau hyn, dywedodd y rhan fwyaf eu bod yn defnyddio gwybodaeth o ffynonellau mwy anffurfiol hefyd. Crybwyllwyd erthyglau newyddion ynghyd â gwybodaeth y bydd cleientiaid eu hunain yn ei rhoi.


Tabl 5.1: Ffynonellau gwybodaeth am y farchnad lafur i gynghorwyr Gyrfa Cymru

Categori	Dull	N
Gyrfa Cymru	Tueddiadau swyddi Gyrfa Cymru	4
	Cynghorwyr cyswllt cyflogwyr	2
	Ffynonellau eraill Gyrfa Cymru, e.e. Cydweithwyr, adroddiadau ardal	4
Y Ganolfan Waith	Swyddogion cyswllt cyflogwyr y Ganolfan Waith	1
	Swyddi gwag y Ganolfan Waith	1
Ymchwil lleol ym maes cyflogaeth	Gwefannau / chwiliadau am swyddi	3
	Y farchnad lafur leol	1
Arall	Newyddion / erthyglau ar-lein	3
	Radio	1
	Cleientiaid	3

Ffynhonnell: Cyfweiliadau â chynghorwyr Gyrfa Cymru

- 5.34 Roedd y cyfranogwyr ar y cyfan yn teimlo'n gadarnhaol am y modd y mae Gyrfa Cymru'n ymwneud â'r rhaglen Mynediad. Yn benodol, roedd y cyfranogwyr yn teimlo'n gadarnhaol am rôl cynghorwyr Gyrfa Cymru wrth helpu pobl i ddewis cyrsiau addas, ac mae data o'r arolwg o'r cyfranogwyr yn awgrymu bod cynghorwyr Gyrfa Cymru'n cyfrannu'n sylweddol wrth ddylanwadu ar benderfyniadau pobl ynghylch pa gwrs i'w ddilyn. Nid yw'r ymateb hwn yn dra gwahanol wrth ei gymharu â chanlyniadau cyflogaeth.

Ffigur 5.5: Pa mor bwysig oedd cyngor eich cynghorydd Gyrfa Cymru wrth ddewis pa gwrs i'w ddilyn? Rhowch sgôr ar raddfa o 0 i 4, gyda 4 yn golygu ei fod yn bwysig iawn, a 0 yn golygu nad oedd yn bwysig o gwbl



Sylfaen= 61 Ffynhonnell: Arolwg o'r cyfranogwyr

- 5.35 Mae hyn yn awgrymu bod y wybodaeth a'r cyfarwyddyd a roddir gan gynghorwyr Gyrfa Cymru yn rhan bwysig o'r broses pan fydd cyfranogwyr y rhaglen Mynediad yn dewis cyrsiau.
- 5.36 Mae data ansoddol a gasglwyd drwy gyfweiliadau manwl â'r cyfranogwyr yn dangos bod pobl yn teimlo bod yr ymgynghoriad wedi'i arwain gan y cleient, gydag anghenion a datblygiad personol yr unigolion yn ganolog i'r broses.
- 'Aeth Gyrfa Cymru drwy fy CV er mwyn gweld fy sgiliau a dangos pa gyrsiau a oedd yn berthnasol i mi. Fe wnaethon nhw fy helpu i gael gwybodaeth am bob cwrs a fy helpu i benderfynu pa un oedd fwyaf addas i mi.'* (Cyfweiliad manwl â chyfranogwr, 2019)
- 5.37 Awgrymodd cynghorwyr Gyrfa Cymru opsiynau ar gyfer cyrsiau a oedd yn cydfynd â dyheadau gyrfa'r cleientiaid; fodd bynnag, nid oedd yn rhaid gwneud hyn bob tro fel y mae'r ymatebion canlynol yn dangos:

'Es i atyn nhw yn gwybod i ba gyfeiriad roeddwn i am fynd, ac yn gwybod pa gymwysterau'r oedd eu hangen arna' i. Esboniais hynny wrth y cynghorydd yn Gyrfa Cymru a chan fy mod mor glir fy meddwl ynghylch fy anghenion, doedd dim angen iddynt roi cyngor imi mewn gwirionedd.' (Cyfweiliad manwl â chyfranogwr, 2019)

'Doedd gan fy nghynghorydd yn Gyrfa Cymru ddim syniad o gwbl pa hyfforddiant oedd ei angen arna' i. Fi drefnodd yr hyfforddiant, dywedais wrtho beth oedd ei angen arna' i, a phwy allai wneud hynny, felly fi oedd yn ei gynghori fe. Dywedodd nad oedd wedi siarad â pheilot o'r blaen ynghylch hyn, ond roedd e'n dda iawn, yn gefnogol iawn ac yn llawn help.' (Cyfweliad manwl â chyfranogwr, 2019)

- 5.38 Mae hyn yn gyson â dull cyffredinol Gyrfa Cymru o weithio, sef sicrhau bod yr unigolyn yn ganolog i'r broses. Dim ond mewn un achos y dywedodd cyfranogwr nad oedd y cyngor a roddwyd gan y cynghorydd Gyrfa Cymru a drefnodd yr ymgynghoriad yn ddefnyddiol:

'Es i ar gwrs chwe diwrnod yn lleol, cwrs a fyddai'n rhoi'r cymhwyster angenrheidiol imi drin peiriannau ac offer. Fodd bynnag, beth oedd ei angen arna' i mewn gwirionedd oedd trwydded ddiogelwch trac rheilffordd, gan fod llawer mwy o swyddi yn y maes hwn, ond ni wnaeth cynghorydd Gyrfa Cymru ddweud hyn wrtha' i.' (Cyfweliad manwl â chyfranogwr, 2019)

Elfennau penodol o'r gefnogaeth a roddir o dan y rhaglen Mynediad

- 5.39 Mae data monitro'r rhaglen a data o'r arolwg ymhlith cyfranogwyr yn dangos mai Cymorth Hyfforddiant Galwedigaethol oedd yr elfen o gefnogaeth a ddefnyddiwyd fwyaf o dan y rhaglen Mynediad. Fel y gwelir yn Nhabl 4.2, roedd hyn i'w weld yn y sampl, gyda 61 ymatebwr yn dweud iddynt gael Cymorth Hyfforddiant Galwedigaethol.

Tabl 5.2: Y ffrydiau cefnogaeth a ddefnyddiwyd gan y cyfranogwyr


	Cymorth Hyfforddiant Galwedigaethol	Cymorth Recriwtio i Gyflogwyr	Cymorth Hyfforddiant i Gyflogwyr
Cyfanswm y ceisiadau llwyddiannus (sylfaen = 1,574)	1531	36	7
Cyfanswm y ceisiadau aflwyddiannus (sylfaen = 16)	16	0	0
Cyfanswm y ceisiadau yn y sampl (sylfaen = 68)	61	2	5

Ffynhonnell: Data monitro'r prosiect a sampl o'r arolwg

Cymorth Hyfforddiant Galwedigaethol

- 5.40 Roedd yr ymatebwyr i'r arolwg ar y cyfan yn fodlon â'r gefnogaeth a roddwyd drwy'r cwrs hyfforddiant galwedigaethol a gawsant. Fel y dangosir yn Ffigur 4.5, dywedodd 80% (49) o'r ymatebwyr eu bod yn 'fodlon iawn' â'r gefnogaeth roeddent wedi'i chael drwy'r Cymorth Hyfforddiant Galwedigaethol o dan y rhaglen Mynediad.

Ffigur 5.6: Pa mor fodlon yw cyfranogwyr â'r hyfforddiant a roddir drwy'r Cymorth Hyfforddiant Galwedigaethol o dan y rhaglen Mynediad



Sylfaen = 61 ymateb Ffynhonnell: Arolwg o'r cyfranogwyr

- 5.41 Mae'r cyfweiliadau manwl â'r cyfranogwyr yn dangos mai un o'r prif resymau dros fod yn fodlon â'r Cymorth Hyfforddiant Galwedigaethol oedd bod y model a ddefnyddiwyd yn rhoi rhyddid i bobl ddewis eu cyrsiau:

'Dilyna is i'r cwrs rheoli iechyd a diogelwch. Roedd hwn ar gael yn lleol ac roeddwn i'n gwybod bod gan y darparwr hyfforddiant enw da. Cwrs pum niwrnod oedd hwn, gydag arholiad i'w sefyll ar y diwedd. Dyma'r cwrs mwyaf cyfleus i mi, gan ei fod yn rhoi'r cymhwyster roedd ei angen arna' i, yn gyfleus o ran lleoliad, ac yn gallu cael ei gwblhau'n gyflym.' (Cyfweiliad manwl â chyfranogwr, 2019)

- 5.42 Ar y llaw arall, roedd rhai cyfranogwyr yn rhwystredig â chyfyngiadau'r rhaglen gan nad oedd modd iddynt ddilyn y cyrsiau o'u dewis. Roedd rhai cyfranogwyr wedi bod yn awyddus i ddilyn cyrsiau ar-lein, ond ni chafodd y rhain eu cymeradwyo, ac mewn achosion eraill roedd y cyrsiau'n costio mwy na'r uchafswm y byddai'r rhaglen yn ei ariannu:

'Ystyriaais i wneud Prince 2, ond roedd yn ddrud iawn, a doedd dim modd i gyllideb Gyrfu Cymru dalu amdano.' (Cyfweiliad manwl â chyfranogwr, 2019)

'Rwy'n credu bod angen i'r cyrsiau fod yn fwy hyblyg wrth gael eu darparu a chaniatáu mwy o ddysgu gartref.' (Cyfweiliad manwl â chyfranogwr, 2019)

Cymorth Recriwtio i Gyflogwyr

- 5.43 Mae data monitro'r rhaglen a chyfweiliadau â thîm craidd Llywodraeth Cymru yn awgrymu y cafodd Cymorth Recriwtio Cyflogwyr ei ddefnyddio lai na'r hyn a ddisgwyd i gychwyn.
- 5.44 Mae cyfweiliadau â chwmnïau sy'n derbyn cymorth yn awgrymu mai busnesau bach a chanolig a microfusnesau yw mwyafrif y sawl sy'n derbyn cymorth. Fodd bynnag, gan mai pum cyfweiliad yn unig a gynhaliwyd, dylid cydnabod mai cyfyngedig yw'r data sydd ar gael ar gyfer y gwerthusiad yn y maes hwn. Ymhellach, ni fu'r gwerthusiad yn ymwneud â busnesau na wnaeth ddefnydd o raglen Mynediad, felly anodd yw asesu'r rhwystrau posibl y mae busnesau'n eu hwynebu wrth gael mynediad at y gronfa a'i defnyddio.
- 5.45 Mae data arolwg y cyfranogwyr yn awgrymu bod rhai o'r sawl a dderbyniodd Gymorth Hyfforddiant Galwedigaethol wedi symud i mewn i gyflogaeth heb ddefnyddio'r Cymorth Recriwtio i Gyflogwyr am nad oeddynt yn meddwl ei fod yn angenrheidiol. Mae hyn yn ganfyddiad cadarnhaol am ei fod yn awgrymu llai o ddifuddiant. Meddai nifer fach nad oedd ar eu cyflogwr eisiau/angen y cymorth. Yn ychwanegol, meddai nifer fach ($n = 7$) o'r rhai a dderbyniodd Gymorth Hyfforddiant Galwedigaethol Mynediad nad oeddynt yn ymwybodol eu bod yn gymwys i dderbyn Cymorth Recriwtio i Gyflogwyr.
- 5.46 Er i gynghorwyr Gyrfu Cymru a gyfwelewyd yn ystod y gwerthusiad ddweud iddynt gynghori cyfranogwyr ynglŷn â'r holl gymorth sydd ar gael, mae'r cyfweiliadau â'r cyfranogwyr yn awgrymu nad oedd yr holl gyfranogwyr yn ymwybodol bod y Cymorth Recriwtio i Gyflogwyr ar gael. Yn yr un modd, thema gyffredin a gododd o'r cyfweiliadau â busnesau a gynorthwywyd yw bod ymwybyddiaeth o'r cymorth hwn yn gyffredinol isel. Nid yw defnydd ac ymwybyddiaeth isel o'r cymorth hwn o anghenraid yn agwedd negyddol ar y rhaglen: os nad oes angen y Cymorth Recriwtio i Gyflogwyr i helpu cyfranogwyr i symud i gyflogaeth, ni ddylai gael ei ddefnyddio. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl dweud faint yn rhagor o ganlyniadau cyflogaeth fyddai wedi'u creu pe byddai'r ymwybyddiaeth a'r defnydd o'r Cymorth Recriwtio i Gyflogwyr a'r Cymorth Hyfforddiant i Gyflogwyr yn uwch.

- 5.47 Mae'r cyfweiliadau â'r busnesau a ddefnyddiodd y Cymorth Hyfforddiant i Gyflogwyr yn awgrymu y bu Gyrfa Cymru a'r Ganolfan Byd Gwaith yn chwarae rôl froceru ar gyfer rhai busnesau. Meddai rhai busnesau a gyfwelwyd iddynt ofyn i Yrfa Cymru am gymorth i recriwtio pobl a oedd â sgiliau priodol. Mewn ymateb i hyn, rhoddodd Gyrfa Cymru hwy mewn cyswllt ag unigolion a oedd wedi dilyn cyrsiau hyfforddiant perthnasol gyda chymorth gan raglen Mynediad. Mewn achosion eraill, mae'n ymddangos bod y Ganolfan Byd Gwaith wedi cysylltu â busnesau i'w hysbysu bod ganddynt ymgeisydd sydd â sgiliau penodol ac sy'n gymwys i gael cymhorthdal cyflog drwy Gymorth Recriwtio i Gyflogwyr. Mae'n ymddangos bod y graddau mae'r math hwn o gymorth ar gael yn amrywio ranbarth i ranbarth, yn dibynnu ar ddull gweithredu Gyrfa Cymru a'r Ganolfan Byd gwaith ym mhob ardal.
- 5.48 O ystyried cryfder ymddangosiadol y swyddogaeth froceru hon lle cafodd ei defnyddio, gallai fod yn fuddiol cynyddu'r rhan y mae Busnes Cymru'n chwarae yn y rhaglen er mwyn darparu'r un math o gymorth cofleidiol a ddarparodd Gyrfa Cymru i Gymorth Hyfforddiant Galwedigaethol. Gallai hyrwyddo'r rhaglen i fusnesau, a'u helpu i ddod i gyswllt â chyfranogwyr Mynediad a gwblhaodd gymwysterau perthnasol yn ddiweddar, ychwanegu gwerth i'r rhaglen cyhyd â nad yw canlyniadau cyflogaeth o ganlyniad i hyn yn arwain at ddifuddiant.


Cymorth Hyfforddiant y Gyflogwyr

- 5.49 Ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, nid yw'n ymddangos bod ychwanegedd sylweddol o ganlyniad i agwedd Cymorth Hyfforddiant i Gyflogwyr y cymorth. Meddai'r holl unigolion a'r busnesau a ddefnyddiodd y cymorth nad oedd hyn yn ffactor sylweddol wrth greu cyflogaeth. Fodd bynnag, roedd ychwanegedd cyfyngedig o'r cymorth hwn, wrth i'r hyfforddiant alluogi i'r cyflogaion weithredu ar lefel uwch neu addasu'n gyflymach i rôl newydd. Mae posibilrwydd bod yr hyfforddiant yn creu cyflogaeth fwy cynaliadwy i'r cyfranogwyr. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl dod i gasgliadau cadarn ar sail y dystiolaeth gyfyngedig sydd ar gael.
- 5.50 Meddai nifer fach o gyfranogwyr iddynt ddefnyddio Cymorth Recriwtio i Gyflogwyr heb dderbyn Cymorth Hyfforddiant i Gyflogwyr. Ni fyddai'r rhaglen yn caniatáu i Gymorth Hyfforddiant i Gyflogwyr gael ei ddefnyddio heb ddefnyddio Cymorth Recriwtio i Gyflogwyr yn gyntaf. Mae'r ymatebion hyn yn awgrymu nad oedd ymatebwyr yr arolwg yn llawn ymwybodol o'r math o gymorth y gwnaethant ei dderbyn.

Cymorth Ychwanegol

- 5.51 Yn ogystal â'r prif ffrydiau o gefnogaeth sydd ar gael drwy'r rhaglen Mynediad, roedd modd i gyfranogwyr ddefnyddio cronfa ychwanegol i oresgyn rhwystrau i gael hyfforddiant. Mae data monitro'r rhaglen yn dangos bod y gronfa hon wedi'i defnyddio 1159 o weithiau. Gofynnwyd i'r rheini a gyfrannodd i'r arolwg am y gronfa hon, gyda 32 o'r 38 ymatebwr yn dweud eu bod wedi'i defnyddio. Fel y gwelir yn Ffigur 4.6, yn y rhan fwyaf o'r achosion (28/32), fe'i defnyddiwyd i dalu am gostau trafnidiaeth.


Ffigur 5.7: Y defnydd o gymorth ychwanegol gan yr ymatebwyr i'r arolwg



Sylfaen: 30 ymateb Ffynhonnell: Arolwg o'r cyfranogwyr

- 5.52 Mae Ffigur 5.8 yn dangos mai cymysg oedd ymateb y cyfranogwyr ynghylch i ba raddau oedd y cymorth hwn wedi'u galluogi i gael hyfforddiant. Ar sail y dystiolaeth hon, er bod y cymorth ychwanegol wedi helpu rhai o gyfranogwyr y rhaglen Mynediad i gael hyfforddiant, mewn achosion eraill mae'n debygol o fod yn ddi-fudd, gyda chyfranogwyr a fyddai wedi cael yr hyfforddiant beth bynnag yn cael cymorth ychwanegol.


Ffigur 5.8: Effaith y cymorth ychwanegol ar rwystrau i gael hyfforddiant



Sylfaen: 32 Ffynhonnell: Arolwg o'r cyfranogwyr – Pe na byddech chi wedi cael y cymorth ychwanegol hwn, pa mor debygol yw y byddech chi wedi dilyn y cwrs hyfforddi? Rhowch sgôr ar raddfa o 0 i 4, gyda 0 yn golygu nad yw'n debygol o gwbl, a 4 yn golygu tebygol iawn

- 5.53 Pan na chafodd cyfranogwyr gymorth ychwanegol, mae Ffigur 5.9 isod yn awgrymu bod hyn yn bennaf gan eu bod yn teimlo nad oedd angen hyn arnynt. Drachefn, mae hyn yn gadarnhaol os cafwyd canlyniad cadarnhaol heb fod angen y cymorth ychwanegol hwn. Dywedodd rhai cyfranogwyr nad oeddent yn ymwybodol o'r cymorth a oedd ar gael. Nid yw'n glir a yw hyn wedi bod yn rhwysr i bobl rhag cael eu cefnogi, gan nad oedd y gwerthusiad yn edrych ar unigolion a ymgynghorodd â Gyrfa Cymru am y rhaglen Mynediad ond na ddewisodd gael eu cefnogi maes o law.

Ffigur 5.9: Y rhesymau pam na ddewisodd pobl gael cymorth ychwanegol



Sylfaen: 28 Ffynhonnell: Arolwg o'r cyfranogwyr

6. Canfyddiadau'r Gwerthusiad: Y Canlyniadau a'r Effaith


Crynodeb o'r Canfyddiadau:

- 6.1 O 1400 o ymgeiswyr, mae data gan Gyrfa Cymru yn dangos y cafodd 359 o unigolion ganlyniadau cyflogaeth cadarnhaol. Nid yw'n bosibl cyfrifo faint o'r grŵp ymyrryd a fyddai wedi cael gwaith beth bynnag, ac nid yw'n glir pa mor gadarn yw'r data a gasglwyd am ganlyniadau.
- 6.2 Er na fu'n bosibl creu dadansoddiad gwrthffeithiol o'r data am ganlyniadau, mae'r data a gasglwyd yn yr arolwg o'r cyfranogwyr a'r cyfweiliadau manwl yn dangos bod teimlad bod yr unigolion sydd wedi dod o hyd i waith wedi cael rhywfaint o ychwanegedd o'r rhaglen.
- 6.3 Ceir teimlad mai'r Cymorth Hyfforddiant Galwedigaethol, sef y gweithgarwch mwyaf o dipyn o dan y rhaglen, yw'r elfen sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar ganlyniadau. Mae'r cyfweiliadau â chynghorwyr Gyrfa Cymru a'r cyfranogwyr yn awgrymu bod y cymwysterau y mae unigolion wedi'u hennill wedi helpu'r unigolion hyn i fodloni gofynion sylfaenol swyddi. Mewn achosion eraill, mae'r sgiliau (sgiliau caled a sgiliau meddal ill dau) a ddatblygwyd drwy fod yn rhan o'r rhaglen wedi bod yn bwysig wrth helpu unigolion i gael gwaith.
- 6.4 Mewn achosion lle na fu canlyniadau cyflogaeth llwyddiannus i gyfranogwyr, ceir rhywfaint o dystiolaeth o ganlyniadau sy'n dangos bod unigolion yn agosach at waith nag y byddent wedi bod fel arall. Mae'r arolwg o'r cyfranogwyr a'r cyfweiliadau manwl â'r cyfranogwyr yn dangos effaith ar hyder pobl, hyd yn oed mewn sefyllfaoedd lle na chafwyd canlyniadau cyflogaeth llwyddiannus.
- 6.5 Er nad oes cymaint o ddefnydd wedi'i wneud o'r Cymorth Recriwtio i Gyflogwyr a'r Cymorth Hyfforddiant i Gyflogwyr â'r hyn a ddisgwyliwyd yn wreiddiol, ceir rhywfaint o dystiolaeth bod yr elfennau hyn wedi creu ychwanegedd. Mae'n amlwg hefyd bod busnesau unigol wedi recriwtio'n gynharach neu wedi recriwtio niferoedd mwy nag y byddent wedi gwneud fel arall. Ar yr un pryd, mae'n debygol bod rhywfaint o waith di-fudd wedi'i wneud yn sgil yr elfennau hyn yn yr ymyriad.

Y canlyniadau i'r unigolion a gafodd eu cefnogi

- 6.6 O 1400 o ymgeiswyr, mae data gan Gyrfa Cymru yn dangos canlyniadau cyflogaeth cadarnhaol i 359 o unigolion, sef 26% ohonynt. Fodd bynnag, nid yw'n glir pa mor gadarn yw'r data hyn am ganlyniadau, ac ni fu'n bosibl cyfrifo'n bendant faint o'r canlyniadau hyn na fyddai wedi digwydd heb gymorth y rhaglen Mynediad.
- 6.7 Wrth edrych ar awdurdodau lleol yn unigol, fel y gwneir yn Ffigur 6.1 isod, ceir amrywiaeth sylweddol rhwng gwahanol ardaloedd, yn amrywio o 33% o'r cyfranogwyr yn cael canlyniadau cadarnhaol yn Nhorfaen i 18% yn Abertawe.


Ffigur 6.1: Canran y cyfranogwyr a gafodd ganlyniadau cadarnhaol yn ôl awdurdod lleol



Sylfaen = cyfanswm o 1400 o ganlyniadau a 359 o ganlyniadau llwyddiannus

- 6.8 O fewn y sampl o'r cyfranogwyr i'r arolwg, dywedodd 30 eu bod mewn gwaith ar hyn o bryd, roedd 28 yn ddi-waith ac yn chwilio am waith, a dywedodd pump o'r rheini a ymatebodd eu bod yn gweithio'n wirfoddol, mewn swydd heb gyflog, neu ar interniaeth.


Ffigur 6.2: Gweithgareddau presennol yr ymatebwyr i'r arolwg



Sylfaen = 68 ymateb Ffynhonnell: Arolwg o'r cyfranogwyr

- 6.9 Gofynnwyd i'r rheini a ddywedodd eu bod mewn gwaith ym mha sector cyflogaeth oeddent. Mae'r canlyniadau hyn i'w gweld yn Ffigur 6.3.


Ffigur 6.3: Sector cyflogaeth yr ymatebwyr i'r arolwg



Sylfaen= 28 Ffynhonnell: Arolwg o'r cyfranogwyr

- 6.10 Mae data o'r arolwg yn dangos bod cyfranogwyr wedi symud i ystod o swyddi gwahanol. Mae teitlau swyddi wedi cael codau'r Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol. Mae'r data'n dangos mai Gweithredwyr Prosesau, Peirianwaith a Pheiriannau oedd y categori mwyaf cyffredin (n= 9), er bod 'Rheolwyr, Cyfarwyddwyr ac Uwch Swyddogion' (n= 3) a Galwedigaethau Proffesiynol (n= 4) hefyd yn ymddangos yn y sampl. Mae hyn yn awgrymu mai nid unigolion sy'n awyddus i gael gwaith cyflog isel yn unig sy'n defnyddio'r rhaglen Mynediad, ond pobl sydd hefyd am symud i broffesiynau ar lefel uwch.

Ffigur 6.4: Codau'r Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol ar gyfer swyddi presennol yr ymatebwyr i'r arolwg



Sylfaen = 28 ymateb Ffynhonnell: Arolwg o'r cyfranogwyr

Ychwanegedd yr Ymyriad

- 6.11 Rhan bwysig o werthuso'r rhaglen Mynediad yw asesu ychwanegedd yr ymyriad. Yn ôl Llyfr Gwyrdd Trysorlys Ei Mawrhydi, y diffiniad o ychwanegedd yw'r effeithiau sy'n deillio o ymyriad na fyddai wedi digwydd yn absenoldeb yr ymyriad, neu:


*'The extent to which activity takes place at all, on a larger scale, earlier or within a specific designated area or target group as a result of the intervention.'*²²

²²[The green book](#)

- 6.12 O ganlyniad i'r amserlen ar gyfer cynnal y gwerthusiad a'r data monitro hydredol a oedd ar gael, nid yw'r gwerthusiad hwn wedi datblygu dull gwrthffeithiol cadarn o edrych ar y data am ganlyniadau. Yn hytrach, mae data ansoddol gan y cyfranogwyr a busnesau wedi'u defnyddio er mwyn rhoi elfen wrthffeithiol i'r gwerthusiad. Er y gall y dull hwn roi gwybodaeth am effaith ymddangosiadol y gefnogaeth a roddwyd i gyfranogwyr, ni fydd yn rhoi'r un wybodaeth gadarn â dull gwrthffeithiol sydd wedi'i seilio ar ddata am ganlyniadau.
- 6.13 Mae'r arolwg o'r cyfranogwyr, y cyfweiliadau manwl â'r cyfranogwyr, a chyfweiliadau â chynghorwyr Gyrfa Cymru i gyd yn dangos bod yr ymyriad yn rhoi rhywfaint o ychwanegedd. Ar yr un pryd, mae natur fechan y sampl yn golygu bod yn rhaid bod yn ofalus wrth drin y casgliadau a lunnir o'r data ansoddol.
- 6.14 Yn yr arolwg o'r cyfranogwyr, gofynnwyd i'r rheini a oedd mewn gwaith am effaith y gefnogaeth a oedd ar gael drwy'r rhaglen Mynediad ar eu gwaith presennol. Fel y gwelir yn Ffigur 6.5, roedd barn y cyfranogwyr yn gymysg ynghylch effaith yr ymyriad ar eu canlyniadau cyflogaeth.

Ffigur 6.5: Barn am ychwanegedd yr ymyriad

Pa mor debygol yw y byddech yn y swydd hon pe na baech chi wedi cael cefnogaeth drwy'r rhaglen Mynediad? Rhowch sgôr ar raddfa o 0 i 4, gyda 4 yn golygu ei bod yn debygol iawn, a 0 yn golygu nad yw'n debygol o gwbl



Sylfaen = 25 ymateb Ffynhonnell: Arolwg o'r cyfranogwyr

Dulliau i ysgogi newid

- 6.15 O blith yr elfennau hyn o gefnogaeth, roedd teimlad mai'r Cymorth Hyfforddiant Galwedigaethol oedd yr elfen a wnaeth y gwahaniaeth mwyaf i ganlyniadau unigolion. Roedd hon yn thema arbennig o gryf yn y cyfweiliadau â chynghorwyr Gyrfa Cymru, a awgrymodd fod diffyg cymwysterau addas yn rhwystr i bobl rhag bodloni gofynion sylfaenol swyddi ac yn rhwystr i nifer o gyfranogwyr y rhaglen Mynediad:

“Mae [Cymorth Hyfforddiant Galwedigaethol] yn rhan bwysig iawn o'r pecyn. Un o'r rhesymau pam ei fod yn gweithio'n weddol dda yw bod cynifer o sectorau wedi cyflwyno cynifer o ofynion o ran sgiliau a chymwysterau sy'n rhwystro pobl rhag cael swyddi.” (Cyfweiliad â chynghorydd Gyrfa Cymru, 2019)


- 6.16 Gall hyn fod yn wir hyd yn oed ymhlith unigolion sydd â phrofiad gwaith diweddar yn y sector perthnasol:

‘Mae gofynion y farchnad lafur yn newid mor aml, i rai pobl bydd bod yn ddi-waith am bum mis yn golygu nad yw eu sgiliau wedi'u diweddarau. [Mae'r rhaglen Mynediad] yn cyd-fynd ag anghenion y grŵp hwn o bobl.’ (Cyfweiliad â chynghorydd Gyrfa Cymru, 2019)

- 6.17 Adleisiwyd y canfyddiadau hyn yn y cyfweiliadau â chyfranogwyr. Fel yr awgryma Ffigur 6.6 isod, mae data o'r arolwg o'r cyfranogwyr yn dangos bod pobl yn teimlo bod y cymwysterau a gafodd eu hariannu drwy'r rhaglen Mynediad wedi cyfrannu'n sylweddol wrth eu helpu i ddod o hyd i waith. Roedd hyn yn bwysicach na'r sgiliau a enillwyd drwy'r ymyriad a'r cyngor a'r cyfarwyddyd a roddir gan gynghorwyr Gyrfa Cymru.

Ffigur 6.6: Barn y cyfranogwyr am effaith Cymorth Hyfforddiant Galwedigaethol ar ganlyniadau cyflogaeth

Faint, o gwbl, a gyfrannodd y pethau canlynol yn eich barn chi wrth ddod o hyd i waith? Rhowch sgôr ar raddfa o 0 i 4, gyda 4 yn golygu llawer iawn, a 0 yn golygu dim o gwbl



Sylfaen = 30 ymateb Ffynhonnell: Arolwg o'r cyfranogwyr

- 6.18 Dangosodd y cyfweiliadau manwl fod pobl yn teimlo'i bod yn bwysig bod gan y rheini sy'n chwilio am waith y cymwysterau diweddaraf er mwyn rhoi tystiolaeth o'u sgiliau a'u profiad. Yn yr un modd, dywedodd 11 o'r 14 unigolyn a gafodd eu cefnogi gan y rhaglen ac a oedd mewn gwaith ar hyn o bryd eu bod wedi defnyddio'r sgiliau a ddysgwyd ar y cwrs a ariannwyd drwy'r rhaglen Mynediad yn eu gwaith presennol. Dywedodd cyfranogwyr eraill fod y sgiliau a'r cymwysterau a gawsant drwy'r cwrs a ariannwyd gan y rhaglen Mynediad yn hanfodol i'w gwaith presennol:

'Roedd fy nghyflogwyr wedi dweud wrtha' i na allent roi'r swydd imi er fy mhrofiad o weithio yn y maes gweinyddol am 20 mlynedd, gan nad oedd gen i brofiad o ddefnyddio meddalwedd SAGE, a doedd ganddynt ddim amser nac arian i fy hyfforddi i'w ddefnyddio.' (Cyfweiliad manwl â chyfranogwr, 2019)

- 6.19 Gan mai Cymorth Hyfforddiant Galwedigaethol oedd yr elfen o gefnogaeth a ddefnyddiwyd yn fwyaf aml, sef yn achos tua 90% o weithgarwch y rhaglen, nid yw'n syndod bod pobl yn teimlo mai dyma'r prif beth a oedd yn ysgogi newid. Ar yr un pryd, ceir dystiolaeth bod y mathau eraill o gymorth a oedd ar gael drwy'r rhaglen Mynediad wedi cael effaith ar gyfranogwyr y rhaglen.
- 6.20 Awgrymodd cynghorwyr Gyrfu Cymru fod y cyngor a'r cyfarwyddyd a roddir yn bwysig gan eu bod yn helpu pobl sy'n cael eu cefnogi i roi cyd-destun i'w hyfforddiant. Drwy roi cyfarwyddyd ar ddechrau'r ymyriad, dadl cynghorwyr Gyrfu Cymru oedd bod hynny'n rhoi cyd-destun i'r gefnogaeth sy'n dilyn, gan alluogi cleientiaid i gael y gefnogaeth fwyaf addas ac i'w defnyddio i'w llawn botensial. Mae hynny hefyd yn helpu cyfranogwyr i ddefnyddio'r hyfforddiant a gawsant yn y ffordd orau ar ôl cwblhau'r cwrs. Awgrymodd un o gynghorwyr Gyrfu Cymru:
- 'Rwy'n credu ei bod yn anorfod mai dyna [y cyngor a'r cyfarwyddyd] yw'r rhan bwysicaf, oherwydd os na roddir y rhain yn y ffordd iawn, nid yw'r rhaglen yn cael ei defnyddio yn y ffordd orau. Mae'n golygu rhoi'r grym i bobl wneud penderfyniadau drostynt eu hunain.'* (Cyfweiliad â chynghorydd Gyrfu Cymru, 2019)


Canlyniadau Meddal

- 6.21 Mae Gyrfu Cymru'n pwysleisio ei bod yn bwysig deall effaith y Cymorth Hyfforddiant Galwedigaethol o dan y rhaglen Mynediad yng nghyd-destun siwrnai hwy tuag at gyflogaeth. Fel y mae gwaith monitro'r prosiect a'r arolwg o'r cyfranogwyr wedi'i ddangos, nid yw cefnogaeth y rhaglen Mynediad yn arwain at ganlyniadau cyflogaeth byrdymor yn achos nifer sylweddol o unigolion. Mae'n bwysig edrych ar ychwanegedd yr ymyriad i unigolion nad ydynt wedi symud i gyflogaeth ar ôl cael eu cefnogi.
- 6.22 Ceiri rhywfaint o dystiolaeth o ychwanegedd hyd yn oed i unigolion nad ydynt wedi cael canlyniadau cyflogaeth o ganlyniad i'r ymyriad. Yn ystod y cyfweiliadau manwl, gofynnwyd i'r cyfranogwyr nad oedd wedi cael gwaith am fanteision y cwrs; dywedodd pob un o'r 16 cyfranogwr a ddywedodd nad oeddent mewn gwaith eu bod wedi elwa o gymryd rhan yn y rhaglen. Fel arfer, ennill cymhwyster oedd y budd hwn, a hwnnw'n angenrheidiol yn yr yrfa o'u dewis, ac/neu roeddent wedi datblygu sgiliau meddal, yn enwedig meithrin hyder a hunanhyder, a hynny wedi arwain at deimlad bod cyfranogwyr yn fwy cyflogadwy.

- 6.23 Yn y cyfweiliadau â chynghorwyr Gyrfa Cymru, roedd teimlad bod y rhaglen Mynediad yn newid ymddygiad cyfranogwyr, gan eu hannog i feddwl yn holistaidd ac yn rhagweithiol am eu siwrnai i gyflogaeth. I gynghorwyr Gyrfa Cymru, dyma brif werth ychwanegol cymryd rhan yn y rhaglen.
- 6.24 Boed y cyfranogwyr wedi cael gwaith neu beidio ar ôl cymryd rhan yn y rhaglen Mynediad, dywedodd yr holl gyfranogwyr a gafodd gyfweiliad manwl, ynghyd â mwyafrif helaeth yr ymatebwyr i'r arolwg, fod y rhaglen wedi bod yn fuddiol. Fel rhan o'r arolwg, gofynnwyd i ymatebwyr i ba raddau'r oeddent yn fwy tebygol o ddod o hyd i waith ar ôl dilyn cwrs hyfforddi gyda chymorth y rhaglen Mynediad. Roedd yr ymatebwyr yn teimlo'n gadarnhaol am effaith y cwrs arnynt, gyda mwyafrif yr ymatebwyr yn dweud eu bod yn 'llawer mwy tebygol' o ddod o hyd i waith o ganlyniad i gael eu cefnogi.

Ffigur 6.7: Barn y cyfranogwyr am effaith Cymorth Hyfforddiant Galwedigaethol ar ganlyniadau cyflogaeth

Yn eich barn chi, i ba raddau'r ydych chi'n fwy tebygol o gael swydd nawr eich bod wedi cael eich cefnogi drwy'r rhaglen Mynediad? Rhowch sgôr ar raddfa o 0 i 4, gyda 4 yn golygu ei bod yn llawer mwy tebygol, a 0 yn golygu nad yw'n fwy tebygol o gwbl



Sylfaen= 33 Ffynhonnell: Arolwg o'r cyfranogwyr

- 6.25 Yn y cyfweiliadau dilynol, gofynnwyd i'r cyfranogwyr nad oedd wedi bod yn llwyddiannus wrth gael gwaith pam eu bod yn teimlo'u bod yn fwy cyflogadwy o ganlyniad i'r ymyriad. Yn y rhan fwyaf o'r achosion, dywedodd y cyfranogwyr eu bod wedi ennill cymhwyster sy'n angenrheidiol yn yr yrfa o'u dewis, neu eu bod wedi datblygu sgiliau meddal, yn enwedig meithrin hyder a hunanhyder, a hynny wedi arwain at deimlad eu bod yn fwy cyflogadwy o ganlyniad i'r ymyriad.

'Mae cwblhau'r cwrs wedi fy ngwneud yn llawer mwy hyderus a brwd i barhau â fy addysg. Rwyf wedi cofrestru i ddilyn cwrs y mae'r brifysgol yn ei ariannu er mwyn cael swydd uwch yn y maes gweinyddol yn y GIG. Drwy gwblhau'r ddau gymhwyster, rwy'n credu y byddaf yn llawer mwy cyflogadwy yn y dyfodol.'
(Cyfweiliad manwl â chyfranogwr, 2019)

'Mae cwblhau'r cwrs a chael cymhwyster Prince 2 wedi rhoi hyder imi yn fy ngallu fy hun ac wedi rhoi modd imi ddangos i gyflogwyr bod gen i'r sgiliau i wneud swydd rheoli prosiect, ac roeddwn yn credu y byddai hyn yn fy ngwneud yn fwy cyflogadwy.' (Cyfweiliad manwl â chyfranogwr, 2019)

Ychwanegedd yr Ymyriad ar gyfer Busnesau a Gynorthwywyd

- 6.1 Gan adlewyrchu'r ffaith mai'n weddol anaml y defnyddiwyd y Cymorth Recriwtio i Gyflogwyr, gyda 36 o geisiadau Cymorth Recriwtio i Gyflogwyr yn unig yn cael eu cymeradwyo erbyn mis Mehefin 2019, rhan gymharol gyfyngedig o'r gwerthusiad oedd ymgysylltu â'r cyflogwyr. Cynhaliwyd cyfweiliadau manwl â phump o gyflogwyr a ddefnyddiodd y cymorth. Mae maint bach y sampl hon yn golygu bod angen bod yn ofalus wrth ymdrin a chanfyddiadau'r rhan hon o'r adroddiad.
- 6.2 Busnesau bach a chanolig neu microfusnesau oedd pob un o'r busnesau a gymerodd rhan yn y cyfweiliadau manwl.²³ Gan nad yw'r gwerthusiad wedi cynnwys busnesau a fyddai wedi bod yn gymwys i dderbyn cymorth drwy raglen Mynediad ond na wnaeth ei ddefnyddio, nid yw'n bosibl canfod i ba raddau y cyrhaeddodd yr ymyriad fusnesau a fyddai wedi creu swyddi drwy'r ymyriad petaent yn ymwybodol ohono.
- 6.3 Ar sail y cyfweiliadau â'r cyflogwyr a oedd wedi defnyddio'r cymorth, mae rhywfaint o dystiolaeth gyfyngedig o ychwanegedd yn sgil yr ymyriad. Yn benodol, meddai rhai cyflogwyr iddynt recriwtio'n gynharach, neu mewn niferoedd mwy, yn sgil y ffaith bod cymorth ar gael drwy raglen Mynediad. Y rheswm am hyn yw bod y Cymorth Recriwtio i Gyflogwyr drwy raglen Mynediad wedi cael effaith drwy leihau'r risg gychwynnol o gyflogi staff.
- 6.4 Yn hyn o beth, y mae rhywfaint o ychwanegedd wrth roi i fusnesau a gynorthwywyd yr hyder i recriwtio'n gynharach neu mewn niferoedd mwy nag a wnelent fel arall. Meddai dau gyflogwr y bu modd iddynt recriwtio lle na fyddent o

²³ Fan hyn, mae busnesau bach a chanolig – yn unol ag Argymhelliad 2003/361 yr Undeb Ewropeaidd – wedi'u diffinio fel busnesau sydd â llai na 250 o gyflogeion, ac mae microfusnesau wedi'u diffinio fel mentrau sydd â llai na 10 o gyflogeion a throsiant blyneddol o lai na €2m.

bosibl wedi gwneud hynny fel arall, ac y bu i hynny fanteision i'r busnes yn y tymor hwy.

'Roedd yr ochr ariannol yn allweddol i ni fel busnes am iddo gymryd rhywfaint o'r pwysau oddi arnom, ac roedd hefyd yn rhoi lle inni anadlu. Rydym wedi gallu tyfu cryn dipyn wedi i'r cyflogeion newydd ymuno gan iddo olygu y gallai mwy o deledu cylch cyfyng gael ei fonitro. Bu'n gadarnhaol iawn.' (Cyfweiliad â busnes a gynorthwywyd, 2019).

- 6.5 Yr un pryd, mae'n debygol bod rhywfaint o ddifuddiant o'r ymyriad. Meddai mwyafrif y rhai a gyfwelwyd (tri) y byddent yn sicr o fod wedi recriwtio beth bynnag, heb fod cymorth ar gael drwy raglen Mynediad. Ni ddwedodd yr un cyflogwr iddynt wrthod ymgeiswyr cymwys eraill yn sgil y cymorth a oedd ar gael drwy raglen Mynediad, er mewn rhai achosion – lle y daeth asiantaethau eraill ag ymgeiswyr i sylw'r cyflogwyr – ni gychwynnwyd ar y prosesau recriwtio lle y byddent fel arall. Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu bod rhywfaint o ddifuddiant o agwedd Cymorth Recriwtio i Gyflogwyr yr ymyriad.
- 6.6 Lle bu gan Gyrfa Cymru neu'r Ganolfan Byd Gwaith swyddogaeth froceru, meddai'r cyflogwyr y gwnaeth hyn hwyluso'r recriwtio yn sylweddol. Mae'n debygol bod hyn yn gysylltiedig â'r ffaith bod recriwtio yn fwy o fwrn i fusnesau bach a chanolig a microfusnesau nag i gwmnïau mwy sydd â swyddogaethau recriwtio penodol. Yn ôl y cyfweiliadau â'r busnesau a gynorthwywyd, arweiniwyd y broses yn gyffredinol wrth i'r busnesau gysylltu â Gyrfa Cymru ynglŷn â'r angen i recriwtio sgiliau penodol. Mewn rhai achosion, cyfeiriwyd busnesau gan y Ganolfan Byd Gwaith at Gyrfa Cymru i siarad am raglen Mynediad.
- 6.7 Mae'r cyfweiliadau â'r busnesau a gynorthwywyd yn awgrymu bod y Cymorth Hyfforddi i Gyflogwyr, lle y cafodd ei ddefnyddio, wedi darparu gwerth ychwanegol, gan ganiatáu i'r sawl sy'n ei dderbyn gyfrannu ar lefel uwch nag a fyddai'n bosibl iddynt fel arall. Fodd bynnag, meddai cyflogwyr eraill nad oeddynt yn ymwybodol bod y Cymorth Hyfforddiant i Gyflogwyr ar gael, ac ni ddwedodd yr un cyflogwr y byddent wedi bod yn amharod i gyflogi ymgeisydd heb fod y cymorth hwn ar gael. Er bod y canfyddiadau hyn yn seiliedig ar sampl fach o gyfweiliadau'n unig, ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, mae'n debygol y bu rhywfaint o ddifuddiant o elfen y Cymorth Hyfforddiant i Gyflogwyr o'r ymyriad.

7. Casgliadau ac Argymhellion

- 7.1 Mae'r adran hon yn edrych ar yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad gwerthuso er mwyn llunio casgliadau am ba mor llwyddiannus oedd y rhaglen Mynediad rhwng mis Hydref 2017 a mis Mawrth 2019.

Crynodeb o'r casgliadau

- 7.2 Ac ystyried bod y samplau a ddefnyddiwyd fel rhan o'r gwerthusiad hwn yn gymharol fychan, ac nad oes data cadarn am ganlyniadau a fyddai'n golygu bod modd monitro cyfranogwyr yn hydredol, dim ond casgliadau cyfyngedig y gall y gwerthusiad hwn eu llunio. Yn yr un modd, mae'n rhaid bod yn ofalus wrth drin y casgliadau a geir fan hyn. Mae'r gwerthusiad o'r broses wedi awgrymu bod teimlad cyffredinol bod y rhaglen yn cael ei rhedeg yn dda. Mae ymwneud Gyrfa Cymru â'r rhaglen yn ased o bwys wrth ei rhoi ar waith. Mae'r cyfweiliadau â rhanddeiliaid yn dangos bod teimlad bod ymwneud Gyrfa Cymru â'r rhaglen wedi ychwanegu gwerth ati drwy roi gwybodaeth am y farchnad lafur leol a phwynt cyswllt i ymgeiswyr. Yn yr un modd, ceir teimlad bod y gallu i roi cefnogaeth drwy'r rhaglen Mynediad yn ychwanegu gwerth at yr hyn y gall Gyrfa Cymru ei gynnig i gleientiaid.
- 7.3 Ceir rhywfaint o dystiolaeth bod y rhaglen wedi cael effaith ar ganlyniadau cyflogaeth i gyfranogwyr. Fodd bynnag, mae'r asesiad hwn wedi'i seilio ar ddata ansoddol a gasglwyd gan gyfranogwyr, cynghorwyr Gyrfa Cymru, a busnesau, ac nid yw wedi cynnwys gwaith monitro hydredol hirdymor na gwaith gwrthffeithiol cadarn wedi'i seilio ar ganlyniadau.
- 7.4 O ran amcanion y rhaglen, sef yn benodol cefnogi ymrwymiad ehangach Llywodraeth Cymru i ailgynllunio'r gefnogaeth ym maes cyflogadwyedd i unigolion sydd bron yn barod am swyddi drwy eu helpu i feithrin sgiliau a phrofiad a fydd yn arwain yr unigolion hynny i gael gwaith cynaliadwy ac i aros yn y gwaith hwnnw, gellir casglu bod y rhaglen wedi cyfrannu at yr amcan hwn. Fodd bynnag, ni fu'n bosibl meintoli'n union beth fu'r cyfraniad hwnnw.
- 7.5 Yn yr un modd, ceir dystiolaeth bod y rhaglen wedi cyfrannu at dargedau Llywodraeth Cymru i helpu 7,000 o bobl i gael gwaith yn ardal Tasglu'r Cymoedd. Drachefn, ni fu'n bosibl meintoli i ba raddau y mae'r rhaglen wedi cyfrannu at y targed hwn.

Gwerthuso'r Broses

- 7.6 Mae'r gwerthusiad wedi canfod bod y cyfranogwyr a rhanddeiliaid allweddol yn teimlo'n gyffredinol bod y broses o roi'r rhaglen ar waith wedi bod yn llwyddiannus. Ceir teimlad bod natur y rhaglen, sydd wedi'i seilio ar y model a ddefnyddiwyd i ddarparu ReAct, wedi hwyluso'r broses o'i rhoi ar waith.
- 7.7 Mae'r ddarpariaeth amlasiantaethol rhwng Llywodraeth Cymru a Gyrfa Cymru wedi bod yn un o'r prif resymau dros lwyddiant y rhaglen. Mae Gyrfa Cymru yn ychwanegu gwerth at y rhaglen drwy fod yn bwynt cyswllt i unigolion a busnesau. Yn yr un modd, mae'r wybodaeth am y farchnad lafur leol sy'n cael ei rhoi gan Gyrfa Cymru wedi ychwanegu gwerth sylweddol, gan roi cyngor a chyfarwyddyd i gyfranogwyr a'r rheini wedi'u teilwra i gyd-fynd â natur y farchnad lafur leol. Ceir teimlad hefyd bod y rhaglen wedi ychwanegu gwerth at yr hyn y mae Gyrfa Cymru'n ei gynnig, yn enwedig drwy ysgogi pobl i ymwneud â'r gwasanaeth cyngor a chyfarwyddyd y mae'n ei roi.
- 7.8 Mae cyfraniad Gyrfa Cymru hefyd yn ychwanegu gwerth at y rhaglen drwy hidlo ceisiadau anaddas yn gynnar yn y broses. Mae hyn yn debygol o leihau'r baich rheoli a'r baich gweinyddol ar Lywodraeth Cymru – baich a fyddai'n deillio o orfod delio â cheisiadau anaddas neu anghymwys.
- 7.9 Roedd y cyfranogwyr ar y cyfan yn fodlon â'r modd yr oedd y rhaglen yn cael ei darparu, er i rai problemau gael eu crybwyll yn yr arolwg o'r cyfranogwyr ynghylch y meini prawf ar gyfer bod yn gymwys i fynd ar gyrsiau. Roedd y pryderon hyn yn ymwneud â chyrsiau nad oedd yn cael eu hariannu gan y rhaglen, naill ai oherwydd eu bod yn rhy gostus neu oherwydd eu bod yn cael eu darparu ar-lein.

Gwerthuso'r Effaith

- 7.10 Fel rhan o'r gwaith gwerthuso, ceisiwyd asesu'r ychwanegedd a ddeilliodd o'r ymyriad. O'r 1400 a wnaeth gais i'r rhaglen, mae data monitro'r prosiect yn dangos y bu canlyniadau cadarnhaol i 359 o unigolion.
- 7.11 Er nad oedd yn bosibl cynnal asesiad gwrthffeithiol cadarn o ganlyniadau'r cyfranogwyr yn y gwerthusiad hwn, yn sgil prinder amser a'r data a oedd ar gael, mae'r cyfweiliadau â'r cyfranogwyr yn rhoi rhywfaint o dystiolaeth bod pobl yn teimlo bod y gefnogaeth a oedd ar gael wedi rhoi ychwanegedd.

- 7.12 Mae'r cyfweiliadau â'r cyfranogwyr a chynghorwyr Gyrfu Cymru yn awgrymu bod pobl yn teimlo mai'r Cymorth Hyfforddiant Galwedigaethol, sef tua 90% o weithgarwch y rhaglen, a gafodd yr effaith fwyaf sylweddol ar ganlyniadau cyflogaeth i unigolion.
- 7.13 Pwysleisiodd cynghorwyr Gyrfu Cymru fod y gefnogaeth sydd ar gael drwy'r rhaglen Mynediad yn rhan o siwrnai hwy i gyflogaeth. Mae tystiolaeth o ddata monitro'r rhaglen a'r arolwg o'r cyfranogwyr yn cyd-fynd â'r asesiad hwn, gan awgrymu nad yw'r ymyriad wedi arwain at ganlyniadau cyflogaeth i nifer o'r cyfranogwyr. Ar ôl cael eu cefnogi gan y rhaglen Mynediad, mae'n rhaid i unigolion ddod o hyd i swyddi ac ymgeisio amdanynt. Serch hynny, mewn nifer o achosion, nid yw'r cymhwyster a enillwyd drwy'r rhaglen Mynediad ynddo'i hun wedi bod yn ddigon i helpu'r unigolyn i gael gwaith.
- 7.14 Er nad yw'r elfennau hyn wedi'u defnyddio'n helaeth, ceir rhywfaint o dystiolaeth bod y cymorth recriwtio i gyflogwyr a'r cymorth hyfforddiant i gyflogwyr wedi helpu i arwain at ganlyniadau cyflogaeth mewn rhai achosion. Mae'r cyfweiliadau â'r busnesau hefyd yn awgrymu bod pobl yn teimlo bod y rhaglen o fudd i fusnesau, gan fod y Cymorth Recriwtio i Gyflogwyr wedi lleihau'r risg i fusnesau bach a chanolig eu maint a microfusnesau wrth gyflogi pobl, tra bo'r Cymorth Hyfforddiant i Gyflogwyr wedi galluogi'r unigolion a recriwtiwyd i weithio ar lefel uwch nag a fyddai wedi bod yn bosibl fel arall.

Argymhellion

- 7.15 **Argymhelliad Un:** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Gyrfu Cymru a phartneriaid eraill (er enghraifft Busnes Cymru) er mwyn dod o hyd i ffyrdd i roi gwybod i fusnesau lleol am gyfranogwyr sy'n gymwys o dan y rhaglen Mynediad. Mae'n ymddangos bod diffyg ymwybyddiaeth yn gryn rwystr i fusnesau rhag defnyddio'r Cymorth Recriwtio i Gyflogwyr, a gallai hyn ysgogi mwy o fusnesau i ddefnyddio'r ffrwd gefnogaeth hon.
- 7.16 **Argymhelliad Dau:** Mae diffyg system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid wedi achosi problemau i'r rhaglen Mynediad. Er nad oes tystiolaeth bod hyn wedi dylanwadu'n negyddol ar gyfranogwyr y rhaglen Mynediad, mae wedi effeithio'n negyddol ar y gwaith o reoli a gweinyddu'r rhaglen. Mae'n bwysig cael adnoddau o'r fath er mwyn i'r rhaglen weithio'n iawn, ac mae i hyn hefyd effeithiau dilynol wrth olrhain canlyniadau a gwneud gwaith monitro a gwerthuso. Dylai Llywodraeth Cymru

geisio datblygu system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid ar gyfer unrhyw raglenni sy'n olyn hon.

- 7.17 **Argymhelliad Tri:** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried creu system fwy cynhwysfawr i gasglu data ar gyfer monitro, yn enwedig wrth olrhain y canlyniadau i gyfranogwyr. Byddai hyn yn golygu bod modd cynnal asesiadau hydredol mwy effeithiol o gyfranogwyr y rhaglen Mynediad a'r math o ganlyniadau maent wedi'u cael. Byddai hefyd yn golygu bod modd edrych yn fanylach ar ba gyrsiau a chymwysterau sy'n effeithiol wrth sicrhau canlyniadau cyflogaeth.
- 7.18 **Argymhelliad Pedwar:** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried dull o roi cefnogaeth sy'n rhoi sylw i rwystrau o ran sgiliau a chyflogadwyedd ochr yn ochr â rhwystrau eraill i gyflogaeth. Hyd yn oed mewn sefyllfaoedd lle bu canlyniadau cyflogaeth i gyfranogwyr, mae data o'r arolwg a'r cyfweiliadau manwl yn dangos bod unigolion yn wynebu rhwystrau niferus wrth geisio cael gwaith. Ynghyd â sgiliau a chymwysterau, byddai gwerth mewn ymchwilio i ddulliau o gefnogi pobl ym maes cyflogaeth mewn ffordd sy'n rhoi sylw i rwystrau eraill, fel iechyd meddwl.
- 7.19 **Argymhelliad Pump:** Dywedodd cynghorwyr Gyrfa Cymru eu bod yn ystyried yr ymyriad yn rhan o siwrnai tymor hwy i gyflogaeth, ac mae'r canlyniadau i gyfranogwyr yn dangos nad yw pob cyfranogwr yn cael gwaith o ganlyniad i'r ymyriad. Mae'n bosibl y byddai'n werth i Lywodraeth Cymru ymchwilio i effaith parhau i gefnogi cyfranogwyr unwaith y bydd yr elfen Cymorth Hyfforddiant Galwedigaethol yn y rhaglen wedi'i chwblhau. Gallai hyn helpu i sicrhau nad yw cyfranogwyr yn colli momentwm wrth iddynt ddechrau defnyddio'r sgiliau a'r cymwysterau y bu iddynt eu hennill er mwyn dod o hyd i waith.

Atodiad A: Cwestiynau Gwerthuso Penodol

Amcanion y gwaith gwerthuso oedd:

- Ystyried sut y mae'r rhaglen Mynediad yn gweithio'n ymarferol, h.y. dangos y prif lwyddiannau a'r meysydd i'w datblygu yng nghyd-destun y rhaglen newydd Cymorth Swyddi Cymru a'r gwasanaeth cyngor cyflogaeth, Cymru'n Gweithio;
- Canfod i ba raddau y mae'r rhaglen Mynediad yn cyflawni'r hyn y bwriadai ei gyflawni, h.y. bod unigolion sy'n cael eu cefnogi yn gwella'u sgiliau cyflogadwyedd ac yn cael gwaith cynaliadwy.

Ar sail y cwestiynau gwerthuso penodol hyn, datblygwyd cwestiynau ymchwil manylach er mwyn llywio'r gwaith gwerthuso:

1. Sut y mae'r rhaglen Mynediad yn gweithio'n ymarferol?
 - a. Sut y mae cynghorwyr Gyrfa Cymru yn mynd ati i benderfynu argymhell y rhaglen Mynediad, yn hytrach na darpariaeth arall, i gyfranogwyr?
 - b. A yw cynghorwyr Gyrfa Cymru yn defnyddio gwybodaeth am y farchnad lafur leol, e.e. i ganfod cyfleoedd posibl neu i reoli disgwyliadau ymgeiswyr?
 - c. Sut y mae Gyrfa Cymru'n ymwneud â chyflogwyr a allai fod yn rhan o'r rhaglen?
 - d. Pa elfennau o gefnogaeth sydd wedi arwain at waith?
 - e. A oes unrhyw beth penodol am ardaloedd Tasglu'r Cymoedd sydd wedi dylanwadu ar ba mor effeithiol yw'r rhaglen?
 - f. Beth sy'n gweithio'n dda?
 - Pam?
 - g. Pa heriau a wynebwyd?
 - Sut y rhoddwyd sylw i'r rhain?
2. A yw'r rhaglen Mynediad yn cyflawni'r hyn y bwriadwyd iddi'i gyflawni?
 - a. Pwy sy'n cymryd rhan yn y rhaglen?
 - Y grŵp targed yw oedolion di-waith (18+) sy'n byw yn ardaloedd Tasglu'r Cymoedd²⁴ ac yn brin o brofiad gwaith cyfredol, perthnasol a throsglwyddadwy. Ni ddylent fod yn gymwys i gael ymyriadau drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop, a dylai fod cyfle rhesymol iddynt fod yn barod am waith ymhen chwe mis
 - b. Pwy sydd ddim yn cymryd rhan? Pam?
 - Cyfranogwyr aflwyddiannus
 - Beth yw'r gwahaniaeth rhwng cyfranogwyr y rhaglen Mynediad a'r boblogaeth gyffredinol sy'n chwilio am waith yn ardal Tasglu'r Cymoedd?

²⁴ Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Sir Gâr, Merthyr Tudful, Castell-nedd Port Talbot, Rhondda Cynon Taf, Abertawe, a Thorfaen.

- A oes pobl a fyddai fel arall yn gymwys i gael cefnogaeth ond nad ydynt yn dewis manteisio ar hyn?
- c. Beth yw canlyniadau rhoi'r gefnogaeth hon?
- Cael hyfforddiant
 - Hyd y cwrs
 - Ennill cymwysterau
 - Cael gwaith
 - Aros mewn gwaith
- d. Pa ganlyniadau eraill sydd wedi'u cyflawni?
- Goblygiadau annisgwyl/anfwriadol
- e. Pwy sy'n dychwelyd i'r rhaglen a pham?

Atodiad B: Y Model Rhesymeg a'r Fframwaith Gwerthuso

Rhaglen: Y rhaglen Mynediad

Rhesymeg: Bydd rhoi hyfforddiant galwedigaethol byrdymor yn helpu unigolion sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod sylweddol i fynd yn ôl i weithio.

Nod: Nod y rhaglen Mynediad yw helpu oedolion sy'n ddi-waith ond sy'n weddol agos at y farchnad lafur i gael swyddi ac i aros yn eu swyddi drwy wella'u sgiliau cyflogadwyedd.

MEWNBYNNAU	GWEITHGAREDDAU	CANLYNIADAU		
- Cyd-destun polisi Llywodraeth Cymru, gan gynnwys <i>Ffyniant i Bawb a rhaglen Tasglu'r Cymoedd</i> - Amser staff Llywodraeth Cymru - Buddsoddiad Llywodraeth Cymru - Canfyddiadau ymchwil o werthusiadau blaenorol o gynlluniau cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru - Partneriaid: Gyrfa Cymru a Busnes Cymru	Gwaith partneriaeth rhwng Is-adran Cyflogadwyedd a Sgiliau Llywodraeth Cymru, Busnes Cymru a Gyrfa Cymru. Gwaith gan Gyrfa Cymru i fonitro/casglu gwybodaeth am y farchnad lafur ac i feithrin perthynas gyda chyflogwyr lleol, Canolfannau Gwaith, a chynrychiolwyr rhanbarthol er mwyn canfod y sgiliau y mae eu hangen ar yr economi leol. Cynghorwyr Gyrfa Cymru yn recriwtio cyfranogwyr cymwys ac yn eu helpu i ddod o hyd i gyrsiau hyfforddiant addas. Cynghorwyr Gyrfa Cymru yn datblygu cynllun gweithredu i gyfranogwyr. Cyfeirio at fathau eraill o gefnogaeth sydd ar gael, fel ReAct, Twf Swyddi Cymru a'r Rhaglen Sgiliau Cyflogadwyedd Rhoi'r canlynol i unigolion sy'n cael eu cefnogi: - Grant hyfforddiant galwedigaethol hyd at uchafswm o £1,500 - Cymorth ychwanegol i gael gwared ar y rhwystrau i hyfforddiant galwedigaethol Rhoi'r canlynol i gyflogwyr sy'n cael eu cefnogi: - Cyfraniad o hyd at £3,000 tuag at gyflogau	Allbynnau a chanlyniadau byrdymor	Canlyniadau yn y tymor canolig	Canlyniadau hirdymor
		- Mae cyfranogwyr yn cael eu cyfeirio at fathau eraill o gefnogaeth - Mae cefnogaeth ychwanegol yn helpu pobl i oresgyn rhwystrau i gael hyfforddiant - Mae cyfranogwyr yn cofrestru ar gyrsiau hyfforddiant addas ac yn eu cwblhau	- Canlyniadau meddal i gyfranogwyr, e.e. hyder - Cyfranogwyr yn meithrin sgiliau ac yn ennill cymwysterau sy'n eu gwneud yn fwy cyflogadwy - Cyfranogwyr yn symud i waith cynaliadwy - Cyflogwyr yn cyflogi staff sydd â'r sgiliau angenrheidiol neu'n cyflogi staff na fyddent wedi'u cyflogi fel arall	- Cyfraddau diweithdra is a mwy o ddwysedd swyddi yn ardal Tasglu'r Cymoedd - Gwell gwerth ychwanegol gros yn ardal Tasglu'r Cymoedd wrth i gyflogaeth ysgogi mwy o weithgarwch economaidd a llenwi bylchau mewn sgiliau - Llai o effeithiau cymdeithasol yn sgil diweithdra hirdymor
			CANLYNIADAU MEWNOL i Lywodraeth Cymru a phartneriaid	
			Mae'r hyn a ddysgir o'r rhaglen yn sail i gyflawni cynllun cyflogadwyedd 'Cymru'n Gweithio' a dulliau o roi cefnogaeth ym maes cyflogadwyedd yn y dyfodol	- Gwell dealltwriaeth o sut y mae ymyriadau'n gallu helpu pobl sy'n chwilio am waith - Perthnasau gweithio cryfach rhwng partneriaid, yn ogystal â rhwng Gyrfa Cymru a chyflogwyr lleol

	• Cymorth gyda chostau hyfforddiant, hyd at 50% o ffioedd hyd at £1,000		• Gyrfa Cymru yn ymwneud yn well â chleientiaid	
<i>Rhagdybiaethau</i> • Diffyg sgiliau yw'r rhwystr pennaf sy'n wynebu cyfranogwyr wrth iddynt geisio dod yn rhan o'r farchnad lafur • Mae math a lefel y gefnogaeth sgiliau sy'n cael ei rhoi i gyfranogwyr yn addas i oresgyn y rhwystrau sy'n wynebu'r bobl hyn • Bydd galluogi cyfranogwyr i gael cefnogaeth nifer o weithiau yn arwain at ganlyniadau effeithiol • Ni fyddai modd cael y gefnogaeth sy'n cael ei rhoi drwy'r rhaglen Mynediad mewn llefydd eraill • Nid oes effaith mewn mannau eraill neu golled ddi-fudd yn sgil yr ymyriad • Nid yw'r gefnogaeth yn dyblygu cefnogaeth arall		<i>Ffactorau Allanol</i> • Tueddiadau economaidd ehangach sy'n effeithio ar gyflogaeth yn ardal Tasglu'r Cymoedd • Y rhaglenni cefnogaeth eraill sydd ar gael ym maes cyflogaeth • Newidiadau mewnol yn yr asiantaethau partner		
<i>Rhwysterau posibl</i> • Diffyg diddordeb ymhlith unigolion ac/neu fusnesau yn y gefnogaeth sydd ar gael • Diffyg ymwybyddiaeth ymhlith unigolion ac/neu fusnesau o'r gefnogaeth sydd ar gael • Diffyg darparwyr hyfforddiant addas o ansawdd da • Gwybodaeth wael am y farchnad lafur • Cyngor gwael gan staff Gyrfa Cymru		<i>Galluogwyr</i> • Ymgynghori â rhanddeiliaid, busnesau ac unigolion ynghylch yr angen am gefnogaeth • Ymchwili i ddangos yr angen am gefnogaeth a pha mor addas yw'r gefnogaeth arfaethedig • Marchnata/rhoi cyhoeddusrwydd i'r gefnogaeth sydd ar gael • Hyrwyddo'r rhaglen i ddarparwyr hyfforddiant posibl • Achredu darparwyr hyfforddiant • Casglu/dadansoddi gwybodaeth o ansawdd da am y farchnad lafur • Cyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus i staff Gyrfa Cymru		

Fframwaith Gwerthuso'r Rhaglen Mynediad

Cwestiwn gwerthuso	Safbwynt gwerthuso	Metrigau	Ffynhonnell
I ba raddau y mae darparu hyfforddiant byrdymor yn addas wrth helpu pobl sydd y pellter hwn o'r farchnad lafur i gael gwaith?	Rhesymeg	• Canfyddiadau gwerthusiadau blaenorol o Bolisiâu Marchnad Lafur Weithgar • Canfyddiadau llenyddiaeth academiaidd am Bolisiâu Marchnad Lafur Weithgar	• Adolygu'r llenyddiaeth
Sut y mae'r rhaglen Mynediad yn cyd-fynd â mathau eraill o gefnogaeth sydd ar gael? I ba raddau y mae'n ychwanegu gwerth at y gefnogaeth hon?	Rhesymeg	• Barn rhanddeiliaid allweddol • Barn staff Gyrfa Cymru	• Cyfweiliadau â rhanddeiliaid • Cyfweiliadau â staff Gyrfa Cymru

Gweithgareddau:

Cwestiwn gwerthuso	Safbwynt gwerthuso	Metrigau	Ffynhonnell
Pa mor effeithiol yw'r gwaith partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, Gyrfa Cymru a Busnes Cymru?	Proses	• Barn staff Llywodraeth Cymru • Barn staff Gyrfa Cymru • Barn staff Busnes Cymru	• Cyfweiliadau â rhanddeiliaid
Pa mor llwyddiannus fu staff Gyrfa Cymru wrth ganfod a recriwtio cyfranogwyr addas i'r rhaglen?	Proses	• Nifer y cyfranogwyr a recriwtiwyd i'r rhaglen • Cyfran yr ymholiadau sy'n arwain at geisiadau • Nifer y ceisiadau a ddaw i law sy'n cael eu gwrthod	• Data monitro
Pa mor effeithiol fu staff Gyrfa Cymru wrth fonitro gwybodaeth am y farchnad lafur a bylchau mewn sgiliau er mwyn canfod cyrsiau hyfforddiant addas i ymgeiswyr, a'r cyrsiau hynny'n ateb y galw yn rhanbarthol?	Proses	• Barn staff Gyrfa Cymru • Barn cyflogwyr • Barn rhanddeiliaid	• Cyfweiliadau â staff Gyrfa Cymru • Cyfweiliadau â chyflogwyr • Cyfweiliadau â rhanddeiliaid
Pa mor llwyddiannus fu'r rhaglen wrth gyfeirio cyfranogwyr at gynlluniau cefnogi perthnasol eraill (yn enwedig cynlluniau o dan Gronfa Gymdeithasol Ewrop)?	Proses	• Nifer yr ymgeiswyr a gyfeiriwyd at gynlluniau eraill • Nifer yr ymgeiswyr a gyfeiriwyd gan gynlluniau eraill at y rhaglen Mynediad • Barn cynghorwyr Gyrfa Cymru	• Data monitro'r rhaglen • Cyfweiliadau â staff Gyrfa Cymru

Allbynnau a chanlyniadau byrdymor:

Cwestiwn gwerthuso	Safbwynt gwerthuso	Metrigau	Ffynhonnell
Pa mor llwyddiannus fu'r gefnogaeth ychwanegol wrth helpu unigolion sy'n cael eu cefnogi i oresgyn rhwystrau i gael hyfforddiant?	Canlyniadau	- Nifer y cyfranogwyr sy'n defnyddio'r gefnogaeth ychwanegol - Barn cyfranogwyr am ba mor effeithiol fu'r gefnogaeth - Barn staff Gyrfa Cymru am ba mor effeithiol fu'r gefnogaeth	- Data monitro'r rhaglen - Arolwg o'r cyfranogwyr - Cyfweliadau manwl â chyfranogwyr - Cyfweliadau â staff Gyrfa Cymru
A yw'r unigolion sy'n cael eu cefnogi wedi cofrestru ar gyrsiau ac wedi cymryd rhan mewn cyrsiau?	Canlyniadau	- Nifer y cyfranogwyr sy'n cofrestru ar gyrsiau hyfforddiant - Y nifer sy'n cwblhau cyrsiau hyfforddiant	Data monitro'r rhaglen
I ba raddau y mae cyfranogwyr wedi meithrin sgiliau/ennill cymwysterau perthnasol?	Canlyniadau	- Nifer y cymwysterau a enillwyd - Barn cyfranogwyr am ba mor addas yw sgiliau/cymwysterau - Barn staff Gyrfa Cymru am ba mor addas yw sgiliau/cymwysterau	- Data monitro'r rhaglen - Arolwg o'r cyfranogwyr - Cyfweliadau manwl â chyfranogwyr

Canlyniadau yn y tymor canolig:

Cwestiwn gwerthuso	Safbwynt gwerthuso	Metrigau	Ffynhonnell
I ba raddau y mae cymryd rhan yn y gweithgareddau sydd ar gael drwy'r rhaglen Mynediad – fel cyrsiau hyfforddiant neu gyflogaeth – wedi arwain at ganlyniadau meddal i gyfranogwyr, e.e. mwy o hyder?	Canlyniadau	- Nifer y cyfranogwyr sy'n sôn am ganlyniadau meddal sy'n deillio o'r gefnogaeth²⁵ - Barn cyfranogwyr am ganlyniadau meddal - Barn staff Gyrfa Cymru am ganlyniadau meddal	- Arolwg o'r cyfranogwyr - Cyfweliadau manwl â chyfranogwyr - Cyfweliadau â staff Gyrfa Cymru

²⁵ Yn ymarferol, byddai hyn yn cael ei fesur drwy nifer y cyfranogwyr sy'n dweud eu bod yn fwy hyderus o ganlyniad i'r gefnogaeth a gawsant drwy'r rhaglen Mynediad.

Pa mor llwyddiannus fu'r rhaglen Mynediad wrth helpu cyfranogwyr i symud i waith cynaliadwy?	Canlyniadau	- Nifer y cyfranogwyr mewn gwaith chwe mis ar ôl cwblhau cwrs hyfforddiant - Barn cyfranogwyr am sut y gwnaeth y rhaglen Mynediad eu helpu i symud i waith cynaliadwy - Barn staff Gyrfa Cymru am sut y gwnaeth y rhaglen Mynediad helpu cyfranogwyr i symud i waith cynaliadwy	- Data monitro'r rhaglen - Cyfweliadau manwl â chyfranogwyr - Cyfweliadau â Gyrfa Cymru
I ba raddau y mae'r rhaglen Mynediad wedi helpu cyflogwyr i recriwtio staff sydd â'r sgiliau angenrheidiol?	Canlyniadau	- Barn cyflogwyr am sut y mae'r rhaglen Mynediad wedi helpu i roi'r sgiliau angenrheidiol i ymgeiswyr - Barn cyflogwyr am sut y mae'r rhaglen Mynediad wedi helpu i roi sgiliau o ansawdd uwch i staff na'r sgiliau a fyddai ar gael fel arfer - Barn cyflogwyr ynghylch a yw staff wedi cael eu cyflogi pan na fyddent wedi cael eu cyflogi fel arall	Cyfweliadau manwl â chyflogwyr
I ba raddau y mae busnesau wedi creu swyddi/gwaith pan na fyddent wedi gwneud hynny fel arall?	Canlyniadau	Barn cyflogwyr ynghylch a fyddai staff sy'n cael eu cefnogi gan y rhaglen Mynediad wedi cael eu cyflogi fel arall	Cyfweliadau manwl â chyflogwyr
I ba raddau y mae cyflogwyr wedi rhoi hyfforddiant ychwanegol ac/neu well hyfforddiant i staff o ganlyniad i'r gefnogaeth sydd ar gael drwy'r rhaglen Mynediad?	Canlyniadau	Barn cyflogwyr ynghylch a fyddai'r hyfforddiant sydd ar gael i staff sy'n cael eu cefnogi drwy'r rhaglen Mynediad wedi cael ei roi fel arall	Cyfweliadau manwl â chyflogwyr
I ba raddau, ac ym mha ffyrdd, y mae'r hyn a ddysgwyd o'r rhaglen Mynediad wedi bod yn sail i bolisi Cymru'n Gweithio a dulliau rhanbarthol o roi cefnogaeth ym maes cyflogadwyedd yn y dyfodol?	Canlyniadau	- Barn cynghorwyr Gyrfa Cymru ynghylch a oes modd gweithio mewn partneriaeth yn well - Barn rhanddeiliaid ynghylch a oes modd gweithio mewn partneriaeth yn well	- Cyfweliadau â staff Gyrfa Cymru - Cyfweliadau â rhanddeiliaid
I ba raddau y mae rhoi cefnogaeth drwy'r rhaglen Mynediad wedi helpu Gyrfa Cymru i wella'r modd y mae'n ymwneud â chleientiaid?	Canlyniadau	- Barn cynghorwyr Gyrfa Cymru ynghylch yr effaith ar waith ymgysylltu â chleientiaid - Barn cyfranogwyr ynghylch yr effaith ar sut y maent yn ymwneud â Gyrfa Cymru	- Cyfweliadau â staff Gyrfa Cymru - Arolwg o'r cyfranogwyr - Cyfweliadau manwl â chyfranogwyr

Canlyniadau hirdymor:

Ni fydd y canlyniadau hirdymor hyn yn cael sylw yn y gwerthusiad hwn. Maent wedi'u cynnwys yma i ddangos y math o effaith y byddai rhywun yn disgwyl ei gweld o ganlyniad i'r gweithgareddau a'r canlyniadau a geir yn y model rhesymeg.

Cwestiwn gwerthuso	Safbwynt gwerthuso	Metrigau	Ffynhonnell
I ba raddau y mae'r rhaglen Mynediad wedi helpu i leihau cyfraddau diweithdra ac anweithgarwch economaidd yn ardal Tasglu'r Cymoedd?	Effaith	(Gostyngiad mewn) cyfraddau diweithdra ac anweithgarwch economaidd yn ardal Tasglu'r Cymoedd (Cynnydd mewn) cyfraddau cyflogaeth yn ardal Tasglu'r Cymoedd: (Gostyngiad mewn) cyfraddau anweithgarwch economaidd yn ardal Tasglu'r Cymoedd	Arolwg Cenedlaethol o'r Boblogaeth, y Swyddfa Ystadegau Gwladol
Pa mor llwyddiannus fu'r rhaglen Mynediad wrth gynyddu gwell gwerth ychwanegol gros yn ardal Tasglu'r Cymoedd wrth i gyflogaeth ysgogi mwy o weithgarwch economaidd a llenwi bylchau mewn sgiliau?	Effaith	(Cynnydd mewn) gwerth ychwanegol gros yn ardal Tasglu'r Cymoedd	Cyfrifiadau o werth ychwanegol gros yn ardal Tasglu'r Cymoedd
I ba raddau y mae effeithiau cymdeithasol diweithdra hirdymor wedi'u lleihau o ganlyniad i'r rhaglen Mynediad?	Effaith	- Cyfran y plant mewn aelwydydd heb waith yn ardal Tasglu'r Cymoedd (gostyngiad yn y gyfran hon) - Cyfran y plant mewn aelwydydd heb waith hirdymor yn ardal Tasglu'r Cymoedd (gostyngiad yn y gyfran hon)	Arolwg Cenedlaethol o'r Boblogaeth, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Rhagdybiaethau profi a natur y rhaglen:

Cwestiwn gwerthuso	Safbwynt gwerthuso	Metrigau	Ffynhonnell
Ymhlith grŵp targed y rhaglen Mynediad, i ba raddau y gellir dweud mai sgiliau yw'r prif rwystr wrth geisio cael gwaith?	Natur y rhaglen	- Nifer y cyfranogwyr mewn gwaith chwe mis ar ôl gadael y rhaglen - Nifer y cyfranogwyr a oedd yn ddi-waith ac a oedd yn economaidd anweithgar chwe mis ar ôl gadael y rhaglen - Barn staff Gyrfa Cymru - Barn cyfranogwyr	- Data monitro'r rhaglen - Cyfweliadau â staff Gyrfa Cymru - Arolwg o'r cyfranogwyr - Cyfweliadau manwl â chyfranogwyr
Pa mor addas yw pob un o'r ffrydiau cefnogaeth penodol wrth helpu pobl i oresgyn y rhwystrau sgiliau hyn? - Cymorth Recriwtio i Gyflogwyr - Cymorth Hyfforddiant i Gyflogwyr - Cymorth Hyfforddiant Galwedigaethol	Natur y rhaglen	- Nifer y cyfranogwyr sy'n defnyddio pob math gwahanol o gefnogaeth - Gwerth pob math o gefnogaeth a ddefnyddir - Barn cyfranogwyr ynghylch pa mor addas yw'r gefnogaeth	- Data monitro'r rhaglen - Arolwg o'r cyfranogwyr - Cyfweliadau manwl â chyfranogwyr

I ba raddau y mae'n briodol i gyfranogwyr allu cael cefnogaeth nifer o weithiau?	Natur y rhaglen	• Nifer y cyfranogwyr sy'n gwneud cais am gefnogaeth nifer o weithiau • Canlyniadau cyflogaeth i'r rheini sy'n ymgeisio fwy nag unwaith • Barn cyfranogwyr • Barn staff Gyrfa Cymru	• Data monitro'r rhaglen • Arolwg o'r cyfranogwyr • Cyfweiliadau manwl â chyfranogwyr • Cyfweiliadau â staff Gyrfa Cymru
I ba raddau y mae'r rhaglen wedi disodli elfennau eraill/wedi cynnwys colled ddi-fudd?	Natur y rhaglen	• Gwrthffeithiau a hunanaseswyd gan gyflogwyr • Gwrthffeithiau a hunanaseswyd gan gyfranogwyr	• Cyfweiliadau â chyflogwyr • Arolwg o'r cyfranogwyr • Cyfweiliadau manwl â chyfranogwyr

Cwestiynau gwerthuso ychwanegol a ddatblygwyd wrth gwmpasu:

Cwestiynau gwerthuso	Safbwynt gwerthuso	Metrigau	Ffynhonnell
I ba raddau – a pham – y bu gwahaniaethau rhwng y rhywiau wrth iddynt ymwneud â'r rhaglen?	Amherthnasol	- Nifer y cyfranogwyr yn ôl rhywedd sy'n defnyddio pob math gwahanol o gefnogaeth - Gwahaniaethau o ran y mathau o hyfforddiant a gafwyd yn ôl rhywedd - Barn cyfranogwyr yn ôl rhywedd ynghylch y rhwystrau i gymryd rhan - Barn y cyfranogwyr yn ôl rhywedd am ba mor addas yw'r gefnogaeth - Barn staff Gyrfa Cymru ynghylch yr hyn sy'n ysgogi pobl i gymryd rhan, yn ôl rhywedd	- Data monitro'r rhaglen - Arolwg o'r cyfranogwyr - Cyfweliadau manwl â chyfranogwyr - Cyfweliadau â staff Gyrfa Cymru
I ba raddau – a pham – y bu gwahaniaethau rhwng gwahanol ardaloedd wrth i bobl ymwneud â'r rhaglen (ardaloedd canolfannau gyrfaedd ac ardaloedd awdurdodau lleol)	Amherthnasol	- Nifer y cyfranogwyr sy'n cael eu cyfeirio at y rhaglen yn ôl ardaloedd canolfannau gyrfaedd; - Gwahaniaethau o ran y mathau o hyfforddiant a gafwyd yn ôl ardaloedd canolfannau gyrfaedd - Gwahaniaethau ym marn staff Gyrfa Cymru ynghylch yr hyn sy'n ysgogi pobl i gymryd rhan, yn ôl ardaloedd canolfannau gyrfaedd - Gwahaniaethau ym marn cyfranogwyr ynghylch yr hyn sy'n ysgogi pobl i gymryd rhan, yn ôl ardaloedd canolfannau gyrfaedd	- Data monitro'r rhaglen - Arolwg o'r cyfranogwyr - Cyfweliadau manwl â chyfranogwyr - Cyfweliadau â staff Gyrfa Cymru
Beth yw'r prif bethau sy'n ysgogi pobl i ymwneud â'r rhaglen, a beth, os o gwbl, fu'r prif alluogwyr er mwyn i bobl gymryd rhan?	Amherthnasol	- Barn cyfranogwyr ynghylch pam y bu iddynt ymwneud â'r rhaglen - Barn cyfranogwyr ynghylch a yw'r gefnogaeth flaenorol a gafwyd wedi galluogi pobl i gymryd rhan yn y rhaglen Mynediad - Barn staff Gyrfa Cymru ynghylch a yw'r gefnogaeth a roddwyd wedi galluogi pobl i gymryd rhan yn y rhaglen Mynediad	- Arolwg o'r cyfranogwyr - Cyfweliadau manwl â chyfranogwyr - Cyfweliadau â staff Gyrfa Cymru

Atodiad C: Adnoddau Ymchwil

Arolwg o'r Cyfranogwyr

1. **Ydych chi'n hapus i barhau â'r arolwg?** Cofiwch fod gennych chi hawl i roi'r gorau i lenwi'r holiadur unrhyw bryd os byddwch chi'n penderfynu nad ydych chi eisiau bwrw ymlaen.

Ydw

Nac

ydw

2. **I gadarnhau, ydych chi wedi cael eich cefnogi drwy raglen Mynediad Llywodraeth Cymru?**

Rhaglen gefnogi yw Mynediad sy'n rhoi grantiau ar gyfer hyfforddiant galwedigaethol er mwyn helpu cyfranogwyr yng Nghymoedd y De i ddiweddarau'u sgiliau a gwella'u cyfleoedd i gael gwaith. Mae'r cyfranogwyr yn cael grant o hyd at £1,500 i gael hyfforddiant, *ac/neu* bydd cyflogwyr yn cael cymhorthdal o hyd at £3,000 fel cyfraniad at gyflogau yn ystod blwyddyn gyntaf y gweithiwr yn ei swydd newydd.

Do

Naddo - diolch

Yn anffodus, mae'n rhaid ichi fod wedi cael eich cefnogi drwy raglen Mynediad Llywodraeth Cymru er mwyn cymryd rhan yn yr arolwg hwn. Diolch am eich amser. I adael yr arolwg hwn, fe allwch chi gau'r tab hwn yn eich porwr.

Eich sefyllfa bresennol:

3. **Pa un o'r canlynol sy'n adlewyrchu eich sefyllfa chi orau ar hyn o bryd?**

Dewiswch un

Cyflogedig (gan gynnwys gan aelod o'r teulu a hunangyflogedig) neu'n dilyn prentisiaeth

Di-waith ac yn chwilio am waith

Mewn addysg a hyfforddiant

Gweithio mewn swydd wirfoddol, swydd ddi-dâl, neu interniaeth

Ddim mewn gwaith a ddim yn chwilio am waith (er enghraifft, yn edrych ar ôl plant neu berthnasau, neu wedi ymddeol)

Arall

4. Pawb sy'n nodi eu bod yn gyflogedig Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau'r sector rydych chi'n gweithio ynddo?

Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota

Mwyngloddiau, chwareli a chyfleustodau

Gweithgynhyrchu

Adeiladu

Busnesau ceir

Cyfanwerthu

Manwerthu

Trafnidiaeth a storio

Llety a gwasanaethau bwyd

Gwybodaeth a chyfathrebu

Cyllid ac yswiriant

Eiddo

Proffesiynol, gwyddonol a thechnegol

Gweinyddu busnes a gwasanaethau cefnogi

Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn

Addysg

Iechyd

Y celfyddydau, adloniant, hamdden a gwasanaethau eraill

5. Beth yw teitl eich swydd?

[Blwch testun]

6. Ar gyfartaledd, sawl awr y diwrnod rydych chi'n eu gweithio?

[Blwch testun]

7. A allwch chi ddweud beth yn fras yw eich cyflog gros, gan gynnwys unrhyw daliadau am oramser, bonysau, comisiynau a childyrnau, ond CYN unrhyw ddiidyniadau am dreth, yswiriant cenedlaethol, cyfraniadau pensiwn ac ati?

Fe allwch chi roi ffigwr ar gyfer blwyddyn, mis neu wythnos. Ond dim ond un sy'n rhaid ichi ei roi – does dim angen ichi roi'r ffigurau ar gyfer blwyddyn, mis ac wythnos ill tri.

Blynnyddol - Misol - Wythnosol

12a. Blynnyddol

Llai na £2,000	£15,000 - £17,999
£2,000 - £3,999	£18,000 - £20,999
£4,000 - £4,759	£21,000 - £23,999
£4,760 - £5,999	£24,000 - £26,999
£6,000 - £7,999	£27,000 - £29,999
£8,000 - £9,999	£30,000+
£10,000 - £11,999	Ddim yn gwybod
£12,000 - £14,999	Ddim eisiau dweud

12b. Misol

Llai na £166	£1,250 - £1,499
£166 - £333	£1,500 - £1,749
£334 - £396	£1,750 - £1,999
£397 - £499	£2,000 - £2,249
£500 - £666	£2,250 - £2,499
£667 - £832	£2,500+
£833 - £999	Ddim yn gwybod
£1,000 - £1,249	Ddim eisiau dweud

12c. Wythnosol

Llai na £38	£193 - £230
£38 - £76	£231 - £289
£77 - £91	£290 - £346
£72 - £114	£347 - £403
£115 - £153	£404 - £461
£154 - £192	£462 - £519
£520 - £577	£578+
Ddim yn gwybod	Ddim eisiau dweud

8. **Pawb sy'n dweud nad ydynt mewn gwaith nac yn chwilio am waith gyda chyflog**

Os nad ydych chi'n chwilio am waith, a yw hynny oherwydd un o'r rhesymau hyn? Dewiswch bob un sy'n berthnasol

Gofalu am y teulu, y cartref neu ddibynyddion

Problemau iechyd neu anaf dros dro

Problemau iechyd hirdymor neu'n anabl

Wedi ymddeol Yn gwneud gwaith gwirfoddol di-dâl

Ddim angen nac eisiau gwaith

Ddim yn chwilio am waith gan nad oes swyddi ar gael

Ddim eisiau dweud

Arall, nodwch

9. **Pawb sy'n dweud nad ydynt mewn gwaith nac yn chwilio am waith gyda chyflog**

Pa un o'r rhain, os o gwbl, sy'n ei gwneud yn anodd ichi ddod o hyd i waith gyda chyflog ar hyn o bryd? Dewiswch bob un sy'n berthnasol

Heb y cymwysterau iawn

Heb y sgiliau iawn

Heb brofiad gwaith perthnasol

Ddim yn gallu fforddio gofal plant

Bod â chyfrifoldebau gofalu

Problemau iechyd

Eich oedran

Dibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau

Bod â chofnod troseddol

Dim swyddi addas lle'r ydych chi'n byw

Yn anodd cael gwaith addas

Ddim ond am weithio'n rhan amser

Yn credu na fydddech chi ar eich ennill yn ariannol drwy weithio

Rhywbeth arall

Ddim yn gwybod

Dim o'r rhain

Gwneud cais i'r rhaglen Mynediad:

- 10. Pawb Cyn ichi wneud cais am gefnogaeth drwy'r rhaglen Mynediad, oeddech chi'n chwilio am swydd?**

Oeddwn

Nac oeddwn

Ddim yn siŵr

- 11. Pawb a ddywedodd nad oeddent yn y cwestiwn diwethaf: Pam nad oeddech chi'n chwilio am swydd?**

Gofalu am y teulu, y cartref neu ddibynyddion

Problemau iechyd neu anaf dros dro

Problemau iechyd hirdymor neu'n anabl

Yn gwneud gwaith gwirfoddol di-dâl

Ddim angen nac eisiau gwaith

Ddim yn chwilio am waith gan nad oedd swyddi ar gael

Ddim eisiau dweud

Arall

Ddim yn siŵr

Arall, nodwch

[Blwch testun]

- 12. Gan feddwl am y cyfnod cyn ichi gael cefnogaeth drwy raglen Mynediad Llywodraeth Cymru, o ble arall gawsoch chi gymorth i chwilio am swydd?**

Y Ganolfan Byd Gwaith

Gyrfa Cymru

Arall

- 12a. Arall, nodwch**

[Blwch testun]

13. Sut y clywsoch chi gyntaf am y rhaglen Mynediad? [Dewiswch un yn unig]

Cynghorydd Gyrfa Cymru

Gwefan Busnes Cymru

Y Ganolfan Byd Gwaith

Ddim yn gwybod

Ffrind neu aelod o'r teulu

Arall

Gwefan Gyrfa Cymru

13a. Pawb a atebodd y cwestiwn blaenorol drwy ddweud 'arall' Nodwch sut y clywsoch chi gyntaf am y rhaglen Mynediad

[Blwch testun]

14. Beth oedd eich rheswm dros ddefnyddio'r gefnogaeth sydd ar gael drwy'r rhaglen Mynediad? [Aml-ddewis]

Meithrin sgiliau newydd er mwyn imi gallu cael swydd

Meithrin sgiliau newydd er mwyn imi allu cael swydd benodol neu swydd mewn sector penodol

Symud o waith rhan amser i waith amser llawn

Dysgu sgil penodol neu ennill cymhwyster

Dyma'r cyngor a gefais gan Gyrfa Cymru

Arall

14a. Arall, nodwch

[Blwch testun]

15. Pa elfennau o'r gefnogaeth sydd ar gael drwy'r rhaglen Mynediad rydych chi wedi'u defnyddio? Dewiswch bob un sy'n berthnasol

CYMORTH HYFFORDDIANT GALWEDIGAETHOL (h.y. Talodd Llywodraeth Cymru ichi gael hyfforddiant **cyn** ichi ddechrau mewn swydd newydd)

CYMORTH RECRIWTIO I GYFLOGWYR (h.y. Rhoddodd Llywodraeth Cymru grant i'ch cyflogwr newydd i'w helpu i dalu eich cyflog yn y flwyddyn gyntaf)

CYMORTH HYFFORDDIANT I GYFLOGWYR (h.y. Talodd Llywodraeth Cymru ichi gael rhywfaint o hyfforddiant **ar ôl** ichi ddechrau mewn swydd newydd)

Cwestiynau am y ffrydiau cefnogaeth penodol:

- 16. Pawb a ddewisodd Cymorth Hyfforddiant Galwedigaethol** Hoffem wybod ychydig am ba gwrs neu gyrsiau y bu ichi'u dilyn gyda chymorth y rhaglen Mynediad.

A allwch chi roi disgrifiad byr o'r hyfforddiant a gawsoch?

[Blwch testun]

- 17. Pawb a ddewisodd Cymorth Hyfforddiant Galwedigaethol Pa mor bwysig oedd cyngor eich cynghorydd Gyrfa Cymru wrth ichi ddewis pa gwrs i'w ddilyn?**
Rhowch sgôr ar raddfa o 0 i 4, gyda 4 yn golygu ei fod yn bwysig iawn, a 0 yn golygu nad oedd yn bwysig o gwbl.

- 18. Pawb a ddewisodd Cymorth Hyfforddiant Galwedigaethol A wnaethoch chi ddefnyddio unrhyw gymorth ariannol ychwanegol a oedd ar gael i'ch helpu i fynd ar y cwrs y talwyd amdano drwy'r Cymorth Hyfforddiant Galwedigaethol (e.e. cymorth i dalu am ofal plant neu gostau trafnidiaeth)**

Do

Naddo

Ddim yn siŵr

- 19. Pawb ddewisodd Do i gwestiwn 18 Ar gyfer beth y cawsoch chi gymorth ychwanegol?**

[Blwch testun]

- 20. Pawb a ddewisodd Do i gwestiwn 18.** Pe na byddech chi wedi cael y cymorth ychwanegol hwn, pa mor debygol yw y byddech chi wedi dilyn y cwrs hyfforddi?
Rhowch sgôr ar raddfa o 0 i 4, gyda 0 yn golygu nad yw'n debygol o gwbl, a 4 yn golygu tebygol iawn.

21. Pawb a ddewisodd naddo i gwestiwn 18 Rydych chi wedi dweud na wnaethoch chi ddefnyddio unrhyw gefnogaeth ariannol ychwanegol i fynd ar eich cwrs. Pam hynny? Dewiswch bob un sy'n berthnasol.

Doedd dim angen cefnogaeth ychwanegol arnaf

Doeddwn i ddim yn gwybod bod gen i hawl i gael cefnogaeth ychwanegol

Cafodd fy nghais ei wrthod

Arall

Ddim yn siŵr [Does dim modd dewis hwn gyda'r lleill]

21a. Pawb a ddewisodd Arall i gwestiwn 21 Nodwch

[Blwch testun]

22. Pawb a ddewisodd Cymorth Recriwtio i Gyflogwyr Pa mor debygol yw y byddech chi yn eich swydd bresennol pe na byddech chi wedi elwa o'r Cymorth Recriwtio i Gyflogwyr?

Tebygol iawn

Gweddol debygol

Gweddol annhebygol

Ddim yn debygol o gwbl

23. Pawb a ddewisodd Cymorth Recriwtio i Gyflogwyr Fe hoffem glywed am yr hyfforddiant a roddodd eich cyflogwr ichi ar ôl ichi ddechrau yn eich swydd newydd. Rhowch ddisgrifiad byr o'r hyfforddiant a roddodd eich cyflogwr ichi.

[Blwch testun]

24. Pawb a ddewisodd Cymorth Recriwtio i Gyflogwyr Hyd y gwyddoch chi, a fyddai'r hyfforddiant hwn wedi cael ei roi pe bai'r Cymorth Recriwtio i Gyflogwyr wedi bod ar gael?

Byddai

Na fyddai

Ddim yn siŵr/ddim yn cofio

25. Pawb a ddewisodd Cymorth Recriwtio i Gyflogwyr Yn eich barn chi, a fydddech chi wedi cael y swydd hon pe na bai'r Cymorth Recriwtio i Gyflogwyr wedi bod ar gael?

Byddwn

Na fyddwn

Ddim yn siŵr/ddim yn cofio

26. Pawb na ddewisodd Cymorth Recriwtio i Gyflogwyr ond sydd mewn gwaith A oedd unrhyw reswm pam na wnaethoch chi ddefnyddio'r Cymorth Recriwtio i Gyflogwyr o dan y rhaglen Mynediad (h.y. Llywodraeth Cymru yn rhoi grant i'ch cyflogwr newydd i'w helpu i dalu eich cyflog yn y flwyddyn gyntaf)? Ticiwch bob un sy'n berthnasol.

Doeddwn i ddim yn gwybod bod y cymorth hwn ar gael

Doeddwn i ddim yn teimlo bod angen y cymorth hwn arnaf

Doedd fy nghyflogwr ddim eisiau defnyddio'r cymorth hwn

Doedd fy nghyflogwr ddim yn gymwys i gael y cymorth hwn

Cafodd y cais ei wrthod

Rheswm arall

26a. Arall, nodwch

[Blwch testun]

Effeithiau:

27. Yn gyffredinol, gan ystyried yr holl gefnogaeth a gawsoch chi drwy'r rhaglen Mynediad, pa mor fodlon ydych chi â'r gefnogaeth hon?

Bodlon iawn

Gweddol fodlon

Gweddol anfodlon

Anfodlon iawn

27a. Esboniwch eich ateb.

[Blwch testun]

28. Pawb sydd mewn gwaith Pa mor debygol yw y byddech yn y swydd hon pe na baech chi wedi cael cefnogaeth drwy'r rhaglen Mynediad? Rhowch sgôr ar raddfa o 0 i 4, gyda 4 yn golygu ei bod yn debygol iawn, a 0 yn golygu nad yw'n debygol o gwbl.

Rhowch atebion i'r cwestiynau sy'n berthnasol i'r mathau o gefnogaeth a roddwyd

Cymorth Hyfforddiant Galwedigaethol

Cymorth Recriwtio i Gyflogwyr

Cymorth Hyfforddiant i Gyflogwyr

29. Pawb sydd mewn gwaith Faint, o gwbl, a gyfrannodd y pethau canlynol yn eich barn chi wrth ddod o hyd i waith? Rhowch sgôr ar raddfa o 0 i 4, gyda 4 yn golygu llawer iawn, a 0 yn golygu dim o gwbl.

Y cymhwyster y bu chi'i ennill gyda chymorth y rhaglen Mynediad

Y sgiliau y bu ichi'u dysgu ar y cwrs a ariannwyd drwy'r rhaglen Mynediad

Gwybodaeth gan Gyrfa Cymru am sgiliau a chymwysterau

30. Pawb nad ydynt mewn gwaith ar hyn o bryd Yn eich barn chi, i ba raddau'r ydych chi'n fwy tebygol o gael swydd nawr eich bod wedi cael eich cefnogi drwy'r rhaglen Mynediad? Rhowch sgôr ar raddfa o 0 i 4, gyda 4 yn golygu ei bod yn llawer mwy tebygol, a 0 yn golygu nad yw'n fwy tebygol o gwbl.

Barn gyffredinol am y rhaglen Mynediad:

31. Pa mor debygol ydych chi o argymell y rhaglen Mynediad i ffrind neu aelod o'r teulu? Rhowch sgôr ar raddfa o 0 i 10, gyda 0 yn golygu nad yw'n debygol o gwbl, a 10 yn golygu tebygol iawn.

Amdanoch chi:

Hoffem wybod mwy am y bobl sydd wedi defnyddio'r gefnogaeth sydd ar gael drwy'r rhaglen Mynediad. Ni fyddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i ganfod pwy ydych chi.

[Noder nad oes yn rhaid rhoi'r atebion hyn, felly bydd y cyfranogwyr yn gallu hepgor cwestiwn os yw'n well ganddynt beidio ag ateb. Mae modd ychwanegu 'byddai'n well gen i beidio â dweud' mewn blychau os yw'r cleient yn dewis hynny]

32. Beth yw eich oedran?

[Blwch testun]

33. Yn ardal pa awdurdod lleol rydych chi'n byw?

Blaenau Gwent	Castell-nedd Port Talbot
Pen-y-bont ar Ogwr	Rhondda Cynon Taf
Caerffili	Abertawe
Sir Gâr	Torfaen
Merthyr Tudful	

34. Sut ydych chi'n eich diffinio'ch hun?

Gwryw	Mewn ffordd arall
Benyw	

35. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio eich grŵp ethnig orau?

Cymreig
Prydeinig Arall
Gwyddelig
Unrhyw gefndir gwyn arall (NODWCH)
Gwyn a Du Caribiaidd
Gwyn a Du Affricanaidd
Gwyn ac Asiaidd
Unrhyw gefndir cymysg arall (NODWCH)
Indiaidd
Pacistanaidd
Bangladeshaid
Tsieineaidd
Unrhyw gefndir Asiaidd arall (NODWCH)
Caribiaidd
Affricanaidd
Unrhyw gefndir Du arall (NODWCH)
Arabaid
Sipsi / Romani / Teithiwr Gwyddelig
Arall (NODWCH)
Byddai'n well gennyf beidio â dweud

Cwestiwn 35a Unrhyw gefndir gwyn arall, nodwch

Cwestiwn 35b Unrhyw gefndir cymysg arall, nodwch

Cwestiwn 35c Unrhyw gefndir Asiaidd arall, nodwch

Cwestiwn 35d Unrhyw gefndir Du arall, nodwch

Cwestiwn 35e Unrhyw gefndir arall, nodwch

36. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau eich gallu i siarad Cymraeg?

Rwy'n siaradwr Cymraeg rhugl

Fe fedraf siarad tipyn go lew o

Gymraeg

Dim ond ychydig o Gymraeg y gallaf
ei siarad

Fe allaf siarad ambell air

Nid wyf yn siarad Cymraeg o gwbl

Cyfweliadau manwl â chyfranogwyr

Cwestiynau ar gyfer trafod

1. I ddechrau'r drafodaeth, eglurwch beth oeddech chi'n ei wneud cyn dechrau ymwneud â'r rhaglen Mynediad?

Awgrymiadau'r cyfwelydd:

A oeddent yn chwilio am waith?

Os oeddent yn gweithio, beth oeddent yn ei wneud?

Ers pa mor hir oeddent wedi bod yn gwneud hyn?

2. Cyn ichi ddechrau cael eich cefnogi gan y rhaglen Mynediad, beth oedd y prif rwysrau oedd yn eich wynebu ac yn eich atal rhag dod o hyd i waith?

Awgrymiadau:

Ceisio canfod ai prinder sgiliau oedd y rhwystr pennaf i gael gwaith, ac i ba raddau os hynny?

Profiad (diweddar)?

Cwestiynau ar gyfer trafod:

3. Eglurwch rywfaint am eich sefyllfa bresennol. Yn benodol, beth yw eich statws cyflogaeth presennol?

4. Os ydych chi'n gyflogedig: A allwch chi egluro rhywfaint am eich swydd?

Awgrymiadau:

Beth yw teitl eich swydd?

Ym mha sector rydych chi'n gweithio?

Sawl awr yr wythnos rydych chi'n eu gweithio? A yw hyn yn amrywio?

Ar ôl ichi gael cefnogaeth drwy'r rhaglen Mynediad, pa mor gyflym wedyn y cawsoch chi'r swydd hon?

- 4(a): Os ydych chi'n gyflogedig: Ai dyma'r unig swydd rydych chi wedi'i chael ers cael cefnogaeth gan y rhaglen Mynediad?

Os na, holwch i ddeall pa swydd neu swyddi eraill y maent wedi'u gwneud ers cael cefnogaeth drwy'r rhaglen Mynediad. Ceisiwch fapio siwrnai'r sawl sy'n cael ei gyfweld.

5. Os nad ydynt yn gweithio o gwbl yng Nghwestiwn 3: Soniwch am beth rydych chi'n ei wneud ar hyn o bryd.

Awgrymiadau:

Ydych chi'n chwilio am waith?

Beth sy'n ei gwneud hi'n anodd ichi ddod o hyd i waith? Ai dyma'r un rhwystrau â'r rhwystrau roeddech chi'n eu hwynebu cyn cael cefnogaeth drwy'r rhaglen Mynediad?

Am ba fath o waith rydych chi'n chwilio?

Pa fath o gefnogaeth rydych chi'n ei chael?

A fyddai mathau eraill o gefnogaeth yn ddefnyddiol wrth geisio cael swydd?

- 5(a): Os nad ydynt yn gweithio: Ydych chi wedi bod yn gwneud unrhyw beth gwahanol ers ichi gael cefnogaeth gan y rhaglen Mynediad? Er enghraifft, a oedd gennych chi swydd am gyfnod?

Os ydynt, holwch i ddeall pa swydd neu swyddi eraill y maent wedi'u gwneud ers cael cefnogaeth drwy'r rhaglen Mynediad. Ceisiwch fapio siwrnai'r sawl sy'n cael ei gyfweld.

Nawr, rwyf eisiau gofyn ambell gwestiwn am y gefnogaeth a gawsoch drwy'r rhaglen Mynediad:

6. A allwch chi sôn ychydig am y gefnogaeth a gawsoch chi drwy'r rhaglen Mynediad?

Awgrymiadau:

A gawsoch chi gymorth hyfforddiant galwedigaethol (grant i fynd ar gwrs hyfforddi)?

A gafodd eich cyflogwr gymhorthdal tuag at eich cyflog er mwyn rhoi gwaith ichi?

A gawsoch chi gymorth hyfforddiant i gyflogwyr (arian i fynd ar gwrs hyfforddi ar ôl dechrau yn eich swydd newydd)?

A gawsoch chi gefnogaeth ychwanegol (e.e. arian i dalu am drafnidiaeth, gofal plant ac ati) drwy'r rhaglen Mynediad?

7. Sut ddaethoch chi i wybod am y gefnogaeth a oedd ar gael ichi drwy'r rhaglen Mynediad?

Awgrymiadau:

Pwy a ddywedodd wrthyf chi am y gefnogaeth? Gyrfa Cymru? Y Ganolfan Byd Gwaith? Rhywun arall?

8. Beth oedd eich barn pan glywsoch chi gyntaf am y gefnogaeth a oedd ar gael ichi drwy'r rhaglen Mynediad?
9. Beth oedd eich prif gymhelliad dros ddefnyddio'r gefnogaeth y gallai'r rhaglen Mynediad ei rhoi?

Awgrym:

Ai dim ond cael swydd oedd y cymhelliad? Ynteu a oedd yr ymatebwyr yn defnyddio hyn yn gyfle i gael hyfforddiant roeddent wastad wedi dymuno'i gael? Os oedd sawl cymhelliad, beth oedd y prif un?

10. A oedd gennych chi unrhyw amheuan neu bryderon am ddefnyddio'r rhaglen Mynediad?
11. Beth, os o gwbl, oedd y dewisiadau eraill y bu ichi'u hystyried wrth benderfynu a fydddech chi'n defnyddio'r gefnogaeth y gallai'r rhaglen Mynediad ei rhoi?

Awgrym:

Pam y gwnaethoch chi benderfynu mai'r rhaglen Mynediad oedd yr opsiwn gorau i chi?

12. Soniwch ychydig mwy am y cwrs hyfforddi y bu ichi fynd arno gyda chefnogaeth y rhaglen Mynediad...

Awgrymiadau:

Pam y bu ichi ddewis y cwrs hwn? Ai dim ond cael swydd oedd y nod, ynteu a oedd rheswm ehangach na hynny? Cysylltu â'r ymateb i gwestiynau blaenorol.

Oeddech chi wedi ystyried gwneud y cwrs hwn cynt?

13. A allwch chi ddweud ychydig bach mwy am y cyngor a gawsoch chi gan Gyrfa Cymru ynghylch pa gwrs hyfforddi i'w ddilyn?

Awgrymiadau:

Pa mor bwysig oedd pob elfen o'r cyngor a'r cyfarwyddyd?

Pa elfen oedd yr un bwysicaf?

14. Pa fath o gyngor, os o gwbl, ydych chi wedi'i gael am y farchnad swyddi yn yr ardal leol, am y math o swyddi sydd ar gael yn yr ardal leol, a'r math o weithwyr y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt?

Awgrymiadau:

Ble ac/neu gan bwy y cawsoch chi'r cyngor hwnnw?

15. Gan edrych yn ôl, pa mor dda oedd y cyngor a gawsoch chi?

Awgrymiadau: gofynnwch i'r ymatebwr roi sgôr i'r gwahanol fathau o gyngor a grybwyllwyd yn yr ymatebion i'r cwestiynau blaenorol. Pa gyngor oedd y mwyaf gwerthfawr, a pham?

16. A oedd y math o hyfforddiant roeddech chi'i eisiau ar gael?

Awgrymiadau:

Pwnc yr hyfforddiant, lleoliad, hyd, iaith – gofynnwch yn benodol a oeddent yn awyddus i ddilyn yr hyfforddiant yn Gymraeg, ac os hynny, a fu hynny'n bosibl.

17. Pa gyrsiau hyfforddi eraill, os o gwbl, wnaethoch chi eu hystyried, a pham y bu ichi wneud y penderfyniad a wnaethoch?

Effaith:

18. Sut wnaethoch chi elwa, os o gwbl, o'r gefnogaeth a gawsoch chi drwy'r rhaglen Mynediad?

Awgrymwch fanteision y tu hwnt i ddod o hyd i swydd: Os ydynt yn dal i gael hyfforddiant, awgrymwch fanteision y gallent fod eisoes wedi'u profi, a rhagor o fanteision disgwyledig. Os ydynt wedi elwa o hyfforddiant galwedigaethol a chymorth i gyflogwyr, pa un oedd bwysicaf a pham?

19. Mae gennym ddiddordeb mewn gwybod *pam* rydych chi'n credu eich bod wedi elwa yn y ffordd hon.

Awgrymiadau:

Felly, er enghraifft, os yw'r ymatebwr yn dweud iddo gael swydd, pa elfen neu elfennau o'r gefnogaeth a gawsant drwy'r rhaglen Mynediad a arweiniodd at hynny? Ai'r hyfforddiant? Ai'r cyngor? Ai oherwydd eu bod yn fwy hyderus o ganlyniad i'r cyngor a gawsant? A wnaeth yr hyfforddiant dicio blwch a oedd yn angenrheidiol er mwyn cael y swydd?

20. [Os oedd nifer o fanteision] Pa un o'r manteision oedd y pwysicaf? Pa un wnaeth y gwahaniaeth mwyaf i chi a pham?

Ceisiwch ganfod a fyddai'r fantais a gawsant drwy'r rhaglen Mynediad wedi digwydd beth bynnag – sut y mae'r rhaglen Mynediad wedi ychwanegu gwerth at y mathau eraill o gefnogaeth a gawsant?

21. Fel rhan o'ch swydd, sut ydych chi wedi defnyddio unrhyw sgiliau neu alluoedd newydd a ddatblygwyd drwy'r hyfforddiant a gawsoch?

Awgrym: A allwch chi roi unrhyw enghreifftiau o sut ydych chi wedi defnyddio sgiliau newydd yn y gwaith? Pa mor dda fydddech chi wedi gallu gwneud y swydd pe na baech chi wedi dysgu'r sgiliau/galluoedd newydd hyn?

Os nad ydych chi wedi defnyddio sgiliau – pam hynny?

22. Sut, os o gwbl, y mae pobl eraill yn eich bywyd wedi elwa o ganlyniad i'r gefnogaeth a gawsoch chi? Ffrindiau, teulu ac ati.

Awgrym: beth fu'r effeithiau dilynol ar ôl ichi gael cefnogaeth drwy'r rhaglen Mynediad?

23. Beth, os o gwbl, fyddai'n wahanol am eich sefyllfa heddiw pe na baech chi wedi cael cefnogaeth drwy'r rhaglen Mynediad?

Ceisiwch ganfod a fyddai'r manteision a gawsant o'r rhaglen Mynediad wedi digwydd beth bynnag, GAN GYFEIRIO YN ÔL AT YR OPSIYNAU ERAILL A GRYBWYLLWYD YN YSTOD EICH TRAFODAETH. Yn benodol, a fyddent mewn gwaith heb gefnogaeth y rhaglen Mynediad? A fyddent yn yr un swydd heb gefnogaeth y rhaglen Mynediad?

24. A oedd y gefnogaeth a gawsoch chi drwy'r rhaglen Mynediad yn cyd-fynd â'ch disgwyliadau? Os oedd, pam? Os nad oedd, pam hynny?

25. Sut, os o gwbl, y gellid gwella'r gefnogaeth a gawsoch drwy'r rhaglen Mynediad?

26. A oes unrhyw beth arall y bydddech chi'n hoffi ei ddweud am y rhaglen Mynediad a'ch profiad ohoni?

Cyfweliadau manwl â Gyrfa Cymru

1. I ddechrau, cyflwynwch eich hun a'ch swydd yn Gyrfa Cymru.
2. Beth yw eich gwaith mewn perthynas â'r rhaglen Mynediad?
3. Yn ardal pa awdurdod lleol rydych chi'n gweithio'n bennaf?

Y Rhaglen Mynediad:

4. Beth yw eich dealltwriaeth o'r rhaglen Mynediad?
 - A. Pa mor gryf yw'r rhesymeg hon yn eich barn chi?
5. I ba raddau y mae'r gefnogaeth sydd ar gael drwy'r rhaglen Mynediad yn ychwanegu gwerth at y mathau eraill o gefnogaeth a allai fod ar gael i grŵp targed y rhaglen hon?
 - A. Esboniwch eich ateb i'r cwestiwn diwethaf.
6. I bobl sydd wedi bod yn ddi-waith am lai na dwy flynedd, beth oedd y prif rwystrau wrth geisio dod o hyd i waith ac aros mewn gwaith?
 - A. Pa mor sylweddol yw'r rhwystrau o ran sgiliau o'u cymharu â'r rhwystrau eraill y mae pobl yn eu hwynebu wrth geisio dod o hyd i waith ac aros mewn gwaith?
7. Yn fras, faint o unigolion ydych chi wedi'u cyfeirio at gefnogaeth y rhaglen Mynediad dros y chwe mis diwethaf?
8. Pa ffactorau y mae'n rhaid ichi eu hystyried wrth benderfynu a fyddwch chi'n cyfeirio rhywun at gefnogaeth y rhaglen Mynediad neu beidio?
 - A. Pa fath o bethau fyddai'n golygu bod cleient yn anaddas i gael cefnogaeth drwy'r rhaglen Mynediad?
 - B. Sut ydych chi'n casglu ac yn dadansoddi Gwybodaeth am y Farchnad Lafur er mwyn cynghori cyfranogwyr ynghylch pa gwrs i'w ddilyn? A oes gennych chi ddigon o wybodaeth i roi cyngor i gleientiaid?
9. Os oes modd ichi roi sylw, ai'r cleientiaid eu hunain sy'n bennaf gyfrifol am ofyn am y gefnogaeth, ynteu ai rhywbeth sy'n cael ei argymhell gennych chi fel cynghorydd Gyrfa Cymru yw hyn?

10. I ba raddau y bu gwahaniaethau rhwng y rhywiau o ran eu hymwneud â'r rhaglen Mynediad?

A. Os bu gwahaniaethau, a oes barn gennych ynghylch pam fod y gwahaniaethau hyn i'w gweld?

11. Sut ydych chi'n rheoli disgwyliadau cleientiaid o ran y gefnogaeth maent yn ei chael drwy'r rhaglen Mynediad?

12. I ba raddau ydych chi'n trafod y gefnogaeth sydd ar gael drwy'r rhaglen Mynediad, ac eithrio'r cymorth i gael hyfforddiant? Hynny yw, y gefnogaeth ychwanegol i gael gwared ar rwystrau, Cymorth Recriwtio i Gyflogwyr, ac ati.

Effaith y Rhaglen Mynediad:

13. Gan feddwl am yr unigolion rydych chi wedi'u cyfeirio at y rhaglen Mynediad, pa gyfran o'r unigolion hyn sydd wedi dod o hyd i waith ystyrlon ac wedi aros yn y gwaith hwnnw?

A. A oes gennych chi unrhyw straeon penodol am bobl yn llwyddo?

14. Pa mor bwysig yw pob un o'r 'adnoddau' canlynol o ran cyflawni prif amcanion y rhaglen Mynediad [er hwylustod, cefnogi oedolion di-waith i gael gwaith ac aros mewn gwaith drwy wella'u sgiliau cyflogadwyedd, a rhoi'r sgiliau angenrheidiol i'r unigolion dan sylw i gael gwaith cynaliadwy]?

A. rhoi gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd cyffredinol

B. grant hyfforddiant galwedigaethol

C. grant cymorth ychwanegol

D. grantiau cymorth i gyflogwyr (ar gyfer cyflogau a hyfforddiant)

E. unrhyw beth arall?

15. Yn fras, pa gyfran o'r unigolion rydych chi wedi'u cyfeirio at y rhaglen Mynediad a fyddai wedi dod o hyd i ryw fath o waith boed wedi cael cefnogaeth drwy'r rhaglen Mynediad neu beidio? Mae'n rhaid pwysleisio fan hyn nad oes ateb cywir neu anghywir; hoffem gael barn onest yr ymarferwyr am hyn.

A. Esboniwch eich ateb uchod.

16. Yn fras, pa gyfran o'r unigolion rydych chi wedi'u cyfeirio at y rhaglen Mynediad a fyddai wedi dod o hyd i waith ar yr un lefel/gwaith o'r un ansawdd boed wedi cael cefnogaeth drwy'r rhaglen Mynediad neu beidio? Mae'n rhaid pwysleisio fan hyn nad oes ateb cywir neu anghywir; hoffem gael barn onest yr ymarferwyr am hyn.

A. Esboniwch eich ateb uchod.

Gorffen:

17. Pa newidiadau, os o gwbl, y byddech chi'n hoffi eu gweld i'r rhaglen Mynediad (a beth fyddai effaith y newidiadau hyn)?

18. I gloi, a oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach yr hoffech chi eu gwneud am y materion a drafodwyd yn yr holiadur hwn neu unrhyw fater arall sy'n ymwneud â'r rhaglen Mynediad?

Cyfweliadau Manwl â Chyflogwyr

Cwestiynau ar gyfer trafod

DDIM I'W HANFON I'R SAWL SY'N CAEL EI GYFWELD YMLAEN LLAW

1. I ddechrau'r drafodaeth, a allwch chi sôn ychydig mwy am eich busnes, y gwasanaethau rydych chi'n eu cynnig neu'ch cynnyrch, nifer y gweithwyr ac ati.

2. Sut y gwnaethoch chi glywed gyntaf am y rhaglen Mynediad?

3. Beth oedd eich barn pan glywsoch chi gyntaf am y rhaglen Mynediad?

Awgrym: A oeddech chi'n synnu bod y gefnogaeth hon ar gael? A oeddech chi'n falch bod y gefnogaeth hon ar gael?

4. A gawsoch chi unrhyw gyngor neu gyfarwyddyd am y rhaglen Mynediad? Ble gawsoch chi'r cyngor/cyfarwyddyd hwn? Pa mor ddefnyddiol oedd hyn?

Awgrym: Tîm rhaglen Mynediad Llywodraeth Cymru? Gyrfa Cymru? Rhywun arall? Pam oedd y cyngor yn ddefnyddiol/pam nad oedd yn ddefnyddiol? Os nad oedd yn defnyddiol – a fydddech chi wedi hoffi cael unrhyw fath penodol o gyngor?

5. Beth oedd y prif bethau y bu ichi'u hystyried wrth benderfynu a fydddech chi'n gwneud cais am gefnogaeth drwy'r rhaglen Mynediad?

Y cyfwelydd: Ceisiwch holi am unrhyw rwystrau penodol wrth wneud cais a sut y cafodd y rhain eu goresgyn.

6. Pa opsiynau eraill, os o gwbl, a oedd ar gael ichi ar y pryd a pham y gwnaethoch chi'r penderfyniad a wnaethoch?

Awgrymiadau: A wnaethoch chi ystyried unrhyw fathau eraill o gefnogaeth? Er enghraifft, ReAct, Twf Swyddi Cymru. A wnaethoch chi ystyried peidio â recriwtio?

7. Faint o weithwyr rydych chi wedi'u recriwtio drwy'r Cymorth Recriwtio i Gyflogwyr o dan y rhaglen Mynediad?

8. Faint o'r gweithwyr hyn sy'n dal i fod gyda'r cwmni heddiw?

Holwch, os nad yw gweithwyr yn dal gyda'r cwmni: am ba mor hir y bu iddynt aros? Pam nad ydynt gyda'r cwmni erbyn hyn?

BLOC A: CWESTIYNAU AM Y CYMORTH RECRIWTIO I GYFLOGWYR

Y cyfwelydd: Nodwch, bydd pawb sy'n cael ei gyfweld wedi cael Cymorth Recriwtio i Gyflogwyr.

9. Yn gyffredinol, sut fydddech chi'n disgrifio agwedd eich cwmni at recriwtio staff newydd?

Awgrymiadau: A yw hyn yn digwydd yn rheolaidd yn y busnes? Pam/pam ddim?

Ceisiwch ganfod, er enghraifft, a yw recriwtio rheolaidd yn deillio o dwf neu o drosiant staff uchel? Ynteu ai dim ond pan fydd gwir angen y maent yn recriwtio? Ydych chi'n credu bod risg ynghlwm wrth recriwtio, ynteu ydych chi'n ceisio recriwtio drwy'r amser?

10. A allwch chi sôn ychydig mwy am sut, os o gwbl, y dylanwadwyd ar y broses recriwtio gan y ffaith bod Cymorth Recriwtio i Gyflogwyr ar gael drwy'r rhaglen Mynediad?

Awgrymiadau: A fydddech chi wedi recriwtio rhywun beth bynnag? Pam wnaethoch chi recriwtio yn gynt na'r bwriad (os dyma ddigwyddodd), ac ati... A wnaethoch chi newid eich cynlluniau mewn unrhyw ffordd arall?

11. A wnaeth y rhaglen Mynediad unrhyw wahaniaeth i'r cyflog/y telerau a'r amodau a gynigiwyd i'r gweithiwr newydd?

Awgrymiadau: Esboniwch pam – ai dim ond oherwydd y byddai cymhorthdal tuag at y cyflog am gyfnod?

12. A oedd ymgeiswyr eraill a allai fod wedi gwneud y swydd ond a gafodd eu gwrthod gan eich bod wedi recriwtio rhywun o dan y rhaglen Mynediad? A allwch chi sôn rhywfaint mwy am y penderfyniad hwnnw?

Awgrymiadau: A oedd ganddynt gymwysterau gwell neu waeth? A oedd ganddynt fwy neu lai o sgiliau a phrofiad? Pa ddylanwad ar eich penderfyniad, os o gwbl, a gafodd y ffaith eu bod wedi colli eu swydd yn ddiweddar?

13. Ym mha ffyrdd y mae'r busnes wedi elwa o ganlyniad i'r ffaith bod y rhaglen Mynediad wedi cyfrannu at y cyflog?

Awgrym: Pam eich bod yn credu eich bod wedi elwa yn y ffyrdd hyn?

14. Pa welliannau, os o gwbl, y gallech eu hawgrymu i'r Cymorth Recriwtio i Gyflogwyr o dan y rhaglen Mynediad?

Awgrym: Lefel/maint y cymorth ariannol, prosesau ymgeisio, y cyngor a'r cyfarwyddyd sydd ar gael

15. A yw'ch profiad o dan y rhaglen Mynediad wedi'ch gwneud yn fwy neu'n llai tebygol o recriwtio rhywun sy'n ddi-waith yn y dyfodol? A allwch chi sôn rhywfaint mwy am pam eich bod yn credu hyn?

Awgrymiadau: Ac ystyried eich cynlluniau recriwtio presennol, pa mor debygol yw y byddwch yn recriwtio pobl ddi-waith/pobl sydd wedi colli eu swyddi?

BLOC B: CYMORTH HYFFORDDIANT I GYFLOGWYR

Y cyfwelydd: Cofiwch holi a yw'r cyflogwr wedi cael Cymorth Hyfforddiant i Gyflogwyr

16. Yn gyffredinol, sut fydddech chi'n disgrifio agwedd eich cwmni at hyfforddiant, a faint o hyfforddiant sy'n cael ei roi i'ch staff?

Awgrymiadau: A yw hyn yn flaenoriaeth i'r busnes? A yw hyn yn digwydd yn rheolaidd yn y busnes? Ai dim ond pan fydd gwir angen y bydd hyn yn digwydd?

17. Rydych chi'n dweud eich bod wedi defnyddio cyllid o dan y rhaglen Mynediad i dalu am hyfforddiant. A allwch chi sôn mwy am y math o hyfforddiant a roesoch chi gan ddefnyddio cyllid i y rhaglen Mynediad, ac yn benodol pam y bu ichi benderfynu defnyddio'r cyllid i roi'r cwrs hyfforddiant hwnnw?

Awgrymiadau: A oedd yr hyfforddiant yn hanfodol i'r penodiad a'r gallu i gyflawni'r swydd? Sut y cafodd sgiliau'r gweithiwr eu hasesu? Faint o ystyriaeth a roesoch i'r union hyfforddiant a fyddai'n cael ei roi?

18. A fydddech chi wedi rhoi'r un hyfforddiant pe na bai'r cymorth wedi bod ar gael? Os na fydddech chi wedi rhoi'r hyfforddiant hwn, beth fydddech chi wedi'i wneud yn lle hynny, a beth fyddai effaith hyn yn eich barn chi?

Awgrymiadau: Beth yw'r prif ffactorau y byddwch chi'n eu hystyried? A fyddai'r gweithiwr wedi bod yn llai effeithiol yn ei swydd heb gael yr hyfforddiant? Ym mha ffyrdd?

19. Pa mor debygol yw y byddwch chi'n rhoi'r un hyfforddiant a roesoch gyda chyllid y rhaglen Mynediad yn y dyfodol, ond heb i'r cyllid gael ei ddarparu? Esboniwch eich ateb.

Awgrymiadau: Beth yw'r prif ffactorau y byddwch chi'n eu hystyried wrth wneud y penderfyniad hwnnw?

20. Soniwch fwy am sut y mae'r unigolion dan sylw wedi elwa o gael yr hyfforddiant a roddwyd gyda chyllid y rhaglen Mynediad.

Awgrymiadau: A ydynt wedi gallu defnyddio'u sgiliau'n uniongyrchol yn y gweithle – unrhyw enghreifftiau?

21. A allwch chi sôn mwy am sut y mae'r busnes wedi elwa o'r hyfforddiant hwn?

Awgrymiadau: A allwch chi sôn ychydig mwy am pam eich bod yn credu bod yr unigolyn a'r busnes wedi elwa yn y ffordd honno? Beth oedd y prif bethau a arweiniodd at elwa yn y fath fodd?

22. Pa welliannau, os o gwbl, y gallech eu hawgrymu i'r Cymorth Hyfforddiant i Gyflogwyr o dan y rhaglen Mynediad?

BLOC C: CYFLOGWYR NA WNAETH DDEFNYDDIO'R CYMORTH HYFFORDDIANT I

GYFLOGWYR:

23. [Os na wnaeth y sawl sy'n cael ei gyfweld ddefnyddio'r Cymorth Hyfforddiant i Gyflogwyr] Ni chawsoch chi'r grant a oedd ar gael drwy'r rhaglen Mynediad i helpu gyda chostau hyfforddi gweithwyr newydd. A allwch chi sôn mwy am pam y bu ichi benderfynu peidio â chael y cymorth hwn?

Awgrym: Beth oedd y prif ffactorau a ddylanwadodd ar y penderfyniad hwn? Gweler y tabl awgrymiadau isod ar gyfer cwestiynau dilynol.

<i>Cwestiynau dilynol i Gwestiwn 23</i>	
<i>Y rheswm a roddwyd</i>	<i>Cwestiynau dilynol posibl</i>
Cafodd y cais ei wrthod	Pam y cafodd y cais ei wrthod? Pa hyfforddiant? A roddwyd yr hyfforddiant beth bynnag? Os naddo – sut y byddent wedi elwa o'r hyfforddiant, a beth oedd effaith peidio â rhoi'r hyfforddiant?
Nid oedd angen rhagor o hyfforddiant ar yr unigolyn a recriwtiwyd	Dim llawer mwy i'w ddweud fan hyn? Os na thrafodwyd hyn eisoes – a wnaethant asesu'r anghenion sgiliau (a sut)? O bosibl: Wrth edrych yn ôl, a oedd unrhyw hyfforddiant y byddent wedi hoffi'i roi gan ddefnyddio'r Cymorth Hyfforddiant i Gyflogwyr? Os hynny – sut y byddent wedi elwa o'r hyfforddiant, a beth oedd effaith peidio â rhoi'r hyfforddiant?
Ddim yn ymwybodol bod y cymorth ar gael	A fydddech chi wedi defnyddio'r cymorth hwn pe baech chi'n gwybod amdano? Os hynny – i roi pa hyfforddiant, pa fanteision fyddai i hynny, ac ati.
Nid oedd hyfforddiant addas ar gael	Pa hyfforddiant (os o gwbl) yr oeddent yn awyddus i'w roi? A wnaethant drafod â rhywun sut i ddod o hyd i gwrs addas? Sut y byddent wedi elwa o'r hyfforddiant, a beth oedd effaith peidio â rhoi'r hyfforddiant?
Roedd hyfforddiant yn cael ei roi neu'i gyllido yn fewnol neu gyda chyllid o ffynhonnell arall	Pa ffynhonnell? Pam defnyddio cyllid mewdol/cyllid arall yn hytrach na'r Cymorth Hyfforddiant i Gyflogwyr?
Nid oedd y grant a oedd ar gael yn ddigon i dalu am yr hyfforddiant angenrheidiol	Faint yn brin oedd y grant? Pa hyfforddiant? A roddwyd yr hyfforddiant beth bynnag? Os naddo – pa hyfforddiant, sut y byddent wedi elwa ohono, a beth oedd effaith peidio â rhoi'r hyfforddiant?
<i>Cwestiynau dilynol i Gwestiwn 23</i>	

<i>Y rheswm a roddwyd</i>	<i>Cwestiynau dilynol posibl</i>
Wrth recriwtio'r unigolyn, nid oeddem yn sicr pa hyfforddiant y byddai ei angen arno	Wrth edrych yn ôl, a oedd unrhyw hyfforddiant y byddent wedi hoffi'i roi gan ddefnyddio'r Cymorth Hyfforddiant i Gyflogwyr? Os hynny, pa hyfforddiant, sut y byddent wedi elwa ohono, a beth oedd effaith peidio â rhoi'r hyfforddiant?
Nid oeddem yn hoffi'r broses o wneud cais am y cymorth hyfforddiant	Pa hyfforddiant yr oeddent yn awyddus i'w roi? A roddwyd yr hyfforddiant beth bynnag? Os naddo – sut y byddent wedi elwa o'r hyfforddiant, a beth oedd effaith peidio â rhoi'r hyfforddiant?
Ddim yn gwybod [PEIDIWCH Â DARLLEN YN UCHEL]	Ydynt yn cofio clywed am y Cymorth Hyfforddiant i Gyflogwyr? Os nad ydynt, ydynt yn credu y byddent o bosibl wedi'i ddefnyddio? Ceisiwch holi am y rhesymau.

GORFFEN:

24. I gloi, beth yn eich barn chi oedd y prif fanteision i'r busnes o ddefnyddio cymorth y rhaglen Mynediad? A allwch chi sôn ychydig mwy am *pam* eich bod yn credu eich bod elwa yn y ffordd honno? Beth oedd y prif bethau a arweiniodd at elwa yn y fath fodd?

25. A fu unrhyw effeithiau negyddol ar y busnes?

Beth, os o gwbl, a fyddai'n wahanol am eich busnes heddiw pe na baech chi wedi cael cefnogaeth drwy'r rhaglen Mynediad?

26. Oes gennych chi ragor o sylwadau yr hoffech chi eu gwneud?

Cyfweliadau â Rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru

Cyflwyniad:

1. Fel cyflwyniad, a allwch chi ddweud ym mha adran rydych chi'n gweithio yn Llywodraeth Cymru a'ch swydd benodol yn yr adran honno?
2. Sut y bu ichi ymwneud â'r rhaglen Mynediad/pa gyswllt fu gennych â'r rhaglen?

Pa mor addas yw'r polisi:

3. Beth yw eich dealltwriaeth o'r rhesymeg dros y rhaglen Mynediad?
 - a. Pa mor gryf yw'r rhesymeg hon yn eich barn chi?
 - b. I ba raddau y mae'r rhesymeg hon yn dal yn ddilys?
4. Yn eich barn chi, pa mor dda y mae'r rhaglen Mynediad yn cyd-fynd â pholisïau eraill yn ardal Tasglu'r Cymoedd?
 - a. Pa mor dda yw'r rhaglen yn benodol o ran helpu ym maes cyflogadwyedd?
5. Yn eich barn chi, pa mor dda y mae'r Rhaglen yn cyd-fynd â pholisïau eraill Llywodraeth Cymru ym maes cyflogadwyedd?

Cyflawni:

6. Os allwch chi roi sylw am hyn, pa mor llwyddiannus yn eich barn chi fu'r rhaglen Mynediad wrth sicrhau canlyniadau cyflogaeth i gyfranogwyr?
 - a. A oes unrhyw lwyddiannau penodol?
 - b. A wynebwyd unrhyw heriau? A oes unrhyw elfennau o'r gefnogaeth nad ydynt wedi gweithio cystal?
7. Pa mor effeithiol fu'r dull aml-asiantaeth o weithio?

Natur y Rhaglen a Dysgu:

8. Pe bai'r rhaglen Mynediad yn cael ei darparu eto, a fydddech chi'n newid y rhaglen bresennol mewn unrhyw ffordd?
9. Beth, os o gwbl, yw'r gwersi sydd wedi'u dysgu o'r rhaglen Mynediad?
10. Sut, os o gwbl, y mae'r hyn a ddysgwyd o'r rhaglen Mynediad wedi'i ddefnyddio wrth i Lywodraeth Cymru greu ei gynllun cymorth cyflogadwyedd newydd, Cymru'n Gweithio?
11. Gorffen:
12. A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ychwanegu am y rhaglen Mynediad?

Atodiad D: Nodyn Preifatrwydd

Gwerthuso'r Rhaglen Mynediad

CEFNDIR Y GWAITH YMCHWIL

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Wavehill i gynnal gwerthusiad o raglen Mynediad Llywodraeth Cymru. Dechreuodd y gwaith gwerthuso ym mis Ionawr 2019 ac mae disgwyl iddo ddod i ben ym mis Ebrill 2019. Bydd gwerthusiad annibynnol yn golygu bod modd cynnal asesiad cadarn o natur y rhaglen Mynediad, y broses o'i rhoi ar waith, a'i chanlyniadau. Bydd hefyd yn fodd o ddysgu gwersi ar gyfer gwneud gwaith yn y maes hwn yn y dyfodol.

Bydd y gwerthusiad yn edrych ar sut y mae'r rhaglen wedi'i chyflawni, gan ddangos y prif lwyddiannau a'r meysydd i'w datblygu ymhellach yng nghyd-destun rhaglen newydd Cymru'n Gweithio a Chyngor am Waith Cymru, ynghyd ag asesu effaith y rhaglen ar y buddiolwyr a'i heffaith ehangach ar ardal Tasglu'r Cymoedd. Fel rhan o'r gwaith gwerthuso hwn, mae Wavehill yn casglu gwybodaeth drwy gyfweiliadau â'r buddiolwyr a gafodd gyllid o dan y rhaglen, swyddogion Llywodraeth Cymru, a rhanddeiliaid sectorau sydd wedi ymwneud â'r rhaglen.

Bydd y wybodaeth sydd wedi'i chasglu'n ystod y prosiect yn cael ei chynnwys mewn adroddiad a gyhoeddir ar wefan Llywodraeth Cymru, ac o bosibl mewn cyhoeddiadau eraill gan Wavehill a Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru yw rheolwr data'r gwaith ymchwil. Fodd bynnag, bydd Wavehill yn dileu unrhyw ddata personol a ddarperir drwy'r cyfweiliadau, ac yn sicrhau bod y data crai'n ddienw, cyn eu rhannu â Llywodraeth Cymru.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y gwaith gwerthuso, cysylltwch â Tom Marshall yn Wavehill (tom.marshall@wavehill.com).

NODYN PREIFATRWYDD

Data Personol

Diffinnir data personol o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) fel “unrhyw wybodaeth yn ymwneud ag unigolyn adnabyddadwy a allai gael ei adnabod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol wrth gyfeirio at ddyfais adnabod”.

Bydd Wavehill yn defnyddio eich data personol i gysylltu â chi at ddibenion trefnu cyfweiliad. Llywodraeth Cymru fydd yn rhoi'r cyfeiriadau e-bost a'r rhifau ffôn i Wavehill.

Ymgynghori â buddiolwyr y rhaglen Mynediad:

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi cyfeiriadau e-bost / rhifau ffôn buddiolwyr i Wavehill.

Cyfweiliadau â chyflogwyr:

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi cyfeiriadau e-bost / rhifau ffôn cyflogwyr i Wavehill.

Cyfweiliadau â Gyrfa Cymru:

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi cyfeiriadau e-bost / rhifau ffôn gweithwyr Gyrfa Cymru i Wavehill.

Cyfweiliadau â'r prif randdeiliaid:

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi cyfeiriadau e-bost / rhifau ffôn y prif randdeiliaid i Wavehill.

Wrth gymryd rhan, byddwch yn gwneud hynny'n wirfoddol, ac os nad ydych chi'n dymuno cymryd rhan na chael negeseuon atgoffa, yna atebwch yr e-bost sy'n cynnwys y gwahoddiad i nodi hynny, a bydd eich manylion yn cael eu dileu. Dim ond at ddibenion y gwaith gwerthuso hwn y bydd Wavehill yn defnyddio cyfeiriadau e-bost a rhifau ffôn.

Os rhoddir data personol mewn ymatebion i gwestiynau agored, ni fyddwn yn ceisio'ch adnabod o'r ymatebion a roddwch, nac yn cysylltu'r ymateb â phwy ydych chi.

Os bydd gennych ymholiad neu os gwnewch gŵyn sy'n galw am ymateb, ac os byddwch yn rhoi data personol wrth wneud hynny, bydd yr ymchwilydd yn anfon y cais ymlaen at un o swyddogion Llywodraeth Cymru'n unig, ac yna'n dileu'r cais o ddata'r ymchwil. Bydd unrhyw wybodaeth y gellir ei defnyddio i adnabod pobl yn cael ei thynnu o'r data craidd gan Wavehill cyn gwneud y gwaith dadansoddi, a bydd y canlyniadau oll yn ddienw.

Beth yw'r sail gyfreithlon dros casglu'r data?

Y sail gyfreithlon dros brosesu gwybodaeth yn y gwaith casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, cyflawni'r awdurdod swyddogol sydd gennym i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru.

Wrth gymryd rhan, mae pobl yn gwneud hynny'n gwbl wirfoddol. Fodd bynnag, mae astudiaethau ymchwil fel hyn yn bwysig i Lywodraeth Cymru wrth gasglu gwybodaeth a thystiolaeth y gellir gweithredu arni ynghylch ei gallu i gyflawni blaenoriaethau'r llywodraeth.

Pa mor ddiogel yw unrhyw ddata personol a gyflwynir?

Bydd gwybodaeth personol a roddir i Wavehill wastad yn cael ei storio ar weinydd diogel. Dim ond nifer cyfyngedig o ymchwilwyr sy'n gwneud y gwaith gwerthuso a fydd yn gallu defnyddio'r data. Dim ond i gysylltu â hwy at ddibenion ymchwil y bydd ymchwilwyr Wavehill yn defnyddio manylion cyswllt cyfranogwyr.

Bydd unrhyw ddata personol a manylion a allai ddangos pwy yw unigolyn yn cael eu hepgor o'r adroddiadau gwerthuso a gaiff eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Er mai Llywodraeth Cymru yw rheolwr data'r gwerthusiad hwn, bydd Wavehill yn hepgor unrhyw wybodaeth sy'n dangos pwy yw pobl o drawsgrifiadau'r cyfweiliadau. O ganlyniad, wrth wneud y gwerthusiad hwn, ni roddir unrhyw wybodaeth i Lywodraeth Cymru sy'n dangos pwy yw pobl.

Mae gan Wavehill weithdrefnau i ddelio ag unrhyw achosion posibl o weithredu'n groes i'r trefniadau diogelwch data. Os bydd achos posibl o hynny, bydd Wavehill yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru a fydd yn rhoi gwybod i chi ac i unrhyw reoleiddiwr perthnasol pan fydd gofyniad cyfreithiol arnom i wneud hynny. Mae gan Wavehill ardystiad Hanfodion Seiber.

Bydd yr holl ddata a gesglir drwy'r gwaith ymchwil hwn yn cael eu cyflwyno mewn fformat dienw. Ni fyddant yn cynnwys eich manylion cyswllt a bydd unrhyw wybodaeth mewn atebion agored a allai ddangos pwy ydych yn cael ei hepgor. Bydd Wavehill yn defnyddio'r data i greu adroddiad i Lywodraeth Cymru. Ni fydd yr adroddiad hwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth a allai gael ei defnyddio i adnabod cyfranogwyr unigol.

At hynny, bydd Wavehill yn rhoi fersiwn dienw o'r set ddata i Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn golygu na fydd y set ddata'n cynnwys gwybodaeth a allai ddangos pwy ydych chi. Yn benodol, bydd eich enw, eich cyfeiriad a'ch manylion cyswllt eraill yn cael eu dileu o'r set ddata hon.

Am ba mor hir y byddwch chi'n cadw unrhyw ddata personol a gyflwynir?

Bydd Wavehill yn cadw data personol yn ystod cyfnod y contract, a bydd unrhyw ddata personol nad ydynt wedi'u dileu eisoes yn cael eu dileu dri mis ar ôl diwedd y contract.

Hawliau unigolion

O dan GDPR, mae gennych yr hawliau canlynol mewn perthynas â'r wybodaeth personol y byddwch chi'n ei darparu fel rhan o'r gwerthusiad hwn. Mae gennych hawl i'r canlynol:

- I weld copi o'ch data'ch hun;
- I ofyn inni gywiro unrhyw bethau anghywir yn y data hynny;
- I wrthwynebu neu gyfyngu prosesu'r data (mewn rhai amgylchiadau);
- I'ch data gael ei ddileu (mewn rhai amgylchiadau); ac
- I gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ym maes diogelu data.

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Sir Gaer, SK9 5AF. Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113.

Gwefan: www.ico.gov.uk

Rhagor o wybodaeth

Os bydd gennych ragor o gwestiynau ynghylch sut y bydd Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r data a roddir fel rhan o'r astudiaeth hon, neu i arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, cysylltwch â:

Jenny Madge (Yr Is-adran Cyflogadwyedd a Sgiliau, Llywodraeth Cymru), Ffôn: 03000255948, E-bost: Jenny.Madge@llyw.cymru

Gellir cysylltu â Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru yn:

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ, E-bost: swyddogdiogeludata@llyw.cymru.

Atodiad E: Astudiaethau Achos y Rhaglen Mynediad

Business Industrial Solutions

- 8.1 Cwmni gwerthu a marchnata o Lyn Ebwy yw Business Industrial Solutions (BIS), yn arbenigo'n bennaf mewn darparu cyflenwadau diwydiannol a nwyddau traul. Sefydlwyd y cwmni yn 1973, ac mae 45 aelod o staff yn rhan o dîm BIS bellach. Ymhlith y cynhyrchion y maent yn eu gwerthu mae offer llaw, dillad amddiffynnol, a gwasanaethau rheoli cyfleusterau.
- 8.2 Drwy'r Cymorth Recriwtio i Gyflogwyr o dan y rhaglen Mynediad, mae'r cwmni wedi gallu recriwtio aelod ychwanegol o staff sy'n dal i weithio gyda BIS heddiw. Clywodd y cwmni am y rhaglen Mynediad yn wreiddiol drwy'r Ganolfan Byd Gwaith, pan gysylltodd rhywun a weithiai yno â'r sefydliad a chrybwyll bod ganddynt ymgeisydd a allai fod o fudd i'r busnes. Yn ystod y sgwrs, soniwyd hefyd y byddai cymorth ar gael iddynt drwy'r rhaglen Mynediad pe baent yn dewis cyflogi'r unigolyn.
- 8.3 Wrth ystyried a fyddai'n gwneud cais am gymorth drwy'r rhaglen Mynediad neu beidio, ar wahân i'r elfen ariannol amlwg, rhoddodd y busnes ystyriaeth i'r canlynol: ansawdd y darpar ymgeiswyr, rhwyddineb y broses weinyddol, a'r amser y byddai ei angen i gwblhau'r broses. Mae BIS wedi ymwneud â'r cynllun Twf Swyddi Cymru yn y gorffennol, ond nid yw wedi manteisio ar unrhyw gynlluniau cymorth recriwtio eraill.
- 8.4 Fel arfer wrth recriwtio staff newydd, bydd BIS yn defnyddio dull sy'n targedu'n benodol yr hyn maent yn chwilio amdano. Anghenion y busnes ar y pryd sy'n gyrru'r broses hon:
- “Mae'n gweithio mewn cylchoedd, ond nid oes gennym drosiant staff uchel. Byddwn yn gwneud mwy o recriwtio pan fyddwn yn amrywio'r hyn rydym yn ei gynnig.”*
- 8.5 Er enghraifft, dywedodd y cwmni ei fod wedi dechrau gwneud mwy a mwy o waith rheoli cyfleusterau ac felly bu galw am recriwtio mwy o grefftwyr. Er gwaethaf y tueddiadau hyn mewn recriwtio, dywedwyd bod y staff craidd yn aros yn gyson, waeth beth fydd y newidiadau yn y galw.
- 8.6 O ran y Cymorth Recriwtio i Gyflogwyr drwy'r rhaglen Mynediad, a dylanwad hynny ar broses recriwtio BIS, roedd y cwmni'n cydnabod ei fod ar yr achlysur hwn wedi newid ei weithdrefnau arferol:

“Roedd hyn yn ffactor, oherwydd ar y pryd nid oeddem o anghenraid yn ceisio llenwi swydd.”

- 8.7 Yr hyn a berswadiodd BIS i newid ei weithdrefn recriwtio arferol, yn hytrach na glynu wrth dargedu, oedd y ffaith ei fod yn credu bod y rhaglen Mynediad yn ffordd gost-effeithiol o gyflogi aelod newydd o staff. Roedd yr unigolyn a gafodd ei gynnig iddynt yn rhywun a allai gyfrannu’n dda at y sefydliad, a dylanwadodd y ffaith hon ar y penderfyniad. Ond roedd y cymhelliad ariannol ychwanegol hefyd yn golygu bod y cwmni’n fwy parod i ymrwymo i gyflogi’r unigolyn yn syth, yn hytrach na dilyn proses recriwtio arferol y cwmni.
- 8.8 Mae’n bwysig dweud hefyd mai dim ond ar y rhan hon o broses recriwtio BIS y dylanwadodd y rhaglen Mynediad. Roedd y gweithiwr a gafodd ei gyflogi gyda chymorth y rhaglen yn cael yr un cyflog a’r un telerau contract ag unrhyw weithiwr arall. At hynny, ni chafodd unrhyw ymgeiswyr eraill eu diystyru yn ystod y broses, gan mai’r Ganolfan Byd Gwaith leol oedd wedi cysylltu â’r cwmni a chan na chafodd y swydd erioed ei hysbysebu’n gyhoeddus.
- 8.9 Nid oedd modd i BIS roi sylwadau ynghylch sut y gallai’r busnes fod wedi elwa o gyfraniad y rhaglen Mynediad at y cyflog, oherwydd pan gynhaliwyd y cyfweliad â’r cwmni, nid oedd wedi cael unrhyw daliadau eto gan y rhaglen. Roedd hyn oherwydd problem gyfathrebu yn ymwneud â’r gwaith papur yn ystod y broses ymgeisio, ac er bod y ddogfen honno yn y cyfamser wedi’i hanfon, dywed BIS ei fod yn dal i aros am ateb neu gydnabyddiaeth bod y ddogfen angenrheidiol wedi cyrraedd pen ei thaith. Mae’r cwmni’n dweud mai’r broblem gyfathrebu hon oedd yr unig broblem a wynebodd gyda phroses y Cymorth Recriwtio i Gyflogwyr o dan y rhaglen Mynediad:

“Ni chafodd hyn ei esbonio’n glir iawn, dim ond ar ôl inni gyflogi’r gweithiwr am sawl mis y clywais i am hyn, ac fe ddylai fod rhyw fath o wiriad yn cael ei wneud i osgoi’r fath sefyllfa, ac os nad hynny, dylwn fod wedi clywed am y peth cyn hyn.”

8.10 Dywedodd BIS nad oedd yn ymwybodol o'r Cymorth Hyfforddiant i Gyflogwyr sydd ar gael drwy'r rhaglen Mynediad, ond roedd yn cydnabod y gallai hyn fod oherwydd y modd y clywodd am y rhaglen, sef drwy'r Ganolfan Byd Gwaith. Dywedodd y cyflogwr ei fod yn rhoi'r rhan fwyaf o'i hyfforddiant yn fewnol, ac y byddai'n annhebygol y byddai'r cymorth hwn wedi cael rhyw lawer o effaith arno. Fodd bynnag, roedd yn cydnabod y gallai rhywfaint o hyfforddiant ychwanegol fod wedi bod yn berthnasol i'r busnes.

8.11 Yn ôl y cyflogwr, prif fantais cymorth y rhaglen Mynediad yw ei fod wedi rhoi cyfle i'r busnes weithio gydag unigolyn na fyddai o anghenraid wedi bod yn llwyddiannus yn y broses gyfweld arferol, sy'n denu nifer fawr o bobl. Roedd yn gyfle i'r sefydliad ddeall set sgiliau'r gweithiwr mewn amgylchedd gwaith, ac ni fyddai hyn wedi bod yn bosibl pe bai'r cwmni wedi defnyddio'i broses recriwtio draddodiadol.

“Rydym wedi dod o hyd i weithiwr sydd wedi dod yn rhan o'r tîm yn gyflym, yn rhan o'r broses o redeg y swyddfa o ddydd i ddydd, ac efallai na fyddem wedi llwyddo i wneud hynny fel arall. Rwyf wedi dysgu mai nad wrth ei big mae prynu cyffyllog.”

8.12 O ran sut y mae'r rhaglen wedi dylanwadu ar ba mor debygol yw BIS o recriwtio rhywun sy'n ddi-waith yn dyfodol, ers ei brofiad â'r rhaglen Mynediad, mae'r cwmni'n dweud ei fod wedi cyflogi rhywun arall mewn sefyllfa debyg. Mae'r busnes yn teimlo bod y broses wedi'i helpu i “werthfawrogi sgiliau rhywun sydd wedi bod yn ddi-waith ers tro”, gan ddangos sut y mae'r rhaglen wedi dylanwadu ar agweddau, ond ar ben hynny, sut y mae'n dylanwadu ar benderfyniadau busnes yn y dyfodol ymhlith y sefydliadau sy'n cymryd rhan.

“Heb ddefnyddio'r rhaglen hon, fyddwch chi ddim yn sylweddoli y gall pobl gyflawni llawer yn gyflym, dim ond o roi cyfle iddynt. A rhoi'r cyfle hwnnw yw'r peth pwysig.”

Transcend Packaging

- 8.13 Cwmni preifat o Ystrad Mynach yw Transcend Packaging; fe'i sefydlwyd yn 2017. Mae'n gwmni gweithgynhyrchu sy'n arbenigo mewn tri chategori gwahanol o gynnyrch: cwpanau papur, argraffu a phe cynnu, ac yn olaf gweithgynhyrchu gwellt yfed papur, sef y categori mwyaf proffidiol. Mae gan y cwmni dîm craidd o 65 o bobl. Ond mae hefyd yn defnyddio staff asiantaeth, ac mae 95 o weithwyr o'r fath ar gael iddo. Mae'r cwmni wedi recriwtio pedwar gweithiwr drwy'r Cymorth Recriwtio i Gyflogwyr o dan y rhaglen Mynediad. O'r pedwar, mae tri yn dal i gael eu cyflogi gan y cwmni, a'r llall wedi gadael y cwmni ar ôl gweithio yno am bum neu chwe mis.
- 8.14 Cymhelliad ariannol y rhaglen Mynediad oedd y prif reswm pam ddewisodd y cwmni wneud cais am gymorth drwyddi. Dywedodd y cyflogwr fod y cyfraniad tuag at y cyflog wedi rhyddhau arian i dalu am gostau cychwynnol datblygu'r busnes, fel gosod peiriannau ar y safle. Drwy gael cymorth gan y rhaglen Mynediad tuag at gyflogau'r rheini a recriwtiwyd yn ystod eu misoedd cyntaf yn y swydd, roedd modd rhoi mwy o sefydlogrwydd i'r busnes, gan na fyddai cymaint o risg yn deillio o gael bil cyflogau uwch.
- 8.15 O ran polisi recriwtio'r cwmni, dywedodd Transcend Packaging y byddai wedi recriwtio hyd yn oed heb gael cymorth ariannol. Mae'r sefydliad yn parhau i recriwtio a bu'n brysur iawn yn hyn o beth drwy gydol 2019. Yn ystod y cyfnod hwn mae'r cwmni wedi tyfu o rhwng 20 a 30 o bobl ar ddechrau'r flwyddyn i'r lefelau staffio presennol. Pan ddefnyddir staff asiantaethau, gall nifer y gweithwyr fod mor uchel â 160. Dywedir bod trosiant y staff yn eithaf nodweddiadol o'r diwydiant gweithgynhyrchu, gyda rhan fwyaf y bobl sy'n dewis gadael y cwmni'n gyflym yn staff asiantaeth sy'n penderfynu nad yw'r gwaith yn addas iddynt. Dywedodd Transcend Packaging fod trosiant eu gweithwyr craidd yn is na'r cyfartaledd yn y sector.
- 8.16 O ran i ba raddau y mae'r Cymorth Recriwtio i Gyflogwyr o dan y rhaglen Mynediad wedi dylanwadu ar y broses recriwtio yn Transcend Packaging, awgrymwyd nad oedd y rhaglen wedi cael effaith fawr ar hynny:

“Go brin ei fod wedi [cael effaith], a bod yn onest. Nid ydym yn defnyddio'r rhaglen Mynediad yn bwrpasol fel rhan o'r broses recriwtio, ac nid yw'n rhywbeth bwriadol. Rydym wedi bod mor brysur yn ddiweddar, ac rydym yn recriwtio mewn ffyrdd gwahanol.”

- 8.17 Nid yw'n ymddangos bod cymorth y rhaglen Mynediad wedi dylanwadu chwaith ar y cyflog na'r telerau a'r amodau sy'n cael eu cynnig i weithwyr newydd. Yn yr un modd, dywedodd y cwmni nad oedd y ffaith bod cymorth ar gael wedi dylanwadu ar bwy oedd yn cael ei recriwtio:

“Ni fyddem wedi diystyru neb a oedd yn fwy cymwys neu â mwy o sgiliau. Roedd yn gymorth inni fel busnes newydd, ac yn adnodd buddiol ychwanegol, yn hytrach nag yn rhywbeth a oedd yn llywio pwy'r oeddem yn ei gyflogi.”

- 8.18 Dilynodd gweithwyr a recriwtiwyd drwy'r Cymorth Recriwtio i Gyflogwyr o dan y rhaglen Mynediad yr un broses recriwtio â phob ymgeisydd arall, ac maent wedi cael eu trin yn yr un ffordd ag ymgeiswyr eraill. Nid yw'r manteision ariannol wedi bod yn ffactor sy'n dylanwadu ar y broses recriwtio yn hyn o beth. Awgrymodd y cwmni mai'r unig beth y gellid ei wella gyda'r Cymorth Recriwtio i Gyflogwyr o dan y rhaglen Mynediad yw'r gwaith papur sy'n rhaid ei gwblhau er mwyn gwneud cais. Yn benodol, ac yntau'n gwmni sy'n talu ei weithwyr yn fisol, roedd yn feichus gorfod cyfrifo'r symiau wythnosol er mwyn bodloni gofynion y broses ymgeisio. Roedd y cwmni ar y dechrau'n anfoddog â'r syniad o orfod gwneud hyn.

- 8.20 Defnyddiodd Transcend Packaging hefyd y Cymorth Hyfforddiant i Gyflogwyr sydd ar gael drwy'r rhaglen Mynediad. Gyda chymorth cyllid y rhaglen Mynediad, bu modd i'r cwmni roi hyfforddiant cymorth cyntaf i'w staff. Fodd bynnag, dywedodd nad oedd y sgiliau a ddysgwyd drwy'r hyfforddiant yn hanfodol o ran rhoi swyddi i unigolion na'u gallu i gyflawni eu gwaith o ddydd i ddydd. Yn hytrach, mân fantais i'r busnes oedd y gallu i roi hyfforddiant:

“Y prif reswm pam y gwnaethom ddefnyddio'r Cymorth Hyfforddiant i Gyflogwyr oedd oherwydd ei bod bob amser yn ddefnyddiol cael mwy o bobl sy'n gallu rhoi cymorth cyntaf ar y safle.”

- 8.21 Yn y dyfodol, teimlai'r cwmni ei bod yn debygol iawn y byddai'n rhoi'r un hyfforddiant â hwnnw a drefnodd gyda chyllid y rhaglen Mynediad, gan ei fod yn cydnabod ei bod yn bwysig i'r busnes gael cynifer o bobl â phosibl ar y safle sydd wedi'u hyfforddi mewn cymorth cyntaf.

- 8.22 O ran sut y mae'r Cymorth Hyfforddiant i Gyflogwyr wedi bod o fudd i'r busnes, o ganlyniad i hyn, mae unigolion wedi meithrin setiau sgiliau newydd, gan elwa o hynny'n bersonol. Cyn cael hyfforddiant, nid oedd unrhyw un o'r gweithwyr a recriwtiwyd drwy'r rhaglen Mynediad wedi cael unrhyw hyfforddiant mewn cymorth cyntaf. O safbwynt yr holl gwmni, roedd teimlad bod yr hyfforddiant wedi helpu i ychwanegu at setiau sgiliau'r gweithwyr, gan eu galluogi i gyfrannu gan ddefnyddio mwy na dim ond eu harbenigedd mewn gweithgynhyrchu a rheoli.
- 8.23 Yn gyffredinol, prif fanteision cymorth y rhaglen Mynediad i Transend Packaging oedd ei fod wedi galluogi'r cwmni i recriwtio mwy o staff, wedi gwneud swyddi'n fwy diogel, ac wedi galluogi'r busnes i roi hyfforddiant i aelodau o staff a oedd yn fuddiol, nid yn unig gan fod hynny wedi ehangu set sgiliau'r cwmni, ond gan ei fod hefyd wedi sicrhau bod y staff yn "gallu gweld ein bod yn buddsoddi yn ôl ynddynt."
- 8.24 Ar ôl cael cymorth gan y rhaglen Mynediad, dywedodd y cwmni y byddai bellach yn fwy tebygol o recriwtio rhywun sy'n ddi-waith yn y dyfodol, er y byddai fymryn yn betrus cyn defnyddio cymorth y rhaglen Mynediad eto, oherwydd bod y broses o wneud cais braidd yn feichus.
- 8.25 Drwyddi draw, pe na bai wedi cael cymorth gan y rhaglen Mynediad, teimlai Transcend Packaging na fyddai gwahaniaethau mawr yn sut mae'r busnes yn gweithio ar hyn o bryd. Roedd hyn gan mai dim ond pedwar aelod o staff oedd y cwmni wedi'u recriwtio gyda chymorth y rhaglen, sy'n nifer bychan o'i gymharu â'r holl aelodau o staff mae'n eu cyflogi.

Abertawe Sectional Buildings

8.26 Codi adeiladau concriid yw gwaith busnes Abertawe Sectional Buildings. Un safle sydd gan y busnes, yn Llansamlet, lle cafodd y cwmni ei sefydlu 35 mlynedd yn ôl. Busnes teuluol yw'r cwmni, ac aelodau o'r teulu yw'r rhan fwyaf o'r rheini sydd wedi'u cyflogi ganddo.

8.27 Tan yn ddiweddar, roedd y cwmni'n cyflogi dau unigolyn nad oeddent yn perthyn i'r teulu, a'r ddau wedi gweithio i'r busnes ers dros ddeng mlynedd. Y gweithwyr hyn oedd yn gyfrifol am y gwaith adeiladu cyffredinol a'r gwaith tirlfesur. Fodd bynnag, gadawodd y ddau weithiwr heb roi rhybudd, gan roi'r perchennog mewn sefyllfa anodd tu hwnt.

“Cyn iddynt adael, roedd popeth yn gweithio'n hwylus, roedd gennym ddigon o gleientiaid, ac roedd popeth yn mynd yn dda. Ond pan adawodd y ddau, newidiodd popeth. Gadawodd y ddau heb roi rhybudd, ac roeddwn mewn twll. Roedd yn rhaid imi wrthod gwaith gan nad oedd gen i neb i'w gyflawni. O fod yn y swyddfa'n bennaf, roeddwn i wedyn yn gorfod ymweld â safleoedd. Fe gollwyd llawer o arian.”

8.28 Clywodd y perchennog am y cymorth a oedd ar gael drwy'r rhaglen Mynediad gan gyswllt yn y Ganolfan Byd Gwaith leol. Yn wreiddiol, roedd y perchennog wedi synnu bod y cymorth hwn ar gael.

8.29 Awgrymodd y perchennog mai'r cymorth ariannol oedd y peth cyntaf a'i hysgogodd i wneud cais, ac mai dim ond ar ôl gwneud hynny y gwir sylweddolodd y byddai'n cyflogi rhywun na wyddai ddim amdano.

“I mi'n bennaf, cael cymorth ariannol oedd y peth. Ni wnes ystyried y ffaith fy mod am fod yn cyflogi rhywun na wyddwn i ddim byd amdano, tan i hynny fy nharo ar ôl imi wneud cais. Na, go brin y byddai hyn wedi fy stopio, ond efallai y byddai wedi bod yn beth da gweld proffil yr unigolyn yn gyntaf.”

8.30 Dywedodd perchennog y busnes hefyd y byddai wedi hoffi cael mwy o gyswllt uniongyrchol â thîm Mynediad Llywodraeth Cymru ar y pwynt cynnar hwn yn y broses:

“Fe gefais i wybodaeth, ond ni wnes i erioed siarad â neb yn uniongyrchol. Fe geisiais i, ond bob tro y byddwn yn ffonio, roedd yr unigolyn perthnasol mewn cyfarfod. Rwy'n teimlo fy mod wedi paratoi beth bynnag, fy hun, ond byddai wedi

bod yn fuddiol cael rhywfaint o gefnogaeth un-i-un, hyd yn oed pe bai hynny ond drwy alwad ffôn am bum munud, i drafod popeth.”

- 8.31 Er ei fod yn sicr y byddai wedi gorfod recriwtio rhywun heb gymorth y rhaglen Mynediad, dywedodd y perchennog iddo'i chael yn anodd dod o hyd i amser i wneud hynny gan ei fod yn rhedeg y cwmni ar ei ben ei hun.

“Roeddwn hi'n hunangyflogedig ac ar fy mhen fy hun, felly doedd gen i ddim amser i chwilio rhyw lawer am gymorth. Rhywun arall a ddaeth o hyd i'r unigolyn hwn ar fy rhan. Roedd angen cymorth arna' i, felly roedd angen imi recriwtio, ond doeddwn i ddim mewn sefyllfa i chwilio am rywun fy hun.”

- 8.32 Yn hyn o beth, mae'n debygol bod cymorth y rhaglen Mynediad wedi rhoi ychwanegedd wrth gyflymu'r broses recriwtio, wrth helpu gyda'r broses honno, ac hefyd wrth leihau'r risg a oedd ynghlwm wrthi:

“Fe fyddwn wedi cyflogi rhywun yn y pen draw, ond rhoddodd hyn yr ysgogiad yr oedd ei angen arna' i i fwrw ati yn syth. Roeddwn mewn sefyllfa ariannol anodd, felly roedd cael y gefnogaeth honno'n golygu nad oedd recriwtio'n gymaint o risg â'r hyn a feddyliwn ar y dechrau.”

- 8.33 Awgrymodd y perchennog fod hyn wedi rhoi cyfleoedd newydd iddo ddatblygu'r busnes, gan leihau rhywfaint ar y baich ariannol o recriwtio, a'i alluogi i ganolbwyntio ar ddatblygu'r busnes gan wybod bod ganddo gymorth i redeg pethau o ddydd i ddydd.

“Rhoddodd hyn fymryn o ofod imi rhwng penodi rhywun a gorfod dechrau talu'r cyflog, gan olygu y gallwn gwblhau ychydig o brosiectau i ddechrau, ac roedd hynny'n amhrisiadwy imi. Roedd yn golygu dipyn llai o straen.”

- 8.34 Er gwaethaf y Cymorth Recriwtio i Gyflogwyr, teimlai'r perchennog mai dim ond yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol y gallai ei dalu tan oedd y busnes yn fwy sefydlog.

“Roedd cael cymhorthdal tuag at y cyflog yn help, ond ar y pryd ni allwn fod wedi cynnal neb ar ddim mwy na'r isafswm cyflog. Rydym am gynnal adolygiadau blynyddol ac mae'r opsiwn yno i gynyddu'r cyflog os bydd y sefyllfa'n newid.”

- 8.35 Maes arall lle bu ychwanegedd i'r busnes yw drwy'r Cymorth Hyfforddiant i Gyflogwyr. Drwy'r gronfa hon, bu modd i'r busnes roi hyfforddiant na fyddai fel arall wedi gallu'i roi:

“Doedd gen i ddim capasiti i dalu am hyfforddiant fy hun, ond drwy’r gronfa fe lwyddais i roi hyfforddiant y byddwn wedi’i chael hi’n anodd ei roi fel arall. Cawsom sgwrs a thrafod pa fath o hyfforddiant oedd yn hanfodol, a pha gyrsiau hyfforddiant a fyddai’n fuddiol, ac ar ôl hynny fe wnes restr mewn trefn blaenoriaeth, gan ddechrau gydag iechyd a diogelwch, hyd at reoli peiriannau. Doedd gan yr unigolyn ddim hyfforddiant na sgiliau yn y maes gwaith hwn mewn gwirionedd, felly roeddwn i bob pwrpas yn dechrau o’r dechrau.”

- 8.36 Yn gyffredinol, dywedodd y perchennog fod cymorth y rhaglen Mynediad wedi rhoi hwb pwysig i’r busnes, gan leihau’r risg wrth recriwtio a galluogi’r gweithiwr newydd i weithredu ar lefel uwch nag a fyddai wedi bod yn bosibl fel arall, a hynny drwy ariannu cyrsiau hyfforddi. Ar ôl ei brofiad, dim ond un peth y byddai’r perchennog wedi’i newid, sef cael mwy o gefnogaeth uniongyrchol gan dîm y rhaglen Mynediad.